DATGANIAD CYFRIFON

2012-13

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

CYNGOR SIR Y FFLINT

CYNNWYS

Cyngor Sir y Fflint

Rhagair Esboniadol 1 - 6

Datganiad o Gyfrifoldebau dros y Datganiad Cyfrifon 7

Datganiadau Ariannol Endid Sengl Craidd -

Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn 8 - 9

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 10

Mantolen fel ar 31ain Mawrth 2013 11 - 12

Datganiad Llif Arian am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 13

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol Craidd:

1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu 14 - 25
2. Adroddiadau Cylchrannol 26 - 28
3. Gwariant Gweithredol Arall 28
4. Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi 28 - 33
5. Incwm Grantiau Trethu ac Eraill 34 - 36
6. Darpariaeth ar gyfer Ad-dalu Benthyciadau Allanol 36
7. Addasiadau rhwng Sail Cyfrifo a Sail Ariannu yn unol â Rheoliadau 36 - 38
8. Partïon Perthnasol 39
9. Ffioedd Cyfrifo 39
10. Gwasanaeth gan Asiantaethau 39 - 40
11. Ad-dalu Swyddogion (yn cynnwys Pecynnau Gadael) 40 - 42
12. Prydlesu 42 - 44
13. Lwfansau Aelodau 44
14. Gweithredu Masnachol 44
15. Deddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 45
16. Asedau Anghyffwrdd 45
17. Eiddo, Peiriannau ac Offer 46 - 47
18. Buddsoddiad mewn Eiddo ac Ystadau Amaethyddol 48 - 49
19. Prisio Asedau 49 - 50
20. Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf 50 - 51
21. Buddsoddiadau Hirdymor 51
22. Dyledwyr Hirdymor 51
23. Llechresi 52
24. Dyledwyr Byrdymor 52
25. Buddsoddiadau Byrdymor 53
26. Arian Parod a Chyfwerth Arian Parod 53
27. Asedau ar Gyfer eu Gwerthu 53
28. Benthyciadau i'w Had-dalu yn Syth neu o Fewn 12 Mis 54
29. Credydwyr 54
30. Grantiau a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw 54
31. Benthyciadau Hirdymor 55
32. Cyflenwadau 55 - 56
33. Dyledion Gohiriedig 57
34. Cronfeydd y Gellir eu Defnyddio 57 - 58

35. Cronfeydd Na Ellir eu Defnyddio 58 - 63
36. Cyfryngau Ariannol 64 - 67
37. Ysgolion Gwaddoledig 67
38. Cronfeydd Eraill a Weinyddir gan yr Awdurdod 68
39. Dyledion Eraill Posibl 68 - 69
40. Asedau Eraill Posibl 69
41. Asedau Treftadaeth: Gwybodaeth Bellach ar y Casgliadau 69
42. Trefniadau ar y Cyd 70 - 71
43. Digwyddiad Ar Ôl Y Fantolen – Diddymu AD Waste Ltd 71
44. Addasiad Cyfnod Blaenorol 72
45. Datganiad Llif Arian – Camau Gweithredu 73
46. Datganiad Llif Arian – Camau Buddsoddi 73
47. Datganiad Llif Arian – Camau Ariannu 73

Datganiadau Ariannol Endid Sengl Atodol -

Y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Tai am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 74

Datganiad ar Symudiadau yn y Cyfrif Refeniw Tai am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 75

Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrif Refeniw Tai am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 76 - 77

Cronfa Bensiynau Clwyd

Cyfrifon Cronfa Bensiynau Clwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 78 - 104

Cyngor Sir y Fflint a Chronfa Bensiynau Clwyd

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Cyngor Sir y Fflint 105-106

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 107-121

RHAGAIR ESBONIADOL

Mae Datganiad Cyfrifon 2012/13 yn rhoi manylion sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013. Mae'r wybodaeth a gyflwynir ar dudalennau 8 i 77 yn cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer 2012/13 ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Dyma'r datganiadau sydd wedi'u cynnwys:-

- Y datganiadau ariannol craidd sy'n cynnwys –

  - **y datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn** – mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan yr Awdurdod, wedi'u dadansoddi'n ôl 'cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio' (h.y. y rhai y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, a dangosir rhagor o fanylion am y gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n ofynnol eu dangos ym Malans Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai at ddibenion pennu'r dreth gyngor a rhent anheddau. Mae'r llinell Cynnydd / Gostyngiad Net cyn Trosglwyddo i Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd yn dangos Balans Cronfa'r Cyngor a'r Balans Cyfrif Refeniw Tai statudol cyn unrhyw drosglwyddiadau yn ôl disgresiwn a wnaed gan y Cyngor i mewn ac allan o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

    Ffigurau pennawd - Cronfeydd y gellir eu defnyddio £63,154k; cronfeydd na ellir eu defnyddio £254,367k.

  - **datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr** – mae'r datganiad hwn yn dangos y gost yn ystod y flwyddyn, o ran cyfrifyddu, sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau'n unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w gyllido o drethi lleol. Bydd awdurdodau yn codi trethi i dalu am wariant yn unol â rheoliadau; gallai hynny fod yn wahanol i'r gost o ran cyfrifyddu. Caiff y sefyllfa o ran trethi ei dangos yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

    Ffigwr pennawd – Diffyg ar ddarparu gwasanaethau £28,258k sydd wedi ei ddangos yn y datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn

  - **y fantolen** – mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau namyn rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r cronfeydd wrth gefn sydd gan yr Awdurdod. Adroddir ynghylch y cronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, h.y. y rhai hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddoeth o gronfeydd wrth gefn a glynu wrth unrhyw gyfyngiadau statudol ar y modd y cânt eu defnyddio (er enghraifft, y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf, na ellir ei defnyddio ond i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Yr ail gategori yw'r rhai na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn lle ceir enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio) lle na fyddai symiau'n dod ar gael i ddarparu gwasanaethau oni bai bod yr asedau'n cael eu gwerthu; a chronfeydd wrth gefn lle ceir gwahaniaethau o ran amseru a ddangosir yn y llinell 'Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan reoliadau' yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

    Ffigwr pennawd – Gwerth net y Cyngor £317,521k yn dangos gostyngiad o £404,606k ar gyfanswm y fantolen ar 31ain Mawrth 2012.

- **y datganiad llif arian** – mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod, sy'n perthyn i'r Awdurdod, yn ystod y cyfnod yr adroddir yn ei gylch. Mae'r datganiad yn dangos sut y mae'r Awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod, drwy ddosbarthu llifoedd arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifoedd arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o ran y graddau y caiff gweithrediadau'r Awdurdod eu cyllido drwy drethi ac incwm grant neu gan y sawl sy'n cael gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli'r graddau y darparwyd all-lifoedd arian ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu i'r modd y bydd yr Awdurdod yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae llifoedd arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu'n ddefnyddiol o ran rhagweld hawliadau ar lifoedd arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. arian a fenthyciwyd) i'r Awdurdod.

- Y datganiadau ariannol atodol sy'n cynnwys –

  - **y datganiad o incwm a gwariant y cyfrif refeniw tai** – mae'r Datganiad o Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai yn dangos y gost economaidd, yn ystod y flwyddyn, o ddarparu gwasanaethau tai yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w gyllido o renti a grantiau llywodraeth. Bydd awdurdodau yn codi rhenti i dalu am wariant yn unol â rheoliadau; gallai hynny fod yn wahanol i'r gost o ran cyfrifyddu. Caiff y cynnydd neu'r gostyngiad yn ystod y flwyddyn, ar y sail y caiff rhenti eu codi, ei ddangos yn y Datganiad o Symudiadau yn y Cyfrif Refeniw Tai.

    Ffigwr pennawd – Cynnydd yn y balans cyfrif refeniw tai o £41k i £1,931k.

- Yn unol â'r cyfarwyddyd angenrheidiol, cyflwynir cyfrifon y gronfa bensiwn ar dudalennau 78 i 104.

Mae gan y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) sydd yn rhagweld lefelau ariannu a gofynion adnoddau dros y tymor canolig, yn adnabod unrhyw fwlch mewn ariannu, ac yn ei gwneud yn bosibl clustnodi camau penodol er mwyn mantoli'r gyllideb a rheoli adnoddau. Mae'r MTFP yn casglu gwybodaeth am bob gweithgaredd ar draws holl wasanaethau Cronfeydd y Cyngor (ond nid y Cyfrif Refeniw Tai), ac yn cymryd i ystyriaeth yr holl gostau ac arbedion effeithiolrwydd a ragwelir dros y tymor canolig yn achos y gyllideb refeniw ac hefyd y rhaglen cyfalaf.

Mae'r gyllideb refeniw yn ymdrin â gwariant ac incwm y Cyngor o ddydd i ddydd ar eitemau megis cyflogau, costau rhedeg gwasanaethau a chostau ariannu gwariant (a gwariant refeniw a ariennir o gyfalaf o dan statud - sef REFCUS). Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys gwariant ar sicrhau asedau sylweddol a fydd o ddefnydd neu o werth i'r Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau y tu hwnt i flwyddyn y cyfrifon, megis gwella neu adnewyddu ffyrdd, adeiladau a strwythurau eraill.

CYLLIDEB REFENIW, ALLDRO A'R SEFYLLFA ARIANNOL YN GYFFREDINOL

Cafodd cyllideb Cronfa'r Cyngor ar gyfer 2012/13 ei gosod ar £241,203k a'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 1af Mawrth 2012. Cyflwynwyd adroddiad ar y gwaith o fonitro'r gyllideb ei gyflwyno i'r Cabinet yn fisol gydol y flwyddyn a'r canlyniadau terfynol i gael eu cyflwyno ar 16eg Gorffennaf 2013.

Trwy gyfrwng cyllideb 2012/13 llwyddodd y Cyngor i weithredu ei raglen newid cyfredol o foderneiddio a gwella gwasanaethau, ac hefyd i sicrhau buddsoddiad sylweddol mewn ardaloedd blaenoriaeth. Llwyddwyd i gyflawni hyn er gwaethaf lleihad yn y gefnogaeth ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru ac effaith gynyddol y dirywiad economaidd.

Roedd cyfanswm y gwariant net ar gyfer 2012/13 yn £238,590k yn erbyn cyllideb o £242,678k.

RHAGAIR ESBONIADOL

	Cyllideb 2012/13	2012/13 Gwirioneddol	Amrywiad
	£000	£000	£000
Gwasanaethau Corfforaethol:			
Prif Weithredwr	2,346	2,257	(89)
Cyllid	4,351	4,544	193
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	3,341	3,157	(184)
Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol	2,628	2,539	(89)
TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid	5,413	5,295	(118)
	18,079	17,792	(287)
Gwasanaethau Cymunedol	58,614	55,125	(3,489)
Amgylchedd	31,811	31,771	(40)
Dysgu Gydol Oes	110,993	111,026	33
Gwariant net ar wasanaethau	219,497	215,714	(3,783)
Cyfrif buddsoddi a benthyciadau canolog	14,200	13,661	(539)
Cyllid Canolog a Chorfforaethol	10,765	10,796	31
Cyfanswm gwariant net	244,462	240,171	(4,291)
Cyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn	(1,784)	(1,581)	203
Gofyniad Cyllideb	242,678	238,590	(4,088)
Ariannwyd gan			
Y dreth gyngor (namyn gwariant praespetau cynghorau cymuned)	56,750	56,891	(141)
Grantiau cyffredinol	145,366	145,366	0
Ailddosbarthiad ardrethi annomestig	40,562	40,562	0
Cyfanswm adnoddau	242,678	242,819	(141)
Amrywiad net - (tanwariant)	0	(4,229)	(4,229)

Cynyddodd y tanwariant net, sef £4,088k, i £4,229k drwy gynyddu'r incwm o'r Dreth Gyngor (£141k) Mae'r £4,229k ynghyd â symiau eraill y cytunwyd i'w trosglwyddo, sef £786k wedi arwain at gyfanswm o £49,447k yng nghronfeydd refeniw wrth gefn cronfa'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n cynnwys y balans o £9,270k.heb ei glustnodi yng nghronfa'r Cyngor.

		Tanwariant		
	2013	Net	Arall	2012
	£000	£000	£000	£000
Balans cronfa'r Cyngor (heb ei glustnodi)	9,270	4,088	(1,286)	6,468
Cronfeydd wrth gefn y cyngor a glustnodwyd	39,507	0	4,201	35,306
Ysgolion dan reolaeth leol	3,097	0	439	2,658
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn refeniw y cyngor	51,874	4,088	3,354	44,432

ASEDAU PERTHNASOL A GAFFAELWYD A'R RHWYMEDIGAETHAU YR AETHPWYD IDDYNT

Fel rhan o'r cyfanswm gwariant cyfalaf y manylir arno ar dudalen 5, gwariwyd cryn dipyn o arian cyfalaf yn ystod y flwyddyn ar y gwaith o uno Ysgol Iau Cutom House ac Ysgol Babanod Dee Road, Cei Connah (£2,387k); mae'r gwaith erbyn hyn bron wedi ei gwblhau heblaw am waith cynnal a pheth gwaith allanol gaiff ei gwblhau yn 2013/14. Daw cyfran sylweddol o'r cyllid cyffredinol ar gyfer y cynllun allan o Grant Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain Llywodraeth Cymru.

Mae gwaith ailddatblygu ym Mhafiliwn Jade Jones, Fflint wedi golygu bod mantolen y Cyngor yn dangos cynnydd o £2,530k yn yr asedau ariannol a brydlesir. Mae'r buddsoddiad hwn wedi darparu adnoddau newydd yn cynnwys bowlio deg a grin gefngron, llecyn chwarae medal ynghyd â derbynfa, caffi a bar newydd.

FFYNONELLAU ARIANNU CYFALAF A CHYLLIDEB Y RHAGLEN GYFALAF

Yn flynyddol bydd y Cyngor yn cymeradwyo rhaglen ar gyfer gwaith cyfalaf, fydd yn arwain at fuddsoddiad mewn asedau megis tir, adeiladau a gwelliannau ffyrdd. Cafodd y Rhaglen Gyfalaf ei chymeradwyo ar gyfer cyfanswm o £33,223k (Cyfrif Refeniw Tai £9,398k, a Chronfa'r Cyngor £23,825k); yn ystod y flwyddyn cynyddodd y swm hwn i raglen derfynol lawn o £42,330k, (Cyfrif Refeniw Tai £11,632k a Chronfa'r Cyngor £30,698k). Cyflwynwyd manylion monitro cyllideb y rhaglen i'r Cabinet yn chwarterol drwy gydol y flwyddyn, a'r canlyniadau terfynol i gael eu cyflwyno ar 16eg Gorffennaf 2013.

Cafodd y rhaglen ei hariannu trwy gyfrwng benthyciadau â chymorth, dulliau eraill o fenthyca, derbyniadau cyfalaf, grantiau a chyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn a chyllid o'r cyfrif refeniw.

	2013
	£000
Benthyca â Chymorth *	5,141
Dulliau Eraill o Fenthyca (yn cynnwys benthyciadau Salix)	3,778
Derbyniadau cyfalaf	6,051
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf	17,297
Cronfeydd wrth gefn/Cyllid o'r cyfrif refeniw	4,928
Ariannu craidd	37,195
Prydlesi ariannu	2,626
Cyfanswm ariannu	39,821

* arian wrth gefn a ddefnyddiwyd yn hytrach na benthyca, fel yr eglurir yn y nodyn ar Adnoddau Benthyca ar dudalen 5.

Cafwyd swm atodol o £37,195k tuag at gyfanswm yr ariannu cyfalaf craidd trwy gyfrwng trefniadau prydles ariannol – yn bennaf o ganlyniad i'r gwaith addasu ym Mhafiliwn Jade Jones, Fflint.

ALLDRO CYFALAF

Bu i'r cyfanswm uchod o £39,821k gefnogi gwariant cyfalaf (yn cynnwys REFCUS o £7,890k) ar draws y meysydd hynny o'r rhaglen y manylir arnynt yn y tabl ar dudalen 5; caiff y wybodaeth yn y tabl hwn ei gyflwyno ar sail y 'blociau gwasanaeth' a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru wrth iddynt gasglu data oddi ar y ffurflen Enillion Alldro Cyfalaf (COR) ar gyfer cyhoeddi Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol.

	2013 £000
Addysg	6,621
Gwasanaethau Cymdeithasol	42
Trafnidiaeth	7,550
Tai	15,888
Llyfrgelloedd, diwylliant a threftadaeth	180
Amaethyddiaeth a Physgodfeydd*	350
Chwaraeon a Hamdden	3,117
Gwasanaethau Amgylcheddol eraill	6,073
Alldro	39,821

* yn cynnwys draenio tir ac atal llifogydd/diogelu'r arfordir (sydd yn berthnasol i wariant y Cyngor)

CYFLEUSTERAU BENTHYCA

Yn ystod 2012/13 ni wnaed unrhyw fenthyciadau sefydliadol hirdymor oddi wrth y Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus (PWLB) - mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio arian wrth gefn i ariannu gwariant cyfalaf yn hytrach na benthyca o'r newydd. Mae cyfanswm benthyciadau (hirdymor) y fantolen (£172,356k) yn cynnwys y swm o £243k perthnasol i ddau fenthyciad di-log oddi wrth Salix Finance Cyf. - cwmni annibynnol a ariennir gan yr Ymddiriedolaeth Carbon i helpu gwella effeithiolrwydd ynni mewn adeiladau sector cyhoeddus - i'w had-dalu dros y cyfnod rhwng 2012/13 a 2018/19.

PENSIYNAU

Mae'r datgeliadau'n cydymffurfio â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 (IAS 19) ac yn rhoi cyfrif llawn am y rhwymedigaeth o ran pensiynau. Y rhwymedigaeth a gofnodir yn y fantolen (£305,518k) yw cyfanswm y diffygion a ragwelir yn ystod oes y gronfa. Nid yw Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 yn cael unrhyw effaith ar lefelau'r Dreth Gyngor na chyllid tai, ond mae'r rhwymedigaeth ychwanegol yn 2012/13 yn effeithio ar werth net yr Awdurdod fel y dengys cyfanswm y fantolen sef £317,521k (o gymharu â £404,606k ar 31ain Mawrth 2012).

EFFAITH YR HINSAWDD ECONOMAIDD BRESENNOL

Daw oddeutu 80% o gyllid y Cyngor oddi wrth Lywodraeth Cymru trwy Grant Cefnogi Refeniw. Yn 2012/13, gwelwyd gostyngiad o 0.2% yn y gyfradd cyllido a hyn ar ben gostyngiad o 1.7% yn 2011/12. Pan gymerir i ystyriaeth effeithiau chwyddiant a chostau y galw cynyddol am wasanaethau, roedd y gwir effaith ar y gyllideb refeniw yn llawer mwy.

Yn wyneb yr her ariannol hon ac effeithiau cynyddol y dirywiad economaidd, y strategaeth ar gyfer cyllideb 2012/13 oedd lleihau costau gweithredu mewnol ac ar yr un pryd adolygu cyfleoedd i gynyddu grantiau a chyfraniadau oddi wrth gyrff allanol a chynyddu ffioedd a thaliadau presennol i gwrdd â chwyddiant. Gyda chymorth cynllunio cyllidol gofalus a chanfod £4,700k trwy ddulliau effeithlonrwydd newydd bu'n bosibl sefydlu cyllideb sydd: yn darparu buddsoddiad mewn gwasanaethau allweddol (yn benodol mewn cyllidebau ysgolion a gofal cymdeithasol); yn caniatáu ar gyfer peth benthyca annibynnol (gofalus) er mwyn helpu gwariant y rhaglen gyfalaf; yn cymryd i ystyriaeth faterion fforddadwyedd wrth osod y Dreth Gyngor a ffioedd a thaliadau am ddefnyddio gwasanaethau; yn lleihau i'r eithaf yr effaith ar gwsmeriaid a gwasanaethau cyhoeddus trwy beidio â chyflwyno unrhyw doriadau sylweddol mewn gwasanaethau na swyddi.

AILBRISIO ASEDAU

Rhaid ailbrisio holl asedau'r Awdurdod bob pum mlynedd - mae'r Cyngor yn bodloni'r gofyniad hwn drwy ailbrisio cyfran o'r portffolio asedau cyfan bob blwyddyn; yn ystod 2012/13 (trydedd flwyddyn y cylch newydd oedd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2010), ail-brisiwyd tua 25% o'r asedau nad ydynt yn anheddau.. Effaith gyffredinol y broses ailbrisio yn 2012/13 oedd gostyngiad net yng ngwerth asedau - eiddo, peiriannau, cyfarpar a'r ystâd amaethyddol - eiddo nad ydynt yn gyfredol - a gofnodwyd yn y fantolen (o £797,352k i £760,376k).

NEWID MEWN POLISÏAU CYFRIFYDDU

Ni fu unrhyw newidiadau arwyddocaol i bolisïau cyfrifyddu yn ystod 2012/13.

GWYBODAETH BELLACH

Mae'r Gyfriflen ar gael ar y rhyngrwyd (www.flintshire.gov.uk) a gellir derbyn unrhyw wybodaeth bellach trwy gysylltu â'r Pennaeth Cyllid, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NA.

CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod :-

- wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a gofalu bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog hwnnw.
- rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac er mwyn diogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

Llofnod:

Carolyn Thomas
Cadeirydd y Cyngor Sir

Dyddiedig:

CYFRIFOLDEBAU'R PENNAETH CYLLID

Mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am baratoi datganiad cyfrifon yr Awdurdod yn unol â'r arferion priodol a nodwyd yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr ("y Cod").

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwn, mae'r Pennaeth Cyllid :-

- wedi dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu defnyddio'n gyson;
- wedi llunio barn ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- wedi cydymffurfio â'r Cod.

Mae'r Pennaeth Cyllid hefyd :-

- wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a chyfredol;
- wedi cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Paratowyd y datganiad cyfrifon a ganlyn yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010. Mae'r datganiad cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2013, a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw.

Yn ogystal, mae'r datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiynau Clwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013, a maint ei hasedau a'i rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw a'r modd yr oeddent wedi'u trefnu.

Llofnod :

Kerry Feather CPFA
Pennaeth Cyllid

Dyddiedig

DATGANIAD O SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

Mae'r datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor, ac maent wedi'u rhannu'n Gronfeydd wrth Gefn y gellir eu Defnyddio (y rheini y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau trethi lleol) ac yn Gronfeydd Wrth Gefn Eraill (na ellir eu defnyddio). Mae'r Gwarged neu'r Diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos y gwir gostau economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor - ceir rhagor o fanylion am hyn yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhai hyn yn wahanol i'r symiau statudol sydd yn ofynnol eu codi ar gyfer Balans Cronfa'r Cyngor a Chyfrif Refeniw Tai i ddibenion gosod treth cyngor a rhenti tai. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddo i Gronfeydd Wrth Gefn wedi eu Clustnodi yn dangos Balans Cronfa Statudol y Cyngor a Balans y Cyfrif Refeniw Tai cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i gronfeydd wrth gefn sydd wedi eu clustnodi neu allan ohonynt.

	Nodyn	Balans Cronfa'r Cyngor £000	Cronfeydd wrth Gefn Cronfa'r Cyngor – wedi eu clustnodi £000	Balans y Cyfrif Refeniw Tai £000	Cronfa wrth Gefn – derbyniadau cyfalaf £000	Grantiau cyfalaf nas defnyddiwyd £000	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu defnyddio £000	Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio £000	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod £000
Ar 31 Mawrth 2012		6,468	37,964	1,890	6,074	3,185	55,581	349,025	**404,606**
Gwarged (diffyg) ar ddarparu gwasanaethau		(17,694)	0	(10,564)	0	0	**(28,258)**	0	**(28,258)**
Incwm a gwariant cynhwysfawr arall		0	0	0	0	0	**0**	(58,827)	**(58,827)**
Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr		**(17,694)**	**0**	**(10,564)**	**0**	**0**	**(28,258)**	**(58,827)**	**(87,085)**
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan reoliadau	**7**	25,136	0	10,605	(726)	816	**35,831**	(35,831)	**0**
Cynnydd (/gostyngiad) net cyn trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi		**7,442**	**0**	**41**	**(726)**	**816**	**7,573**	**(94,658)**	**(87,085)**
Trosglwyddiadau i (/o) gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi	**34**	(4,640)	4,640	0	0	0	**0**	0	**0**
Cynnydd (/gostyngiad) yn ystod y flwyddyn		**2,802**	**4,640**	**41**	**(726)**	**816**	**7,573**	**(94,658)**	**(87,085)**
Ar 31 Mawrth 2013		9,270	42,604	1,931	5,348	4,001	**63,154**	254,367	**317,521**

DATGANIAD O SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

	Nodyn	Balans Cronfa'r Cyngor £000	Cronfeydd wrth Gefn Cronfa'r Cyngor – wedi eu clustnodi £000	Balans y Cyfrif Refeniw Tai £000	Cronfa wrth Gefn-derbyniadau cyfalaf £000	Grantiau cyfalaf na ddefnyddiwyd £000	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu defnyddio £000	Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio £000	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod £000
Ar 31 Mawrth 2011		5,962	32,839	1,614	6,227	9,144	**55,786**	462,231	**518,017**
Gwarged (diffyg) ar ddarparu gwasanaethau *		(59,763)	0	(20,349)	0	0	**(80,112)**	0	**(80,112)**
Incwm a gwariant cynhwysfawr arall		0	0	0	0	0	**0**	(36,552)	**(36,552)**
Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr		**(59,763)**	**0**	**(20,349)**	**0**	**0**	**(80,112)**	**(36,552)**	**(116,664)**
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan reoliadau *	**7**	62,598	(457)	20,625	(153)	(5,959)	**76,654**	(76,654)	**0**
Cynnydd (/gostyngiad) net cyn trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi		**2,835**	**(457)**	**276**	**(153)**	**(5,959)**	**(3,458)**	**(113,206)**	**(116,664)**
Trosglwyddiadau i (/o) gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi	**34**	(2,329)	5,582	0	0	0	**3,253**	0	**3,253**
Cynnydd (/gostyngiad) yn ystod y flwyddyn		**506**	**5,125**	**276**	**(153)**	**(5,959)**	**(205)**	**(113,206)**	**(113,411)**
Ar 31 Mawrth 2012		6,468	37,964	1,890	6,074	3,185	55,581	349,025	404,606

Addasiad cyfnod blaenorol - gweler Nodyn 44. Yn y 2011/12, cyfrifon y diffyg yn y ddarpariaeth gwasanaethau ei gofnodi fel £47,011k.

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos y costau cyfrifyddu dros y flwyddyn ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu cyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu allan o drethi lleol. Mae Awdurdodau yn codi trethi lleol er mwyn cwrdd â gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r costau cyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa o safbwynt treth yn y Datganiad Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

		2013			2012		
	Nodyn	Gwariant Gros	Incwm gros	Gwariant Net	Gwariant Gros	Incwm gros	Gwariant Net
Dadansoddiad o Wariant ar Wasanaethau	**2**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**
Gofal cymdeithasol oedolion *		49,699	(8,876)	40,823	53,468	10,570	42,898
Gwasanaethau canolog i'r cyhoedd		2,231	(1,207)	1,024	2,287	1,011	1,276
Addysg a gwasanaethau plant *		167,486	(27,174)	140,312	187,218	23,883	163,335
Gwasanaethau diwylliannol a gwasanaethau cysylltiedig *		30,547	(12,160)	18,387	24,620	11,873	12,747
Gwasanaethau'r amgylchedd a rheoleiddio *		27,294	(7,382)	19,912	22,836	4,065	18,771
Gwasanaethau cynllunio *		12,189	(5,181)	7,008	10,242	6,225	4,017
Gwasanaethau priffyrdd a thrafnidiaeth *		23,422	(6,591)	16,831	26,975	7,526	19,449
Gwasanaethau tai							
Tai – Cronfa'r Cyngor		64,659	(56,544)	8,115	68,082	60,822	7,260
Cyfrif Refeniw Tai		34,985	(26,440)	8,545	43,625	25,212	18,413
Craidd corfforaethol a democrataidd		4,297	0	4,297	2,534	0	2,534
Costau nas dosbarthwyd *		1,304	0	1,304	7,074	0	7,074
Cost gwasanaethau *		**418,113**	**(151,555)**	**266,558**	**448,961**	**151,187**	**297,774**
Gwariant Gweithredu Arall	**3**			17,095			21,906
Ariannu a Buddsoddiadau Incwm a Gwariant	**4**			20,844			14,416
Incwm Trethi a Grantiau Amhenodol	**5**			(276,239)			(274,333)
(Gwarged)/diffyg ar ddarparu gwasanaethau				28,258			59,763
(Gwarged)/diffyg yn deillio o ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol				(4,176)			16,627
Gwarged)/diffyg yn deillio o ailbrisio asedau ariannol y gellir eu gwerthu				370			(114)
(Enillion)/colledion actiwaraidd ar asedau a dyledion pensiynau				62,633			37,181
Incwm a gwariant cynhwysfawr arall				0			(46)
Cyfanswm incwm neu wariant cynhwysfawr				**87,085**			**113,411**

Addasiad cyfnod blaenorol - gweler Nodyn 44. Yng nghyfrifon 2011/12 cost y gwasanaethau ei gofnodi fel £285,022k.

Y FANTOLEN

fel ar 31 Mawrth 2013

	Nodyn	2013 £000	2013 £000	2012 £000	2012 £000
ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL					
Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	**17,18,20**				
Anheddau'r Cyngor		270,298		276,284	
Tir ac adeiladau eraill **		272,283		291,283	
Cerbydau,peiriannau, dodrefn a chyfarpar		18,522		12,458	
Asedau dros ben		5,411		6,952	
Asedau seilwaith		154,422		153,619	
Asedau cymunedol		4,720		9,678	
Asedau yn y broses o gael eu hadeiladu		544		5,691	
Cyfanswm Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar			726,200		755,965
Eiddo buddsoddi	**17,18,20**		21,453		28,109
Yr ystad amaethyddol	**17,18,20**		12,723		13,278
Asedau anniriaethol	**16**		697		732
Buddsoddiadau hirdymor	**21,36**		15		2,753
Dyledwyr hirdymor	**22**		1,592		1,066
CYFANSWM ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL			762,680		801,903
ASEDAU CYFREDOL					
Stociau	**23**	1,024		1,269	
Dyledwyr byrdymor (heb gynnwys darpariaeth ar gyfer amhariadau)	**24**	39,404		29,935	
Buddsoddiadau byrdymor	**25**	19,474		13,599	
Arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod	**26**	34,348		38,937	
Asedau a gedwir i'w gwerthu	**27**	3,774		2,752	
CYFANSWM ASEDAU CYFREDOL			98,024		86,492
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL					
Benthyciadau i'w had-dalu yn ôl y galw cyn pen 12 mis	**28**	(4,296)		(10,487)	
Credydwyr byrdymor *	**29**	(32,885)		(28,974)	
Darpariaeth ar gyfer absenoldebau cronedig	**32**	(2,612)		(3,738)	
Rhwymedigaethau gohiriedig	**12**	(556)		(414)	
Grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw *	**30**	(3,029)		(4,095)	
Darpariaethau	**32**	(43)		0	
CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			(43,421)		(47,708)
RHWYMEDIGAETHAU NAD YDYNT YN GYFREDOL					
Credydwyr hirdymor	**29**	(2,480)		(1,905)	
Benthyciadau hirdymor	**31**	(172,356)		(172,410)	
Rhwymedigaethau gohiriedig	**33**	(7,553)		(6,663)	
Darpariaethau	**32**	(10,968)		(13,654)	
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	**4**	(305,518)		(240,834)	
Grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw*	**30**	(887)		(615)	
CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU NAD YDYNT YN GYFREDOL			(499,762)		(436,081)
ASEDAU NET			317,521		404,606

* Ffigurau a addaswyd yn flaenorol

Y FANTOLEN

	Nodyn	2013 £000	2013 £000	2012 £000	2012 £000
CRONFEYDD WRTH GEFN Y GELLIR EU DEFNYDDIO					
Cronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf	**34**	5,348		6,074	
Grantiau cyfalaf heb eu defnyddio	**34**	4,001		3,185	
Cronfa'r Cyngor	**34**	9,270		6,468	
Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	**34**	42,604		37,964	
Cyfrif Refeniw Tai	**34**	1,931		1,890	
CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN Y GELLIR EU DEFNYDDIO			63,154		55,581
CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO					
Cronfa wrth gefn ailbrisio	**35**	52,739		58,060	
Cronfa wrth gefn offerynnau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	**35**	(3)		368	
Cyfrif addasiadau cyfalaf **	**35**	527,474		557,855	
Cyfrif addasu offerynnau ariannol	**35**	(8,381)		(9,051)	
Cronfa wrth gefn pensiynau	**35**	(305,518)		(240,834)	
Cyfrif cyflog cyfartal	**35**	(9,334)		(13,644)	
Derbyniadau cyfalaf gohiriedig	**35**	2		9	
Cyfrif absenoldebau cronedig	**35**	(2,612)		(3,738)	
CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO			254,367		349,025
CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN			317,521		404,606

** Addasiad cyfnod blaenorol - gweler Nodyn 44.
Yng nghyfrifon 2011/12 yr asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael eu cofnodi fel £ 814,655 y cyfrifon Addasiadau Cyfalaf k a £570,607k.

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r dyledion a gydnabyddir gan y Cyngor ar ddyddiad y fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau heb y dyledion) gyfwerth â'r cronfeydd wrth gefn. Caiff y cronfeydd wrth gefn eu cofnodi mewn dau gategori –

- Cronfeydd Wrth Gefn y gellir eu defnyddio – y cronfeydd wrth gefn hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn unol â 'r angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau ar eu defnyddio (e.e. y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf na ellir ei defnyddio heblaw i ariannu gwariant cyfalaf neu i ad-dalu dyled).

- Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu defnyddio - y cronfeydd wrth gefn hynny na all yr Awdurdod eu defnyddio ar gyfer darparu gwasanaethau, gan gynnwys cronfeydd wrth gefn sydd yn cynnwys enillion a cholledion heb eu gwireddu (e.e. y Gronfa Ailbrisio), lle na fyddai unrhyw swm ar gael i ddarparu gwasanaethau oni bai bod asedau yn cael eu gwerthu, a chronfeydd wrth gefn sydd yn cynnwys gwahaniaethau amseru a amlygir yn y Datganiad Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn y llinell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu dan reoliadau'.

DATGANIAD LLIF ARIAN

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod, sy'n perthyn i'r Awdurdod, yn ystod y cyfnod yr adroddir yn ei gylch. Mae'r datganiad yn dangos sut y mae'r Awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod, drwy ddosbarthu llifoedd arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifoedd arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o ran y graddau y caiff gweithrediadau'r Awdurdod eu cyllido drwy drethi ac incwm grant neu gan y sawl sy'n cael gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli'r graddau y darparwyd all-lifoedd arian ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu i'r modd y bydd yr Awdurdod yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae llifoedd arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu'n ddefnyddiol o ran rhagweld hawliadau ar lifoedd arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. arian a fenthyciwyd) i'r Awdurdod.

	Nodyn	2013		2012	
		£000	£000	£000	£000
Gwarged neu (ddiffyg) net ar ddarparu gwasanaethau *		(28,258)		(59,763)	
Addasiad i warged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau anariannol **		59,923		92,289	
Addasiad ar gyfer eitemau a gynhwysir yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi neu ariannu		(23,016)		(20,554)	
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu	**43**		8,649		11,972
Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi	**44**	(11,094)		(13,037)	
Llif arian parod net o weithgareddau ariannu	**45**	(2,144)		(193)	
			(13,238)		(13,230)
(Cynnydd) / Gostyngiad net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod			(4,589)		(1,258)
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd	**26**		38,937		39,982
Arall			0		213
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd	**26**		**34,348**		**38,937**

* Adroddir ar y datganiad llif arian drwy ddefnyddio'r dull anuniongyrchol, lle caiff gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau ei addasu ar gyfer effeithiau trafodion o natur anariannol, unrhyw ohiriadau neu groniadau o dderbynebau neu daliadau arian parod gweithredu yn y gorffennol neu yn y dyfodol, ac eitemau o refeniw neu gost sy'n gysylltiedig â buddsoddi neu ariannu llif arian parod.

Addasiad cyfnod blaenorol - gweler Nodyn 44. Yng nghyfrifon 2011/12 yr addasiad i ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau oedd £79,537k.

1. DATGANIAD POLISÏAU CYFRIFYDDU

Materion Cyffredinol

Paratowyd y cyfrifon yn unol â gofynion Cod Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y DU 2012/13 (y Cod), sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a gyhoeddwyd gan CIPFA, ac mae nodiadau canllaw atodol yn egluro sut y cymhwyswyd y safonau cyfrifyddu.

Ni fu unrhyw newidiadau yn y dulliau amcangyfrifo a fabwysiadwyd, ac nid oes unrhyw daliadau anarferol arwyddocaol na chredydau wedi eu cynnwys o fewn y cyfrifon.

Safonau a gyhoeddwyd nad ydynt eto wedi eu mabwysiadu

Mae'r safonau a ganlyn, a'r diwygiadau a'r dehongliadau a ganlyn yng nghyswllt safonau cyfredol, wedi'u cyhoeddi ac maent yn orfodol ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu'r Cyngor sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2013 neu wedi hynny neu ar gyfer cyfnodau diweddarach, ond nid yw'r Cyngor wedi eu mabwysiadu'n gynnar:

- IAS 1 - Cyflwyno Datganiadau Ariannol. Bydd newidiadau i IAS 1 yn golygu ail grwpio adrannau o dan Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall yn grwpiau ailddosbarthadwy ac an-ailddosbarthadwy. Mater cyflwyniadol yn unig yw hyn ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw un o'r symiau a gofnodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- IAS 12 – Trethi Incwm: Trethu Gohiriedig. Gan nad yw'r Cyngor yn gyfrifol am y Dreth Gyngor, ni fydd y safon yn berthnasol i gyfrifon y Cyngor.
- IAS 19 - Budd-daliadau Gweithwyr Cyflogedig. Newidiadau i ddosbarthiad, cydnabyddiaeth, mesuriad ac amlygiad y gofynion a gyflwynwyd trwy ddiwygiadau Mehefin 2011 i IAS 19 ar gyfer budd-daliadau ymddeoliad. Bydd y Cyngor yn gweithredu'r safon gyfrifyddu ddiwygiedig o 1af Ebrill 2013 a bydd hyn yn golygu ail-gofnodi ffigurau 2012/13 yng nghyfrifon 2013/14 i ddibenion cymharu. Nid oes disgwyl i hyn gael effaith arwyddocaol (gwaelodlin) ar ddatganiadau cyllidol y Cyngor gan fod gwir gostau budd-daliadau ymddeoliad a amlygir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael eu gwrthdroi yn y Datganiad Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn gan roi yn eu lle yr arian taladwy yn y flwyddyn sef y taliad statudol sydd yn ofynnol ei wneud yn erbyn Treth Cyngor.
- Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 9 - Offerynnau Ariannol. Bydd y Cyngor yn defnyddio Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 9 o 1 Ebrill 2015 ymlaen. Ni ddisgwylir i hynny gael effaith arwyddocaol ar ddatganiadau ariannol y Cyngor.

Safonau a Fabwysiadwyd yn Gynnar

Ni does unrhyw safonau wedi eu mabwysiadu yn gynnar gan yr Awdurdod.

Barn Allweddol a Rhagdybiaethau a Wnaed

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, mae'r awdurdod wedi gorfod llunio barn, amcangyfrifon a rhagdybiaethau ar gyfer rhai eitemau sydd yn effeithio ar weithrediad ei bolisïau a lefel yr asedau, dyledion, incwm a gwariant yr adroddir amdanynt. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau perthynol wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau eraill perthnasol yr ystyrir eu bod yn rhesymol ac a ddefnyddir fel sail i benderfyniad ynghylch gwerthoedd asedau a dyledion, pan nad yw'r rhain ar gael yn hawdd o ffynonellau eraill. Fodd bynnag, gan na ellir penderfynu'n bendant ar y rhain gallai'r gwir ganlyniadau fod yn dra gwahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon hynny a wnaed.

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Mae'r amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol sydd o fewn y Datganiad Cyfrifon yn ymwneud ag asedau nad ydynt yn gyfredol ac â dirywiad mewn asedau ariannol.

Caiff amcangyfrifon a rhagdybiaethau sylfaenol eu hadolygu yn rheolaidd. Addasiadau o faint ased neu ddyled, neu fesur o ddirywiad cyfnodol ased - sydd yn dilyn oddi wrth asesiad o stad bresennol, a buddion a rhwymedigaethau a gysylltir gyda'r asedau a'r dyledion yn y dyfodol - yw'r newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu. Caiff newidiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod pan adolygir yr amcangyfrifiad os bydd yr adolygu yn effeithio ar y cyfnod hwnnw yn unig, neu yng nghyfnod yr adolygiad a chyfnodau yn y dyfodol os bydd yr adolygu yn effeithio ar gyfnodau cyfredol a chyfnodau'r dyfodol fel ei gilydd.

Dyma'r dyfarniadau cyfrifyddu beirniadol a fynegwyd a'r prif ffynonellau ansicrwydd wrth amcangyfrif a ganfuwyd gan yr awdurdod, sydd ag effaith arwyddocaol ar y datganiadau ariannol:

- Ymrwymiadau Budd-daliadau Ymddeoliad - Mae'r awdurdod yn cydnabod ac yn datgelu ei ymrwymiad budd-daliadau ymddeoliad yn unol â mesuriad a gofynion cyflwyniadol IAS 19 "Budd-daliadau Gweithiwr Cyflogedig". Mae amcangyfrifiad yr atebolrwydd pensiwn net yn ddibynnol ar nifer o ddyfarniadau cymhleth ac amcangyfrifon sydd yn berthnasol i'r raddfa disgownt a ddefnyddir, graddfa ragamcanol cynnydd y cyflogau, newidiadau i oedran ymddeol, nifer marwolaethau a'r enillion a ddisgwylir ar asedau cronfeydd pensiwn. Defnyddir cwmni actiwari i ddarparu cyngor arbenigol i'r awdurdod ynghylch pa ragdybiaethau i'w defnyddio. Gall newidiadau i'r rhagdybiaethau hyn gael effaith arwyddocaol ar werth ymrwymiad budd-daliadau ymddeoliad yr Awdurdod.

- Darpariaethau - Wrth asesu, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddyfarnu a ddylid cyfrif y posibilrwydd o rwymedigaeth fel darpariaeth ynte fel rhwymedigaeth wrth gefn. Mae'r awdurdod hefyd yn gorfod dyfarnu wrth amcangyfrif lefel darpariaethau; mesurir hwy yn unol ag amcangyfrif gorau yr awdurdod o'r costau sydd ei angen i gwrdd â'r ymrwymiad ar ddyddiad y Fantolen. Mae lefel darpariaethau'r Awdurdod a manylion ei rwymedigaethau wrth gefn wedi eu cynnwys yn nodiadau 32 a 39.

- Amhariad ar Asedau Ariannol – Mae'r Awdurdod yn darparu ar gyfer amhariad ar y dyledion taladwy, ar sail oedran, math o ddyled ac hefyd pa mor ad-daladwy yw pob dyled.

- Eiddo, Peiriannau ac Offer – Mae asedau yn cael eu dibrisio yn ystod cyfnod eu defnyddioldeb ac mae hyn yn adlewyrchu materion megis lefel y trwsio a'r cynnal fydd ei angen mewn perthynas â'r math penodol o ased dan sylw, costau amnewid a gwaith cynnal synhwyrol, sef amcangyfrif o ddefnyddioldeb yr ased o hyn ymlaen.

- Prisio Asedau - Mae'r awdurdod yn prisio asedau nad ydynt yn gyfredol ar sail Gwerth Teg, ac eithrio'r Stoc Dai a gaiff ei brisio yn unol â 'Gwerth Defnydd Presennol - Tai Cymdeithasol'. Bydd yr Awdurdod yn penderfynu a oes tystiolaeth marchnad ar gyfer prisio ased ar sail Gwerth Teg ac os na fydd tystiolaeth o'r fath, bydd Awdurdod yn defnyddio dull cost amnewid yn dilyn dibrisio (DRC).

- Asedau Cydrannol - Mae'r Awdurdod yn ymwneud ag asedau cydrannol trwy ddefnyddio categorïau o adeiladau nodweddiadol y bydd mwyafrif llethol ei asedau sylfaenol yn perthyn iddynt. Mae priswyr yr Awdurdod wedi ystyried costau amnewid gros cyfredol a phrif gydrannau yr adeiladau nodweddiadol hyn ar sail Ased Cyfwerth Modern, gan ganiatáu ar gyfer pob math o ddarfodiad perthnasol ac optimeiddiad. Derbyniwyd y prisiau ar gyfer y rhain oddi wrth y Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu - gwasanaeth a gydnabyddir yn genedlaethol - a chânt eu gweithredu yn unol â methodoleg a gymeradwyir gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r Awdurdod hefyd wedi penderfynu dosbarthu ei asedau o dan y categorïau adeiladau nodweddiadol os yw'r adeiladau yn dod o fewn y categorïau hyn ac heb fod angen sylw unigol ar gyfer dibenion cydrannol asedau.

- Lefelau Ariannu'r Llywodraeth a Lefelau Cronfeydd Wrth Gefn – Mae lefelau ariannu ar gyfer awdurdodau lleol yn ymddangos yn ansicr iawn. Mae'r Awdurdod wedi rhoi symiau arian o'r neilltu ar gyfer darpariaethau, balansau gweithio a chronfeydd wrth gefn – symiau a ystyrir fel rhai addas ar sail amgylchiadau lleol gan gynnwys maint y gyllideb gyfan, risgiau, cryfder amcangyfrifon cyllideb, y prif fentrau ar y gweill, rhagdybiaethau cyllideb, cronfeydd wrth gefn a darpariaethau eraill sydd wedi eu clustnodi, a llwyddiant yr Awdurdod o safbwynt rheoli arian. Cafodd strategaeth cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2013/14 ei chymeradwyo ym Mawrth 2013 a gellir ei gweld ar wefan yr Awdurdod.

Cyfrifyddu cost y cynllun Ymrwymo i Leihau Carbon

Mae'r Cyngor wedi Ymrwymo i Leihau Carbon fel rhan o'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni; mae'r cynllun yn ei gyfnod cychwynnol a fydd yn para tan 31 Mawrth 2014. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod brynu ac ildio lwfansau (yn ôl-weithredol ar hyn o bryd), ar sail allyriadau h.y. cynhyrchir carbon deuocsid wrth ddefnyddio ynni. Wrth greu allyriadau carbon deuocsid (h.y. wrth ddefnyddio ynni), caiff rhwymedigaeth a chost eu cydnabod. Caiff y rhwymedigaeth ei fesur yn ôl yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i dalu'r rhwymedigaeth erbyn y dyddiad adrodd – a chaiff ei ryddhau drwy ildio lwfansau. Caiff y gost i'r Awdurdod i ddosrannu i wasanaethau ar sail yr ynni y maent wedi'i ddefnyddio, a chaiff ei gydnabod (a'i gofnodi) yng nghostau'r gwasanaethau.

Costau Benthyca

Mae'r Cyngor wedi dewis mabwysiadu'r addasiad gan y Cod yng nghyswllt Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 23, sy'n caniatáu i gostau benthyca yng nghyswllt asedau cymwys gael eu troi'n dreuliau yn hytrach nag yn gyfalaf. Felly, caiff holl gostau benthyca eu cydnabod fel treuliau wrth iddynt ddigwydd.

Derbyniadau Cyfalaf

Mae derbyniadau cyfalaf yn codi o werthu asedau eiddo ac wrth i flaensymiau gael eu had-dalu, a rhoddir cyfrif amdanynt ar sail croniadau; caiff symiau llai na £10,000 o unrhyw werthiant eu trin fel incwm refeniw, yn unol â rheoliadau cyfalaf. Cafodd y gofyniad i neilltuo 75% o dderbyniadau o werthu tai cyngor i ad-dalu dyled ei ddileu o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, ond mae'r Cyngor yn parhau i neilltuo'r swm yn unol â'r rhagdybiaeth yn rheolau cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai. Caiff y balans derbyniadau nad yw wedi'i neilltuo yn y modd hwn, ac nad yw wedi'i ddefnyddio at ddibenion ariannu cyfalaf, ei gynnwys yn y fantolen fel derbyniadau cyfalaf y gellir eu defnyddio. Caniateir defnyddio'r holl dderbyniadau cyfalaf nad ydynt yn ymwneud â thai.

Arian Parod ac Elfennau Sy'n Cyfateb i Arian Parod

Caiff arian parod ei gyfleu fel arian mewn llaw. Ystyrir mai elfennau sy'n cyfateb i arian parod yw adneuon mewn sefydliadau ariannol, y gellir eu troi'n hawdd yn symiau o arian sy'n hysbys. Mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylai buddsoddiadau llai na 3 mis o hyd gael eu hystyried yn arian parod ac yn elfennau sy'n cyfateb i arian parod.

Yn y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian, caiff arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod eu dangos heb gynnwys gorddrafftiau banc y mae'n rhaid eu had-dalu yn ôl y galw.

Cyfrifyddu Cydrannol

Os yw cost cydrannau pwysig mewn eiddo, peiriannau a chyfarpar yn sylweddol o'i chymharu â chyfanswm cost yr eitem, caiff y cydrannau eu dibrisio ar wahân; mae'r gofynion yn berthnasol i wariant ar welliannau, gwariant ar gaffael, ac unrhyw ailbrisio.

Pennwyd lefel sylfaenol ar gyfer pwysigrwydd, sef 0.5% o werth y sylfaen asedau, ac os bydd lefel pwysigrwydd yr eiddo, y peiriant neu'r cyfarpar unigol islaw hynny, ni fydd modd ystyried eu cydrannau; bernir mai cydrannau pwysig yw'r cydrannau y mae eu cost gyfredol yn cyfateb i 20% neu fwy o gyfanswm cost gyfredol yr ased, a chânt eu dosbarthu fel a ganlyn ar sail pwysigrwydd, oes ddefnyddiol a dull dibrisio -

Cydran	Manylion
Aradeiledd ac Isadeiledd	Ffrâm, lloriau uchaf, to, grisiau, waliau allanol, ffenestri a drysau allanol, waliau a pharwydydd mewnol, drysau mewnol
Gorffeniadau a gosodiadau mewnol	Gorffeniadau ar waliau, lloriau, nenfydau, gosodiadau a dodrefn
Gwasanaethau	Offer glanweithiol, gosodiadau gwaredu, gosodiadau dŵr, ffynonellau gwres, gwresogi ac aerdymheru, systemau awyru, gosodiadau trydanol, gosodiadau tanwydd, diogelwch tân a mellt, gosodiadau cyfathrebu a diogelwch, gwaith adeiladu'n ymwneud â rheoli a chomisiynu gwasanaethau
Tir	Tir yr adeiledir eiddo arno

Cyfrifir gwerth y cydrannau ar sail y gost o'i newid. Yn gyffredinol, yr ymraniad disgwyliedig ar gyfer cydrannau fyddai 50-60% ar gyfer yr Aradeiledd a'r Isadeiledd, 20% ar gyfer Gorffeniadau a Gosodiadau Mewnol a 20-30% ar gyfer Gwasanaethau; mae'r gwir ymraniad yn cael ei bennu ar ôl prisio'r eiddo unigol. Mae tir yn gydran ar wahân, ond ni chaiff ei ystyried at ddibenion dibrisiant.

Pan gaiff ased ei wella neu ei newid, caiff cost y gydran newydd ei chymharu â chost yr ased cyfan. Os yw cost y gwelliant neu'r ased newydd uwchlaw 15% (neu £20,000) o gost yr ased cyfan, caiff cyfran o werth cario'r gydran berthnasol ei ddisodli gan gost yr ased newydd.

Pan gaiff ased ei gaffael neu ei ailbrisio, caiff cost ei gydrannau ei rannu'n Aradeiledd ac Isadeiledd, Gorffeniadau a Gosodiadau Mewnol, a Gwasanaethau, cyhyd ag y bo gwerth yr ased uwchlaw'r lefel sylfaenol o 0.5% o wrth y sylfaen asedau. Nodir tir fel cydran ar wahân.

Isafswm Darpariaeth Refeniw (Ad-dalu Dyledion sef MRP)

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 yn mynnu bod y Cyngor yn gwneud darpariaeth addas ar gyfer ad-dalu ei ddyledion. Bydd y Cyngor yn neilltuo symiau o arian refeniw bob blwyddyn ar gyfer ad-dalu benthyciadau a drefnwyd yn wreiddiol i ariannu gwariant cyfalaf. Gelwir hyn yn Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP).

Yn unol â threfniadau cyfrifyddu cyfalaf, caiff dibrisiant gwasanaethau'r Cyngor ei gyfrifo i adlewyrchu faint o asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd. Caiff y tâl dibrisiant ei ystyried fel darpariaeth refeniw y Cyngor a chaiff unrhyw amrywiad o isafswm darpariaeth ei drosglwyddo rhwng y cyfrif addasiadau cyfalaf a'r cyfrif incwm a gwariant. Caiff yr MRP ei gyfrifo yn unol â'r Datganiad Polisi MRP ar gyfer 2012/13 y cytunwyd arno gan y Cyngor ym Mawrth 2012 a Chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar MRP.

Polisi y Cyngor yw:

- Codi isafswm tâl refeniw cyfwerth â 2% o'r ddyled sydd heb ei chasglu ar gyfer y cyfrif refeniw tai a 4% ar gyfer cronfa'r Cyngor, ar wariant cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac yn y dyfodol ar wariant cyfalaf wedi ei gefnogi
- Caiff gwariant cyfalaf a wnaed ar 1 Ebrill 2008 neu wedi hynny ac sydd wedi ei ariannu trwy fenthyca gofalus ei ad-dalu ar sail bywyd defnyddiol yr ased trwy gyfrwng taliadau blynyddol cyfartal.

Caiff manylion yr MRP a godir am y flwyddyn eu gosod allan yn Nodyn 6 ar dudalen 36.

Hefyd, fel rhan o'i strategaeth rheoli dyledion, gall yr Awdurdod dalu neu newid benthyciadau ynghynt nag y

bwriadwyd yn wreiddiol, yn ddibynnol ar amodau cyfredol y farchnad, risg ac unrhyw fudd ariannol a all ddod i ran yr Awdurdod.

Dyledwyr a Chredydwyr

Caiff cyfrifon refeniw a chyfalaf yr Awdurdod eu paratoi ar sail croniadau. Caiff symiau eu cynnwys yn y cyfrifon terfynol i ymdrin ag incwm neu wariant sydd i'w briodoli i flwyddyn y cyfrif yng nghyswllt nwyddau a gafwyd neu waith a wnaed, ond lle na dderbyniwyd / gwnaed tâl ar eu cyfer erbyn 31 Mawrth 2013.

Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant llinell syth ar bob eiddo, peiriant a chyfarpar ac iddo oes ddefnyddiol gyfyngedig (ac eithrio tir nad oes modd ei ddibrisio), a sicrheir darpariaeth o'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf yn dilyn caffael/prisio yn achos yr holl asedau ac eithrio'r rhai a gafaelir o dan brydlesi cyllid. Darperir ar gyfer y rhain o'r flwyddyn y cânt eu caffael. Seilir y ffigur ar brisiadau mantolen net agoriadol 2012/13 (rhestr brisio namyn dibrisiant cronnus), gan ragdybio nad oes dim gwerthoedd gweddilliol i bob eiddo, peiriant a chyfarpar.

Dyma'r oes ddefnyddiol fwyaf cyffredin a ddefnyddir wrth ddarparu ar gyfer dibrisiant :-

	Blynyddoedd
Tir ac adeiladau eraill	50
Cerbydau, peiriannau, dodrefn a chyfarpar	3 - 10
Asedau seilwaith	40

Os yw'r ased yn cynnwys dwy neu ragor o gydrannau mawr, ac os yw cost y gydran yn sylweddol o'i chymharu â chyfanswm cost yr ased, ac os yw oes economaidd ddefnyddiol y naill yn wahanol iawn i'r llall, rhoddwyd cyfrif ar wahân am bob cydran.

Caiff Anheddau'r Cyngor eu dibrisio yn ôl swm sy'n cyfateb i'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr. Caiff asedau a drowyd yn gyfalaf dan brydlesi cyllid eu dibrisio dros yr oes a bennwyd i'r ased gan y contract sydd ar waith, neu os nad yw'r wybodaeth honno ar gael, gan ymgynghorwyr annibynnol y Cyngor ynghylch prydlesi, o ganlyniad i'w hadolygiad nhw o'r brydles.

Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio nes dechreuir defnyddio'r ased.

Buddion Gweithwyr

Caiff cost lawn gweithwyr ei chydnabod yn y flwyddyn y ceir y gwasanaeth ganddynt. Caiff cost hawl i wyliau blynyddol, oriau hyblyg, ac amser i ffwrdd yn lle tâl a enillwyd ond na chymerwyd gan weithwyr ar ddiwedd y flwyddyn ei chronni yn y datganiadau ariannol.

Caiff croniad ei gynnwys hefyd os oes angen taliadau arbennig neu addasiadau ôl-weithredol, er enghraifft, drwy godiadau cyflog neu daliadau diswyddo.

Asedau Ariannol

Ceir dau fath o asedau ariannol:

- benthyciadau a derbyniadau – asedau sydd â thaliadau sefydlog neu daliadau y gellir eu pennu ond na chânt eu dyfynnu mewn marchnad weithredol
- asedau sydd ar gael i'w gwerthu – asedau sydd â phris a ddyfynnir ar y farchnad a/neu sydd heb daliadau sefydlog neu daliadau y gellir eu pennu.

Benthyciadau a Derbyniadau:

Caiff y rhain eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg a'u dwyn ymlaen yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio. Caiff credydau blynyddol i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ar gyfer llog derbyniadwy eu seilio ar swm yr ased, a gaiff ei ddwyn ymlaen, wedi'i luosi â'r gyfradd llog sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn. Golyga hynny mai'r swm a nodir ar y fantolen yw'r prif swm sy'n weddill ac sy'n dderbyniadwy (ynghyd â llog cronnus) ac mai'r llog a gredydir i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yw'r swm sy'n dderbyniadwy ar gyfer y flwyddyn yng nghytundeb y benthyciad.

Asedau sydd ar gael i'w gwerthu:

Caiff asedau sydd ar gael i'w gwerthu eu mesur i ddechrau, a'u dwyn ymlaen, ar sail gwerth teg. Os oes gan yr ased daliadau sefydlog neu daliadau y gellir eu pennu, caiff credydau blynyddol i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ar gyfer llog derbyniadwy eu seilio ar gost wedi'i hamorteiddio'r ased, wedi'i lluosi â'r gyfradd llog sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn. Os nad oes taliadau sefydlog neu daliadau y gellir eu pennu, caiff incwm (er enghraifft, difidendau) ei gredydu i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr, pan fydd yn dod yn dderbyniadwy gan y Cyngor.

Caiff asedau eu cynnal ar y fantolen ar sail gwerth teg. Caiff gwerthoedd eu seilio ar yr egwyddorion a ganlyn:

- offerynnau sydd â phris a ddyfynnir ar y farchnad – y pris ar y farchnad
- cyfranddaliadau ecwiti heb brisiau a ddyfynnir ar y farchnad – arfarniad annibynnol o brisiadau cwmnïau.

Caiff newidiadau mewn gwerth teg eu cydbwyso gan gofnod yn y gronfa wrth gefn ar gyfer asedau sydd ar gael i'w gwerthu. Yr eithriad yw sefyllfa lle cafwyd colledion oherwydd amhariadau – caiff y rhain eu debydu i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr, ynghyd ag unrhyw elw/colled net ar gyfer yr ased a gronnwyd yn y gronfa wrth gefn.

Os nodwyd bod amhariad ar yr asedau oherwydd bod digwyddiad yn y gorffennol yn ei gwneud yn debygol na chaiff taliadau sy'n ddyledus dan y contract eu gwneud (taliadau sefydlog neu daliadau y gellir eu pennu) neu os yw gwerth teg yn disgyn islaw'r gost, bydd gwerth yr ased yn gostwng a dangosir hynny yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr.

Rhwymedigaethau Ariannol

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg a'u dwyn ymlaen yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio. Caiff taliadau blynyddol i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ar gyfer llog taladwy eu seilio ar swm y rhwymedigaeth a gaiff ei ddwyn ymlaen, wedi'i luosi â'r gyfradd llog sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn. Golyga hynny mai'r swm a nodir ar y fantolen yw'r prif swm sy'n weddill ac sy'n daladwy (ynghyd â llog cronnus) ac mai'r llog a ddangosir yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn yng nghytundeb y benthyciad.

Cyfraniadau a Grantiau Llywodraeth

Rhoddir cyfrif am grantiau a dderbynnir i gefnogi gwariant cyfalaf a refeniw ar sail croniadau. Os yw ased yn cael ei ariannu'n rhannol neu'n llawn gan grant llywodraeth (neu unrhyw gyfraniad arall), caiff yr incwm ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff grantiau ar gyfer gwariant refeniw cyffredinol (megis y grant cynnal refeniw) eu credydu hefyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr.

Os caiff grantiau cyfalaf eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu tynnu allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn. Os nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei anfon i'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd. Os yw wedi'i ddefnyddio, caiff ei anfon i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Caiff symiau yn y Cyfrif Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf pan fyddant wedi'u defnyddio.

Asedau Treftadaeth

Asedau hanesyddol yw'r asedau hynny y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cadw mewn ymddiriedolaeth i genedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Mae asedau hanesyddol yr Awdurdod yn cynnwys adeiladau hanesyddol, ei gasgliadau archif (archifdy) a'i gasgliadau amgueddfa.

Adeiladau Hanesyddol :

Mae'r rhan fwyaf o adeiladau hanesyddol y Cyngor ym Mharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas. Caiff adeiladau eu dosbarthu fel a ganlyn -

Gweithredol –

Yn ogystal â chael eu cadw am eu nodweddion treftadaeth, cânt eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau eraill neu i ddarparu gwasanaethau eraill; cânt eu prisio yn yr un modd ag adeiladau eraill o'r un dosbarth cyffredinol o asedau, a chânt eu cyfrifyddu fel ased gweithredol.

Anweithredol –

Os caiff adeiladau eu cadw oherwydd eu nodweddion treftadaeth yn unig, cânt eu prisio'n ôl Safonau Adrodd Ariannol 30 (Asedau Treftadaeth). Ystyriwyd y modd y cafodd yr asedau hyn eu dosbarthu a'u prisio ar sail eu defnydd presennol neu ar sail unrhyw ddefnydd posibl arall. Ni ellir prisio'r rhan fwyaf o'r rhain yn ôl eu gwerth ar y farchnad ac, oherwydd eu natur, ni ellir eu prisio ar sail y gost o'u hamnewid. Wrth gyfrifyddu'r asedau hyn, cydnabyddir bod y rhan fwyaf ohonynt wedi'u caffael cyn bodolaeth yr awdurdod gweinyddu presennol (h.y. cyn ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1996), ac felly nid oes modd casglu gwybodaeth hanesyddol gywir a chyflawn at ddibenion cyfrifyddu.

Casgliadau :

Archifau'r Sir –

Mae'r archifau, sy'n amrywio o un darn o bapur i filoedd o ddogfennau, yn cael eu cadw o dan delerau amrywiol. Y mwyaf cyffredin yw'r eitemau sydd wedi'u hadneuo (benthyciadau hirdymor), rhoddion neu eitemau a brynwyd.

Mae rhai eitemau wedi'u prynu, y pwysicaf o'r rhain yw copi Thomas Pennant o *History of the Parishes of Whiteford & Holywell* (gyda darluniau ychwanegol) a brynwyd ym 1986 (nid yw'r pris wedi'i gofnodi).

Mae'r rhan fwyaf o'r archifau'n cael eu cadw ar adnau. Ni wnaed unrhyw ymgais i bennu gwerth ariannol neu werth yswiriant yr eitemau hanesyddol a diwylliannol unigryw hyn ond, os prynwyd yr archifau, mae'n bosibl bod cofnod ar gael o'u gwerth pan gawsant eu gwerthu. Byddai ceisio prisio'r holl asedau sy'n eiddo i'r Awdurdod yn broses faith, lafurus a drud, ac ni fyddai unrhyw werth a bennwyd iddynt ar sail prisiau'r farchnad, yn adlewyrchu gwir werth yr asedau i dreftadaeth y Sir; pe bai'r asedau'n cael eu colli, ni fyddai modd eu hail-greu na chael eitemau tebyg yn eu lle. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn cydnabod yr asedau hyn ar y fantolen.

Arteffactau yw nifer fechan o'r eitemau yn hytrach na defnyddiau dogfennol sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r casgliad, ac maent, gan hynny, yn eithriadau. Mae'r Cyngor yn credu ei bod yn briodol yswirio'r arteffactau er nad yw'n berchen arnynt; eu gwerth yswirio hanesyddol yw £174,415 ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn arwyddocaol at ddibenion adrodd/datgelu.

Amgueddfeydd y Sir -

Mae casgliadau amgueddfeydd y Sir yn cynnwys tua 6,800 o eitemau neu grwpiau o eitemau. O'r rhain mae tua 260 yn cael u harddangos yn Amgueddfa'r Wyddgrug, 100 yn Amgueddfa Bwcle ac mae casgliad o oddeutu 580 o eitemau ar fenthyg i Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas. Mae'r gweddill yn cael ei gadw mewn storfa oddi ar y safle.

Rhoddion yw'r rhan fwyaf o eitemau'r casgliad. Yr unig eitemau a brynwyd yw Casgliad Martin Harrison o grochenwaith Bwcle, sy'n cynnwys 351 darn o gorchenwaith a 103 o deils a brynwyd yn 2010 am £19,000, yn bennaf drwy arian grant; prisiwyd y casgliad er mwyn gwneud cais am y grant. Ychwanegwyd dysgl ceramig at y casgliad hwn ers hynny; fe'i prynwyd gan Ymddiriedolaeth Elusennol Tyrer ac fe'i rhoddwyd i'r Gwasanaeth Amgueddfeydd. Prynwyd eitemau hefyd drwy gynllun Treasure Trove a chawasant eu prisio fel rhan o'r broses honno - mae'r prisiau prynu'n amrywio o £50 i £1,500, a chafwyd cymorth grant i brynu rhai ohonynt. Mae 6 dysgl ceramig yn cael eu harddangos yn Amgueddfa Bwcle ac mae iddynt werth yswiriant a bennwyd gan y benthyciwr (National Museums Liverpool).

Nid oes modd rhoi gwerth ar y rhan helaethaf o'r casgliad oherwydd ei natur unigryw ac amrywiol. Nid yw'r dulliau prisio arferol yn ddigon dibynadwy a byddai'r gost o'u prisio'n anghymesur â'r budd o wneud hynny. Fel casgliad Archifdy'r Sir, nid yw'r Cyngor yn cydnabod yr asedau hyn ar y fantolen.

Amhariad

Caiff gwerth pob categori o asedau, ac asedau unigol sylweddol nad ydynt yn cael eu dibrisio, ei adolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol i weld a oes tystiolaeth bod gwerth yr asedau wedi gostwng. Os nodir bod amhariad, o ganlyniad i'r broses adolygu hon neu o ganlyniad i drefniadau prisio, rhoddir cyfrif am hynny naill ai drwy nodi'r golled yn y Cyfrif Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio, i'r graddau bod balans sy'n ymwneud â'r ased penodol yn y cyfrif hwnnw, a chaiff unrhyw swm dros ben ei ddangos yng nghyfrif refeniw'r gwasanaeth perthnasol.

Asedau Anniriaethol

Asedau nad ydynt yn ariannol ac nad oes sylwedd ffisegol yn perthyn iddynt yw asedau anniriaethol. Ni chânt eu cydnabod oni bai ei bod yn debygol y bydd manteision economaidd arfaethedig yn llifo i'r Cyngor, neu y bydd gwasanaethau posibl yn cael eu darparu iddo, ac os gellir mesur cost yr ased mewn modd dibynadwy. Gall gwariant ar ddatblygu, neu drwyddedau meddalwedd a brynwyd, fodloni'r diffiniad o asedau, os y Cyngor sy'n rheoli mynediad i'r manteision economaidd arfaethedig y maent yn eu cynrychioli, naill ai drwy gadwraeth neu warchodaeth gyfreithiol; ceir isafswm lefel gwariant o £10,000, ac ni fydd gofynion cyfrifyddu cyfalaf yn berthnasol i wariant sydd islaw'r lefel honno.

Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio o'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl eu caffael/gweithredu. Dyma'r oes ddefnyddiol fwyaf cyffredin a ddefnyddir yng nghyswllt amorteiddio:-

	Blynyddoedd
Trwyddedau meddalwedd	5
Gwariant ar ddatblygu	7

Taliadau Llog

Caiff llog allanol taladwy ei ddangos yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr, ynghyd ag amorteiddiad yr enillion a'r colledion wrth ail-brynu benthyciad a ddygwyd ymlaen yn y fantolen neu wrth dalu benthyciad o'r fath yn ôl yn gynnar.

Stociau

Caiff stociau eu prisio ar sail cost neu werth net y gellir ei wireddu, pa un bynnag sydd isaf. Caiff cost pob math o stoc ei mesur mewn modd gwahanol; dyma'r dulliau mesur a ddefnyddir mewn perthynas â phrif stociau'r Cyngor:-

- Helygain — Cyfartaledd cymhwysol
- Alltami (Cynnal a Chadw Tir) — Cyfartaledd cymhwysol
- Alltami (Darnau Sbâr Cerbydau) — Cyfartaledd cymhwysol
- Alltami (Tanwydd) — Cyntaf i mewn, cyntaf allan
- Canton — Cyntaf i mewn, cyntaf allan

Eiddo buddsoddi yw eiddo a ddefnyddir dim ond er mwyn ennill rhenti a/neu sicrhau cynnydd mewn cyfalaf. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os caiff yr eiddo ei ddefnyddio mewn unrhyw fodd i hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau neu o gynhyrchu nwyddau neu os caiff ei gadw i'w werthu. Mae eiddo buddsoddi a'r ystâd amaethyddol wedi cael eu prisio ar sail gwerth teg. Mewn achosion lle nad oedd tystiolaeth ar sail y farchnad o werth teg ar gyfer ased penodol, defnyddiwyd y gost o newid yr ased, wedi'i ddibrisio. Ni chaiff eiddo ei ddibrisio; yn hytrach caiff ei ailbrisio'n flynyddol yn unol ag amodau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn.

Eiddo Buddsoddi

Caiff enillion a cholledion oherwydd ailbrisiadau ac amhariadau o safbwynt eiddo buddsoddi eu cydnabod yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn hytrach na thrwy'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio. Caiff enillion a cholledion o werthu eu trin yn yr un modd. Nid yw trefniadau statudol yn caniatáu i'r enillion a'r colledion gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor, ac felly cânt eu tynnu allan o'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn a'u hanfon i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos unrhyw elw dros £10,000 o werthu) y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf.

Caiff rhenti a geir mewn perthynas ag eiddo buddsoddi eu credydu i'r llinell Incwm Ariannu a Buddsoddi, a byddant yn arwain at enillion ar gyfer Balans Cronfa'r Cyngor.

Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau yn y fantolen ar sail gwerth teg (gwerth ar y farchnad) ar gyfer pob dosbarth o offerynnau ariannol.

Caiff buddsoddiadau ac adneuon byrdymor eu cynnwys yn yr arian parod a'r elfennau sy'n cyfateb i arian parod yn hytrach na buddsoddiadau byrdymor os byddant yn aeddfedu cyn pen 3 mis i'r dyddiad caffael, yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 7.

Gweithrediadau ac asedau a gaiff eu rheoli ar y cyd

Mae'r Cyngor yn cydnabod ar y fantolen yr asedau y mae'n eu rheoli a'r dyledion sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithrediadau y mae'n eu rheoli ar y cyd â phartïon eraill, ac mae'n adlewyrchu'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr perthnasol, a chanran yr incwm y mae'n ei ennill mewn perthynas â nhw.

Mae'r Awdurdod yn cyfrifyddu dim ond ei gyfran ef o unrhyw asedau (eiddo, peiriannau a chyfarpar) y mae'n eu rheoli ar y cyd â phartïon eraill, a'i gyfran o'r dyledion a'r gwariant a'r incwm perthnasol; nid yw'r trefniant hwn yn cynnwys sefydlu endid ar wahân.

Prydlesi

Prydlesi Cyllid

Er mwyn i brydles gael ei hystyried yn brydles gyllid, mae angen i'r Cyngor ysgwyddo rhan helaeth o'r holl risgiau a'r holl fanteision sy'n gysylltiedig â'r berchnogaeth. Ceir pum enghraifft o sefyllfaoedd a fyddai, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd, fel rheol yn arwain at ystyried prydles yn brydles gyllid, sef:

- mae'r brydles yn trosglwyddo perchnogaeth yr ased i ddeiliad y brydles erbyn diwedd tymor y brydles
- mae gan ddeiliad y brydles opsiwn i brynu'r ased am bris y disgwylir iddo fod yn ddigon isel o ystyried eiwerth teg, gellir bod yn eithaf sicr mai dyna fydd yn digwydd
- mae tymor y brydles yn cyfateb i ran helaeth o oes economaidd yr ased
- mae gwerth presennol taliadau sylfaenol y brydles yn cyfateb i o leiaf ran helaeth o holl werth teg yr ased a brydlesir (mae'r Cyngor wedi penderfynu bod y rhan helaeth yn cyfateb i 90%, fel y nodwyd gan ei ymgynghorwyr annibynnol ynghylch prydlesi), ac
- mae'r asedau a brydlesir mor arbenigol eu natur fel mai deiliad y brydles yn unig all eu defnyddio heb wneud addasiadau mawr.

Mewn achos lle mae'r Cyngor yn ysgwyddo rhan helaeth o'r holl risgiau a'r holl fanteision sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar ased a brydlesir, caiff yr ased ei gofnodi fel eiddo, peiriannau a chyfarpar, a chydnabyddir rhwymedigaeth gyfatebol. Y gwerth a roddir ar y ddau beth yw gwerth teg yr ased neu werth presennol taliadau sylfaenol y brydles, pa un bynnag sydd isaf, wedi'i ddisgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles. Y gyfradd llog sydd ymhlyg yw'r gyfradd sy'n esgor ar gyfradd llog rheolaidd cyson ar y rhwymedigaeth sydd heb ei thalu. Caiff yr eiddo, y peiriannau a'r cyfarpar a gafaelir dan brydlesi cyllid eu dibrisio dros oes yr ased yn unol â'r polisi cyfrifyddu uchod ar gyfer dibrisiant.

Caiff yr ased a'r rhwymedigaeth eu cydnabod ar ddechrau'r brydles, a chânt eu datgydnabod pan fydd y rhwymedigaeth yn cael ei chlirio neu ei diddymu neu pan fydd yn dod i ben. Caiff y rhent blynyddol ei rannu rhwng ad-dalu'r rhwymedigaeth a chost cyllid. Caiff cost flynyddol cyllid ei chyfrifo drwy ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg mewn perthynas â'r rhwymedigaeth sydd heb ei thalu.

Prydlesi Gweithredu

Rhoddir cyfrif am brydlesi nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o brydlesi cyllid drwy eu hystyried yn brydlesi gweithredu. Caiff rhenti prydlesi gweithredu eu dangos mewn cyfrifon refeniw, ar sail croniadau, ac ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

Caiff prydlesi eiddo eu hystyried yn brydlesi tir ac adeiladau ar wahân, a rhoddir cyfrif amdanynt felly.

Asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a gedwir i'w gwerthu

Mae asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a gedwir i'w gwerthu wedi'u prisio ar sail gwerth teg. Yn achos eiddo, peiriannau a chyfarpar sydd wedi eu hailgategoreiddio fel asedau 'a gedwir i'w gwerthu', rhoddir y gorau i'w dibrisio pan gânt eu hailgategoreiddio. Caiff asedau y bwriedir eu gwerthu eu hailgategoreiddio fel asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a gedwir i'w gwerthu, pan fydd pob un o'r meini prawf canlynol wedi'u bodloni:

- Rhaid bod yr ased ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol yn amodol ar delerau sy'n arferol ac yn gyffredin ar gyfer achosion o werthu asedau o'r fath.
- Rhaid bod y gwerthiant yn debygol iawn; rhaid bod rheolwyr ar y lefel briodol wedi ymrwymo i gynllun i werthu'r ased, a rhaid bod rhaglen weithredol wedi ei chychwyn i ddod o hyd i brynwr a chwblhau'r cynllun.
- Rhaid bod yr ased (neu grŵp gwerthu) yn cael ei farchnata'n weithredol i'w werthu am bris sy'n rhesymol o'i gymharu â gwerth teg cyfredol yr ased.
- Dylid disgwyl y bydd y gwerthiant yn gymwys i'w gydnabod fel gwerthiant a gwblhawyd cyn pen blwyddyn ar ôl y dyddiad categoreiddio, a dylai'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i gwblhau'r cynllun ddangos ei bod yn annhebygol y bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r cynllun neu y bydd y cynllun yn cael ei dynnu'n ôl.

Gorbenion

Codwyd costau gwasanaethau cymorth ac adeiladau gweinyddol a ddarperir yn ganolog ar wasanaethau, yn unol â'r Cod Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau (SeRCOP). Dyrennir costau'r craidd corfforaethol a democrataidd ac unrhyw gostau nas dosbarthwyd i benawdau amcanion ar wahân, ac ni chânt eu dosrannu i unrhyw wasanaeth arall.

Pensiynau

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn gwahanol sy'n diwallu anghenion gweithwyr mewn gwasanaethau penodol. Mae'r cynlluniau yn rhoi buddion diffiniedig i'w haelodau, sy'n gysylltiedig â chyflog a gwasanaeth:

Athrawon:
Cynllun heb ei gyllido yw hwn a weinyddir gan yr Adran Addysg. Caiff y costau pensiwn a ddangosir yn y cyfrifon eu seilio ar gyfradd gyfrannu a bennir gan yr Adran Addysg ar sail cronfa dybiannol.

Gweithwyr Eraill:
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sydd wedi'i seilio ar gyflog terfynol, sydd â buddion diffiniedig ac a gaiff ei gyllido yw hwn. Caiff yr holl enillion a cholledion actiwaraidd eu cydnabod mewn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall. Mae'r cyfrifon yn cydnabod y rhwymedigaeth lawn sydd gan y Cyngor i dalu cost buddion ymddeol yn y dyfodol, a fydd yn codi o'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd gan weithwyr hyd at ddyddiad y fantolen, heb gynnwys y cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa a'r incwm buddsoddi a gynhyrchwyd ganddynt. Caiff y gyfradd disgownt a ddefnyddir i roi gwerth ar rwymedigaethau a chyfrifo cost gyfredol y gwasanaeth ei seilio ar yr elw o adbrynu sydd ar gael ar fondiau corfforaethol o safon.

Mae'r symiau a ddangosir mewn cyfrifon refeniw gwasanaeth yn seiliedig ar gyfran o gost gyfredol gwasanaeth (y cynnydd mewn buddion yn y dyfodol sy'n codi o'r gwasanaeth a enillwyd yn ystod y flwyddyn gyfredol) yn hytrach na chyfraniadau'r cyflogwr. Rhoddir cyfrif am fuddion yn ôl disgresiwn, a ddyfernir adeg ymddeoliad cynnar, yn y flwyddyn y gwnaed y penderfyniad ynghylch y dyfarniad.

Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Caiff gwariant sy'n ymwneud â chaffael, creu neu wella eiddo, peiriannau a chyfarpar ei droi'n gyfalaf, ar yr amod bod yr ased yn esgor ar fanteision i'r Awdurdod a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo, am gyfnod o dros flwyddyn; ceir isafswm lefel gwariant o £20,000, ac ni fydd gofynion cyfrifyddu cyfalaf yn berthnasol i wariant sydd islaw'r lefel honno. Caiff gwariant ar waith atgyweirio a chynnal a chadw arferol ar asedau sefydlog ei ddangos yn uniongyrchol mewn cyfrifon refeniw gwasanaeth.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu prisio ar y sail a argymhellir gan CIPFA ac yn unol â'r Datganiadau o Arferion Prisio Asedau a'r Nodiadau Cyfarwyddyd a gyhoeddir gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Cânt eu categoreiddio mewn amryw grwpiau fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer 2012/13 ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol.

Y fethodoleg a ddefnyddir i brisio Stoc Dai'r Cyfrif Refenwi Tai yw Dull Beacon, dull prisio meddiant gwag sy'n seiliedig ar werth yr eiddo pe bai'n wag a gaiff ei addasu i adlewyrchu'r ffaith bod tenant diogel yn rhentu'r eiddo. Y fethodoleg hon - sef y fethodoleg a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru - yw'r fethodoleg sydd fwyaf tebygol o sicrhau cysondeb yn y broses o brisio eiddo HRA mewn gwahanol awdurdodau lleol. Caiff gwerth teg anheddau'r Cyngor ei fesur gan ddefnyddio Gwerth Defnydd Presennol-Tai Cymdeithasol, yn unol â diffiniad Safonau Prisio RICS, sef yr amcangyfrif o'r swm a bennir i gyfnewid eiddo (ar ddyddiad y prisio) rhwng prynwr parod a gwerthwr parod, mewn trafodion hyd braich. Caiff asedau sefydlog gweithredol eraill (seilwaith ac asedau cymunedol) ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu prisio ar sail cost hanesyddol.

Rhaid ailbrisio holl asedau'r Awdurdod bob pum mlynedd - mae'r Cyngor yn bodloni'r gofyniad hwn drwy ailbrisio cyfran o'r portffolio asedau cyfan bob blwyddyn; yn ystod 2012/13 (ail y drydedd flwyddyn y cylch presennol, a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2010), ail-brisiwyd tua 20% o'r holl asedau nad ydynt yn anheddau, ynghyd â'r holl stoc tai. Caiff newidiadau pwysig i brisiadau eu haddasu yn y cyfamser wrth iddynt ddigwydd. Bydd credydau i'r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio yn cyd-fynd ag unrhyw gynnydd mewn prisiadau, er mwyn cydnabod enillion heb eu gwireddu. Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio yn cynnwys enillion ailbrisio a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad gweithredu'r drefn yn ffurfiol. Mae enillion sy'n codi cyn y dyddiad hwnnw wedi'u crynhoi yn y cyfrif addasu cyfalaf. Caiff gwahanol ddosbarthiadau o asedau a gaiff eu cynnwys ar fantolen y grŵp eu mesur ar wahanol seiliau (sy'n cyd-fynd â'r fantolen).

Darpariaethau

Mae'r Cyngor yn darparu'n briodol ar gyfer unrhyw rwymedigaethau neu golledion sy'n debygol neu'n sicr o ddod i'w ran, oni bai bod ansicrwydd ynghylch swm neu amseriad unrhyw daliad y mae ei angen i glirio'r rhwymedigaeth.

Cronfeydd wrth gefn

Ystyrir symiau a neilltuir at ddibenion nad ydynt yn perthyn i'r diffiniad o ddarpariaethau fel cronfeydd wrth gefn. Maent naill ai'n arian y bwriadwyd ei neilltuo i dalu am wariant annisgwyl yn y tymor byr, yn adnoddau i helpu i reoli llif arian neu'n adnoddau sydd wedi cronni na chawsant eu gwario na'u clustnodi ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu. Caiff trosglwyddiadau i mewn ac allan ohonynt eu dangos fel neilltuadau yn y datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn, sy'n disodli'r datganiad o symudiadau ym malans cronfa'r cyngor.

Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud (REFCUS)

Mae gwariant yn ystod y flwyddyn y gellid ei droi'n gyfalaf dan ddarpariaethau statudol, ond nad yw'n arwain at greu asedau sefydlog, wedi'i ddangos fel gwariant yng nghyfrif y gwasanaeth perthnasol yn ystod y flwyddyn. Os yw'r Cyngor wedi penderfynu talu cost y gwariant hwn drwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf cyfredol neu drwy fenthyca, mae trosglwyddo i'r cyfrif addasu cyfalaf yn gwyrdroi'r symiau a ddangoswyd yn y datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn, fel nad yw'n effeithio ar lefel y Dreth Gyngor.

Adrodd ynghylch cylchrannau

Mae'r cyfrifoldeb am ddyrannu adnoddau'n perthyn i'r Aelodau etholedig a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Yr Aelodau a'r Prif Swyddog perthnasol sy'n asesu perfformiad. Mae cylchrannau wedi eu nodi sy'n adlewyrchu strwythur sefydliadol y Cyngor fel yr adroddwyd yn ei gylch wrth y Prif Benderfynwr Gweithredol (y Pwyllgor Gweithredol), ac mae'r rhain wedi eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol.

Adroddir ynghylch cylchran os yw ei gwariant yn cyfateb i 10% neu fwy o'r gwariant gros o fewn cost net gwasanaethau; neu os yw ei hincwm yn cyfateb i 10% neu fwy o'r incwm gros o fewn cost net gwasanaethau.

Mewn achosion lle nad yw'r cylchrannau a nodwyd y dylid adrodd yn eu cylch yn cynnwys o leiaf 75% o'r gwariant o fewn cost net gwasanaethau, caiff cylchrannau neu gyfuniadau o gylchrannau ychwanegol eu trin fel cylchrannau y dylid adrodd yn eu cylch, nes bydd y cylchrannau y dylid adrodd yn eu cylch yn cynnwys o leiaf 75% o'r gwariant o fewn cost net gwasanaethau.

Nid yw'r Cyngor yn adrodd ynghylch asedau neu rwymedigaethau'n fewnol, ac felly nid yw'n ofynnol adrodd ynghylch y rhain fesul cylchran yn y datganiadau ariannol.

Treth Ar Werth

Mae'r Cyngor yn cael ad-daliad am gost net y dreth ar werth y mae'n ei thalu. Paratowyd y cyfrifon heb gynnwys treth, yn unol â Datganiad Arferion Cyfrifyddu Safonol 5.

2. ADRODD YNGHYLCH CYLCHRANNAU

Caiff incwm a gwariant pob gwasanaeth ei ddadansoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol â'r Cod Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau. Fodd bynnag, Cabinet yr Awdurdod sy'n penderfynu ar symiau i'w dyrannu i adnoddau ar sail adroddiadau cyllideb a gaiff eu dadansoddi ar draws y cyfarwyddiaethau. Caiff yr adroddiadau hyn eu paratoi ar seiliau gwahanol i'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol. Yn benodol:

- ni chodir tâl am wariant cyfalaf (ond caiff colledion oherwydd dibrisiant, ailbrisio ac amhariad uwchlaw'r balans ar y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn ac amorteiddio, eu codi ar wasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

- caiff gwariant ar rai gwasanaethau cymorth ei ariannu'n ganolog ac ni chodir tâl ar y cyfarwyddiaethau amdanynt.

Dyma incwm a gwariant prif gyfarwyddiaethau'r Awdurdod fel y maent wedi'u cofnodi yn yr adroddiadau cyllideb eleni:

2012/13		Gwasanaethau Cymunedol £000	Amgylchedd £000	Dysgu Gydol Oes £000	Gwasanaethau Corfforaethol £000	Cyllid Canolog a Chorfforaethol £000	Cyfrif Refeniw Tai £000	Cyfanswm £000
Incwm	Ffioedd, taliadau ac incwm gwasanaethau arall	(7,005)	(19,361)	(17,276)	(51,253)	(4,917)	(31,622)	**(131,434)**
	Grantiau'r Llywodraeth	(7,773)	(7,133)	(22,321)	(358)	(162)	6,166	**(31,581)**
	Cyfanswm	(14,778)	(26,494)	(39,597)	(51,611)	(5,079)	(25,456)	**(163,015)**
Gwariant	Treuliau gweithwyr	27,968	24,095	106,676	13,053	1,946	5,974	**179,712**
	Treuliau gwasanaeth eraill	41,935	34,171	43,947	56,349	25,868	19,408	**221,678**
	Cyfanswm	69,903	58,266	150,623	69,402	27,814	25,382	**401,390**
Alldro terfynol		**55,125**	**31,772**	**111,026**	**17,791**	**22,735**	**(74)**	**238,375**

2011/12		Gwasanaethau Cymunedol £000	Amgylchedd £000	Dysgu Gydol Oes £000	Gwasanaethau Corfforaethol £000	Cyllid Canolog a Chorfforaethol £000	Cyfrif Refeniw Tai £000	Cyfanswm £000
Incwm	incwm gwasanaethau arall	(8,332)	(37,516)	(14,685)	(49,840)	(18,783)	(55,795)	**(184,951)**
	Grantiau'r Llywodraeth	(9,343)	(7,220)	(20,004)	(709)	0	6,311	**(30,965)**
	Cyfanswm	(17,675)	(44,736)	(34,689)	(50,549)	(18,783)	(49,484)	**(215,916)**
Gwariant	Treuliau gweithwyr	28,488	24,270	105,337	12,558	3,579	6,034	**180,266**
	Treuliau gwasanaeth eraill	44,490	52,147	41,373	55,912	36,815	43,080	**273,817**
	Cyfanswm	72,978	76,417	146,710	68,470	40,394	49,114	**454,083**
Alldro terfynol		**55,303**	**31,681**	**112,021**	**17,921**	**21,611**	**(370)**	**238,167**

Cysoni Incwm a Gwariant Cyfarwyddiaethau â Chost Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r cysoni hwn yn dangos sut y mae'r ffigurau yn y dadansoddiad o incwm a gwariant cyfarwyddiaethau'n perthyn i'r symiau a gaiff eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

	2012/13	2011/12
	£000	£000
Alldro terfynol	238,375	238,167
Ychwanegu symiau na chafodd eu hadrodd wrth y rheolwyr *	45,801	96,823
Symud symiau yr adroddwyd yn eu cylch wrth y rheolwyr nad ydynt wedi eu cynnwys yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	(17,618)	(37,216)
Cost Net Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	266,558	297,774

Addasiad cyfnod blaenorol - gweler Nodyn 44. Yng nghyfrifon 2011/12, y swm Ni roddwyd gwybod i'r rheolwyr ei gofnodi fel £84,071k.

Cysoni â Dadansoddiad Goddrychol

Mae'r cysoni hwn yn dangos sut y mae'r ffigurau yn y dadansoddiad o incwm a gwariant cyfarwyddiaethau'n perthyn i ddadansoddiad goddrychol o'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, a gaiff ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Cysoniad a Dadanosddiad Goddrychol 2012/13	**Dadansoddi Gwasanaethau**	**Heb Adrodd wrth y Rheolwr**	**Heb gynnwys mewn I a G**	**Cost Net Gwasanaethau**	**Symiau Corfforaethol**	**Cyfanswm**
	£000	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**
Ffioedd, taliadau ac incwm gwasanaethau arall	(131,434)	0	0	**(131,434)**	0	**(131,434)**
Incwm llog a buddsoddi	0	0	0	**0**	(26,269)	**(26,269)**
Incwm o'r dreth gyngor	0	0	0	**0**	(72,197)	**(72,197)**
Dosbartgwyd o'r gronfa ardrethi annomestig	0	0	0	**0**	(40,562)	**(40,562)**
Grantiau a chyfraniadau'r llywodraeth	(31,581)	0	0	**(31,581)**	(163,480)	**(195,061)**
Enillion neu golledion o werthu asedau sefydlog	0	0	0	**0**	(5,192)	**(5,192)**
Cyfanswm Incwm	**(163,015)**	**0**	**0**	**(163,015)**	**(307,700)**	**(470,715)**
Treuliau gweithwyr	179,712	0	0	**179,712**	0	**179,712**
Treuliau gwasanaethau eraill	221,678	(18,058)	1,289	**204,909**	0	**204,909**
Ailgodwyd ar y Gwasanaeth Cymorth	0	18,907	(18,907)	**0**	0	**0**
Dibrisinat, amorteiddio ac amhariad	0	44,952	0	**44,952**	0	**44,952**
Taliadau Llog	0	0	0	**0**	47,112	**47,112**
Praeseptau ac ardollau	0	0	0	**0**	22,288	**22,288**
Cyfanswm treuliau gweithredol	**401,390**	**45,801**	**(17,618)**	**429,573**	**69,400**	**498,973**
Gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau	**238,375**	**45,801**	**(17,618)**	**266,558**	**(238,300)**	**28,258**

Cysoniad i Ddadanosddiad Goddrychol 2011/12	Dadansoddiad o'r Gwasanaeth	Heb eu Hadrodd i'r Rheolwyr	Heb eu cynnwys yn yr IaG	Cost Net Gwasanaethau	Symiau Corfforaethol	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Ffioedd, taliadau ac incwm gwasanaethau arall	(184,951)	0	0	**(184,951)**	0	**(184,951)**
Incwm llog a buddsoddi	0	0	0	**0**	(31,517)	**(31,517)**
Incwm o'r dreth gyngor	0	0	0	**0**	(69,962)	**(69,962)**
Dosbartgwyd o'r gronfa ardrethi annomestig	0	0	0	**0**	(35,203)	**(35,203)**
Grantiau a chyfraniadau'r llywodraeth	(30,965)	0	0	**(30,965)**	(169,168)	**(200,133)**
Enillion neu golledion o werthu asedau sefydlog	0	0	0	**0**	(42)	**(42)**
Cyfanswm Incwm	**(215,916)**	**0**	**0**	**(215,916)**	**(305,892)**	**(521,808)**
Treuliau gweithwyr	180,266	3,545	0	**183,811**	0	**183,811**
Treuliau gwasanaethau eraill	273,817	20,293	(14,795)	**279,315**	0	**279,315**
Ailgodwyd ar y Gwasanaeth Cymorth	0	22,421	(22,421)	**0**	0	**0**
Dibrisinat, amorteiddio ac amhariad *	0	50,564	0	**50,564**	0	**50,564**
Taliadau Llog	0	0	0	**0**	45,933	**45,933**
Praeseptau ac ardollau	0	0	0	**0**	21,948	**21,948**
Cyfanswm treuliau gweithredol	**454,083**	**96,823**	**(37,216)**	**513,690**	**67,881**	**581,571**
Gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau	**238,167**	**96,823**	**(37,216)**	**297,774**	**(238,011)**	**59,763**

Addasiad cyfnod blaenorol - gweler Nodyn 44. Yng nghyfrifon 2011/12, y swm Ni roddwyd gwybod i'r rheolwyr ei gofnodi fel £84,071k.

3. GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

	2013 £000	2012 £000
Praesept - Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru	13,059	12,705
Praeseptau eraill - cynghorau cymuned	2,247	2,191
Tâl - Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	6,982	7,052
Elw net ar waredu asedau nad ydynt yn gyfredol	(5,193)	(42)
	17,095	21,906

4. INCWM A GWARIANT ARIANNU A BUDDSODDI

Mae crynswth net ariannu a buddsoddi incwm a gwariant yn gyfanswm o £20,844k (£14,416k yn 2011/12). Mae hyn yn ymgorffori colledion buddsoddi a gwariant buddsoddi a ddangosir isod.

	2013 £000	2012 £000
Llog taladwy a thaliadau tebyg	10,075	10,231
Colledion buddsoddi a gwariant buddsoddi (gweler tudalen 29)	7,267	4,824
Cost llog pensiynau a'r elw disgwyliedig ar asedau pensiynau (gweler tudalen 30)	8,919	7,706
Llog ac incwm buddsoddi	(5,417)	(8,345)
	20,844	14,416

Colledion Buddsoddi a Gwariant Buddsoddi

Nodwyd y canlynol:

		2013			2012	
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Amhariad ar eiddo buddsoddi		6,099			748	
Addasiadau oherwydd amhariad - Landsbank	66			(202)		
Namyn llog derbyniadwy - Landsbanki	(101)			(159)		
		(35)			(361)	
			6,064			387
Gwariant (eiddo) buddsoddi			1,203			4,437
			7,267			4,824

Mae cyfanswm o amhariadau, heb addasiad net o £35k, yn ymwneud â buddsoddi ym Manc Landsbanki, Ynys yr Iâ, a fethodd fis Hydref 2008. Roedd gan y Cyngor £3,700k ar gyfrif cadw yn y banc hwnnw gyda dyddiadau terfynu a chyfraddau llog fel ag a welir yn y tabl isod:

Dyddiad Buddsoddi	Dyddiad Aeddfedu	Swm a Fuddsoddwyd yn Wreiddiol	Cyfradd Llog	Elw Hyd Yma	Buddsoddiad sy'n Weddill
		£000	%	£000	£000
22/07/08	17/10/08	1,200	5.82	571	629
01/09/08	14/11/08	1,500	5.70	714	786
08/09/08	18/11/09	1,000	5.67	475	525
		3,700		**1,760**	**1,940**

Mae'r holl arian ar hyn o bryd o fewn y broses weinyddu. Ddiwedd 2011 cadarnhawyd fod statws blaenoriaeth wedi ei gadarnhau gan Uwch Lys Gwlad yr Iâ sy'n golygu fod awdurdodau lleol a fuddsoddodd (gan gynnwys Sir y Fflint) yn cael eu cydnabod fel credydwyr a ffafrir.

Cafodd y Cyngor, fel credydwr blaenoriaethol y swm o £1,760k fisoedd Chwefror, Mai a Hydref 2012 gan Fwrdd Dirwyn i Ben Banc Landsbanki.

Cyhoeddodd y Bwrdd Dirwyn i Ben fanylion am sefyllfa ariannol Banc Landsbanki (LBI) ar ei wefan ar 31 o Ragfyr 2012. Dengys hwn fod asedau LBI, yn cynnwys rhandaliadau a wnaed eisoes mewn perthynas â hawliadau blaenoriaeth oedd yn fwy na swm yr hawliadau blaenoriaeth. Felly delir i ystyried ei bod yn debygol y bydd awdurdodau lleol y Deyrnas Gyfunol yn cael 100% o'r arian a roddwyd yn y cyfrifon, ond bod hynny'n ddarostyngedig i symudiadau yn y gyfradd gyfnewid. Ni fydd union effaith hyn ar y Cyngor yn wybyddus tan y bydd y broses ddosbarthu wedi ei chwblhau i gyd..

Nid yw'r wybodaeth sydd ar gael gan y gweinyddwyr yn gyflawn a therfynol parthed symiau ac adegau'r taliadau, ac y mae'n debygol y bydd newidiadau pellach yn cael eu gwneud i'r cyfrifon mewn blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, mae'r addasiad amharu gros 2012/13 (£66k) yn cael ei gydnabod yn y datganiad incwm a gwariant cyfun a'i ddangos yn y tabl canlynol. Mae wedi ei gyfrifo drwy ostwng y llif arian tybiedig ar y gyfradd log weithredol yr arian gwreiddiol er mwyn cydnabod y colli llog a ragdybir a fydd yn dod i ran yr Awdurdod tan ad-delir yr arian yn llawn.

Dyddiad Buddsoddi	Dyddiad Aeddfedu	Amount Invested	Cyfradd Llog	Amhariad cronnus 2012	Amhariad yn ystod y flwyddyn 2012/13	Gwerth Llyfr
		£000	%	£000	£000	£000
22/07/08	17/10/08	1,200	5.82	(108)	(21)	500
01/09/08	14/11/08	1,500	5.70	(134)	(27)	625
08/09/08	18/11/09	1,000	5.67	(90)	(18)	417
		3,700		(332)	(66)	1,542

Mae'r symiau trosglwyddo wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio gwerth presennol yr ad-daliadau a ddisgwylir. Maent wedi eu gostwng gan ddefnyddio cyfradd wreiddiol y buddsoddiad. Mae'r ad-daliadau a ddisgwylir (Rhagfyr pob blwyddyn) wedi eu hamcanu fel a ganlyn, (wedi eu sylfaenu ar ddatganiadau a wnaed gan y gweinyddwr):-

2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	Cyfanswm
£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
269	254	240	227	214	202	136	1,542

Mae addasiadau i'r rhagdybiaethau yn cael eu gwneud mewn cyfrifon yn y dyfodol fel y daw mwy o wybodaeth ar gael.

Nid yw swm yr arian fydd yn deillio o Fwrdd Dirwyn i Ben Banc Landsbanki yn hysbys. Ond ar sail yr wybodaeth uchod, mae'r Panel Cyfrifo Llywodraeth Leol yn argymell y dylid amcanu'r symiau a geir yn ôl ar sail ad-daliad llawn o 100% ac y dylid amcanu arian a ddaw o'r ffynhonnell hon yn y dyfodol fel a ganlyn:-

Dyddiad	%
Rhagfyr 2013	7.50
Rhagfyr 2014	7.50
Rhagfyr 2015	7.50
Rhagfyr 2016	7.50
Rhagfyr 2017	7.50
Rhagfyr 2018	7.50
Rhagfyr 2019	5.35
	50.35

Pensiynau - Athrawon:

Yn 2012/13, talodd y Cyngor £7,294k i'r Adran Addysg yng nghyswllt costau pensiynau athrawon (£7,271k yn 2011/12), sef 14.1% (ar gyfartaledd) o gyflog pensiynadwy athrawon (14.19% yn 2011/12).

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn gyfrifol am yr holl daliadau pensiwn sy'n ymwneud â blynyddoedd ychwanegol a ddyfarnwyd ganddo, ynghyd â'r codiadau cysylltiedig. Yn 2012/13 roedd y rhain yn cyfateb i £513k (£487k yn 2011/12) sef 1.00% o gyflog pensiynadwy (0.95% yn 2011/12).

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun buddion diffiniedig, ond caiff ei drin fel cynllun cyfraniadau diffiniedig at ddibenion cyfrifyddu gan nad yw'r Awdurdod yn gallu adnabod ei gyfran ef o asedau a rhwymedigaethau.

Pensiynau - Gweithwyr eraill:

Cafodd y Cyngor £791k o'r gronfa at ddibenion gweinyddu buddion a gwasanaethau cymorth canolog eraill (£803k yn 2011/12).

Caiff effaith swm costau pensiynau ar y fantolen a'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ei hadlewyrchu yn y nodiadau a ganlyn.

Caiff rhagor o wybodaeth am gyfrifon Cronfa Bensiynau Clwyd ei darparu ar dudalennau 78 i 104**,** ac yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiynau Clwyd sydd ar gael o ofyn amdano.

Trafodion sy'n ymwneud â buddion ymddeol -

Caiff cost buddion ymddeol ei chydnabod yng nghost net gwasanaethau wrth i weithwyr eu hennill, yn hytrach na phan gaiff y buddion eu talu maes o law fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r swm y mae'n ofynnol ei ddangos yn erbyn y Dreth Gyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff gwir gost buddion ymddeol ei gwyrdroi yn y datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn. Dyma'r trafodion a wnaed yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr a'r datganiad o symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn :-

	2013		2012	
	£000	£000	£000	£000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Cost Net Gwasanaethau -				
Cost gyfredol gwasanaethau	14,035		12,845	
Cost/(elw) gwasanaethau yn y gorffennol	78		175	
Cwtogiadau/setliadau	221		473	
Gwariant gweithredu net -		14,334		13,493
Cost llog	29,771		30,878	
Elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun	(20,852)		(23,172)	
		8,919		7,706
Taliad net i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr		23,253		21,199
Datganiadau o Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn				
Gwyrdroi taliadau net a wnaed ar gyfer buddion ymddeol yn		(23,253)		(21,199)
Y swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn balans cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn				
Cyfraniad y cyflogwyr syn daladwy i'r cynllun		21,202		20,849
Debyd/(credyd) net i'r symudiad yn y datganiad cronfeydd wrth gefn		(2,051)		(350)

Yn ogystal â'r enillion a'r colledion cydnabyddedig a gaiff eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ceir enillion actiwaraidd o £62,633k (elw o £37,181k yn 2011/12). Swm cronnus y colledion actiwaraidd yw £248,225k (net).

Asedau a rhwymedigaethau mewn perthynas â buddion ymddeol -

Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun -

	2013 £000	2012 £000
1 Ebrill	611,007	564,531
Cost gwasanaeth cyfredol	14,035	12,845
Cost llog	29,771	30,878
Cyfraniadau gan y rhai sy'n cyfranogi yn y cynllun	4,913	4,866
Enillion a cholledion actiwaraidd	76,603	20,425
Buddion a dalwyd	(23,205)	(23,186)
Costau gwasanaeth blaenorol	78	175
Enillion gwasanaeth blaenorol	0	0
Cwtogiadau/setliadau	221	473
31 Mawrth	713,423	611,007

Cysoni gwerth teg asedau'r cynllun -

	2013 £000	2012 £000
1 Ebrill	370,173	361,228
Cyfradd elw disgwyliedig	20,852	23,172
Enillion a cholledion actiwaraidd	13,970	(16,756)
Cyfraniadau'r cyflogwr	19,572	19,258
Cyfraniadau gan y rhai sy'n cyfranogi yn y cynllun	4,913	4,866
Buddion a dalwyd	(21,575)	(21,595)
31 Mawrth	407,905	370,173

Cytunwyd ar y rhagdybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd â'r actiwari (Mercer Human Resource Consulting Limited) yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd gan CIPFA.

Caiff yr elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun ei bennu drwy ystyried yr elw disgwyliedig sydd ar gael ar asedau sylfaenol y polisi buddsoddi cyfredol. Yr elw buddsoddi tybiedig ar fondiau'r llywodraeth yw'r elw ar stociau ymyl aur 20 mlynedd â llog sefydlog ar y dyddiad perthnasol. Yr elw ar soddgyfrannau yw'r elw ar stociau ymyl aur 20 mlynedd â llog sefydlog ynghyd â lwfans ar gyfer y 'premiwm risg' sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn soddgyfrannau.

Yr elw gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn ystod y flwyddyn oedd £34,822k (£6,416k yn 2011/12).

	2013 £000	2012 £000	2011 £000	2010 £000	2009 £000	2008 Wedi ei ailddatgan £000
Gwerth presennol	(713,423)	(611,007)	(564,531)	(589,060)	(429,545)	(501,354)
Gwerth teg asedau	407,905	370,173	361,228	340,130	248,841	314,562
Gwarged/diffyg yn y cynllun	(305,518)	(240,834)	(203,303)	(248,930)	(180,704)	(186,792)

Mae'r rhwymedigaethau'n dangos yr ymrwymiadau sylfaenol sydd gan yr Awdurdod yn y tymor hir i dalu buddion ymddeol. Mae'r rhwymedigaeth net, sef £305,518k wedi'i gynnwys fel rhan o'r cyfanswm wrth gefn ar y Fantolen, na ellir eu defnyddio (o fewn y balans cyffredinol o £317,521k) ar dudalen 12.

Mae trefniadau statudol ar gyfer cyllido'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn parhau'n iach; gwneir iawn am y diffyg o ran y cynllun llywodraeth leol drwy gynyddu cyfraniadau dros oes waith y gweithwyr, yn unol ag asesiad actiwari'r cynllun.

Cyfanswm y cyfraniadau y disgwylir y byddant yn cael eu gwneud i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 yw £19.7m.

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau a rhwymedigaethau -

Mae'r rhwymedigaethau wedi eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanol, sef amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod yn ddibynnol ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau ac ati. Mae'r rhwymedigaethau wedi eu hasesu gan Mercer Human Resource Consulting Limited, sef cwmni annibynnol o actiwarïaid; caiff amcangyfrifon ar gyfer y Cyngor Sir eu seilio ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 1 Ebrill 2010.

Dyma'r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari -

		2013	2012
Elw disgwyliedig yn yr hirdymor ar asedau'r cynllun			
Buddsoddiadau ecwiti		7.0%	7.0%
Bondiau		3.9%	4.1%
Arall		7.0%	7.0%
Rhagdybiaethau Marwoldeb			
Hyd oes yn 65 oed i bensiynwyr cyfredol -			
	Dynion	22.2 yrs	21.8 yrs
	Merched	24.8 yrs	24.4 yrs
Hyd oes yn 65 oed i bensiynwyr y dyfodol -			
	Dynion	24.1 yrs	23.2 yrs
	Merched	26.8 yrs	26 yrs
Cyfradd chwyddiant (Mynegai Prisiau)		2.4%	2.5%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau		3.9%	4.0%
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau		2.4%	2.5%
Cyfradd ar gyfer disgownt ar rwymedigaethau'r cynllun		4.2%	4.9%
Canaran sy'n dewis trosi pensiwn blynyddol yn un cyfandaliad ar ymddeoliad		50%	50%

Mae asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys y categorïau a ganlyn, yn ôl cyfran yr holl asedau a gedwir:-

	2013 %	2012 %
Buddsoddiadau ecwiti	43	41
Bondiau eraill	15	16
Eiddo	7	10
Arian parod/hylifedd	2	3
Asedau eraill	33	30
	100	100

Hanes enillion a cholledion ar sail profiad -

Gellir rhannu'r enillion actiwaraidd a nodwyd fel symudiadau yn y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Pensiynau yn 2012/13 i'r categorïau a ganlyn, wedi'u mesur fel canran o'r asedau neu'r rhwymedigaethau ar 31 Mawrth 2013 :-

	2013	2012	2011	2010	2009	2008 Wedi ei ailddatgan
	%	%	%	%	%	%
Gwahaniaethau rhwng yr elw disgwyliedig a'r elw gwirioneddol ar	3.4	(4.53)	(1.74)	19.67	(38.72)	(9.70)
Enillion colledion ar rwymedigaethau	0.00	0.00	3.31	0.00	0.00	1.68

5. INCWM TRETHI A GRANTIAU AMHENODOL

	2013 £000	2012 £000
Incwm y dreth gyngor	(72,197)	(69,962)
Ardrethi annomestig	(40,562)	(35,203)
Grantiau llywodraeth na chafodd eu neilltuo	(145,366)	(151,229)
Grantiau Cyfalaf a chyfraniadau	(18,114)	(17,939)
	(276,239)	(274,333)

Mae pob annedd domestig wedi'i gynnwys yn rhestr brisio'r Dreth Gyngor a gyhoeddir ac a gedwir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Gosodir pob annedd yn un o naw prif fand (A i I) yn dibynnu ar brisiad yr eiddo ar y farchnad agored ar 1 Ebrill 2003. Mae degfed band (A*) ar gael i'r trethdalwyr hynny'n unig sy'n byw mewn eiddo band A ac sydd â hawl i gael gostyngiad os addaswyd eiddo ar gyfer eu hanabledd.

Seilir y Dreth Gyngor ar y band prisio y gosodwyd yr eiddo ynddo. Caiff taliadau eu cyfrifo drwy rannu cyfanswm gofynion y Cyngor ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru o ran incwm blynyddol â sylfaen y Dreth Gyngor.

Sylfaen y dreth yw cyfanswm yr holl eiddo ym mhob band, wedi'i addasu'n ôl cyfrannedd i drosi'r nifer yn nifer sy'n gyfwerth â band D, ac a gaiff ei addasu hefyd ar gyfer disgowntiau.

Sylfaen y dreth ar gyfer 2012/13 oedd 60,865 (60,692 yn 2011/12), fel y cyfrifwyd yn y tabl isod:

	Band A*	Band A	Band B	Band C	Band D	Band E	Band F	Band G	Band H	Band I	Total
Anheddau Trethadwy											
Anheddau trethadwy	-	3,800	8,904	19,217	11,873	9,771	6,613	2,968	570	224	63,940
Anheddau a gostyngiadau anabledd	-	21	56	139	114	121	88	42	11	22	614
Anheddau trethadwy - nifer wedi'i addasu	21	3,835	8,987	19,192	11,880	9,738	6,567	2,937	581	202	63,940
Anheddau Trethadwy - Nifer wedi'i Addasu											
Anheddau heb ddisgownt	10	1,276	4,896	12,504	8,390	7,448	5,463	2,521	502	178	43,188
Anheddau ag un disgownt	11	2,558	4,084	6,677	3,481	2,281	1,098	409	59	19	20,677
Anheddau a dau ddisgownt	0	1	7	11	9	9	6	7	20	5	75
Anheddau trethadwy a disgownt	21	3,835	8,987	19,192	11,880	9,738	6,567	2,937	581	202	63,940
Anheddau Trethadwy a Disgownt											
Cyfanswm yr anheddau a disgownt	18	3,195	7,963	17,517	11,006	9,163	6,290	2,831	556	195	-
Cymhareb i fand "D"	5/9	6/9	7/9	8/9	1	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9	-
Cyfateb i Fand "D"	10	2,130	6,193	15,571	11,006	11,200	9,085	4,719	1,112	454	61,480
Addasiad cyfradd caslgu (ar 1%)											(615)
Addasiad eiddo sydd wedi'i eithrio											0
Sylfaen y Dreth Gyngor 2012/13											60,865

Y tâl sylfaenol ar gyfer eiddo band D yn Sir y Fflint yn 2011/12 oedd £905.23 (£878.86 yn 2010/11). Roedd biliau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar y lluosyddion a ganlyn ar gyfer bandiau A* i I :-

Band	A*	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Lluosydd	5/9	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9

Roedd praesept Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, sef £12,705,263 (£12,186,102 yn 2010/11), yn braesept sylweddol ymhlith y praeseptau a godwyd ar Gyngor Sir y Fflint. Yn ogystal, cododd y 34 cyngor cymuned/tref braeseptau a oedd yn werth cyfanswm o £2,191,442 (£2,119,240 yn 2010/11).

Dadansoddi derbyniadau net o'r Dreth Gyngor:

	2013 £000	2012 £000
Y dreth gyngor a gasglwyd	72,531	70,225
Ychwanegu - Gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion	33	27
Llai - Symiau a ddilewyd i'r ddarpariaeth	(367)	(290)
	72,197	69,962
Llai - Taladwy i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru	(13,059)	(12,705)
	59,138	57,257

Caiff ardrethi annomestig eu trefnu ar lefel genedlaethol. Bydd y llywodraeth yn pennu puntdal y dreth, sef 45.2c yn 2012/13 ar gyfer pob eiddo (42.8c yn 2011/12). Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gasglu'r ardrethi yn ei ardal, ac fe'u telir i'r gronfa Ardrethi Annomestig a weinyddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu derbyniadau'r gronfa Ardrethi Annomestig i awdurdodau lleol ar sail swm penodol y pen. Yn 2012/13 talwyd incwm o £58,603k i'r gronfa Ardrethi Annomestig ar ôl gostyngiadau a darpariaethau (£57,981k yn 2011/12), ar sail cyfanswm gwerth ardrethol o £153,000k (£153,115k yn 2011/12).

Dadansoddi derbyniadau net o ardrethi annomestig:

	2013 £000	2012 £000
Ardrethi annomestig a gasglwyd	59,110	58,378
Namyn - Talwyd i'r gronfa Trethi Annomestig	(58,603)	(57,981)
Namyn - Cost casglu	(374)	(438)
Namyn - Cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion	(132)	41
	0	0
Derbyniwyd o'r gronfa	40,562	35,203
	40,562	35,203

Grantiau'r llywodraeth na chafodd eu neilltuo

	2013	2012
	£000	£000
Grantiau Refeniw - Cyffredinol		
Grant cynnal refeniw	143,891	149,753
Grant cytundeb gwelliannau	1,475	1,476
	145,366	151,229

	2013	2012
	£000	£000
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau		
Grantiau cyfallaf	12,914	12,739
Lwfans atgyweiriadau sylweddol	5,200	5,200
	18,114	17,939

6. DARPARIAETH AR GYFER AD-DALU BENTHYCIADAU ALLANOL

Mae adran 22 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod neilltuo darpariaeth refeniw sylfaenol ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn honno neu unrhyw flwyddyn ariannol cyn hynny. Dyma'r symiau a neilltuwyd yn 2012/13:-

	2013	2012
	£000	£000
Cyfanswm lleiafswm darpariaeth refeniw	7,578	6,403
Ailgodwyd ar y cyfrif refeniw tai	(558)	(552)
	7,020	5,851

7. ADDASIADAU RHWNG Y SAIL GYFRIFYDDU A'R SAIL GYLLIDO DAN REOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn rhoi manylion yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabuwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol i'r adnoddau y mae darpariaethau statudol yn nodi eu bod ar gael i'r Awdurdod i ateb y galw am adnoddau cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

Yr addasiad o ran ddyled ar gyfer y flwyddyn yw £35,831k (£76,654k o ddyled yn 2011/12).

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

2012/13	Balans Cronfa'r Cyngor £000	Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio: Cronfa Wrth Gefn y Cyngor £000	Cronfa Refeniw Tai £000	Cronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf £000	Grantiau Cyfalaf na Ddefnyddiwyd £000	Cronfeydd wrth gefn na ellir eu £000
Addasiadau yn ymwneud a'r Cyfrif Addasu Cyfalalf						
Gwyrdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydywyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr:						
Taliadau dibrisiant ac amhariadau yng nghyswllt asedau nad ydynt yn gyfredol	29,954	0	15,974	0	0	(45,928)
Ailbrisio colledion ar Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	18,502	0	0	0	0	(18,502)
Symudiadau yng ngwerth eiddo buddsoddi ar y farchnad	4,543	0	0	0	0	(4,543)
Amorteiddiad asedau anniriaethol	50	0	0	0	0	(50)
Cyfraniadau a grantiau cyfalaf a ddefnyddiwyd	0	0	0	0	(17,298)	17,298
Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	7,367	0	0	0	0	(7,367)
Symiau asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a ddilewyd wrth waredu neu werthu, yn rhan o'r colledion o werthu, i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	2,287	0	785	0	0	(3,072)
Buddsoddiad realised ar diddymiad o AD Waste	(3,151)	0	0	0	0	3,151
Cynnwys eitemau na ddebydwyd neu na gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr						
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddi cyfalaf	(7,052)	0	(649)	0	0	7,701
Gwariant cyfalaf a ddangosir yn erbyn balansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai	(236)	0	(4,692)	0	0	4,928
Addasiadau'n ymwneud a'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na Ddefnyddiwyd:						
Cyfraniadau a grantiau cyfalaf na ddefnyddiwyd a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	(18,114)	0	0	0	18,114	0
Addasiadau'n ymwneud a'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf						
Trosglwyddo o drafodion gwerthu arian parod fel rhan o'r elw/colled ar waredu i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	(4,983)	0	(798)	5,781	0	0
Defnydd o gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd		0	0	(6,507)	0	6,507
Cyfraniad o'r gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf tuag at gostau gweinyddol gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol	0	0	0	0	0	0
Trosglwyddo o Gronfa Wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf ar ol derbyn arian parod	0	0	0	0	0	0
Addasiadau'n ymwneud a'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:						
Y swm y mae'r costau cyllid a ddangosir yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllid sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(494)	0	(174)	0		668
Addasiadau'n ymwneud a'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau						
Y swm y mae costau pensiynau a gyfrifwyd yn unol a'r Cod (h.y. yn unol ag IAS 19) yn wahanol i'r cyfraniadau dyledus dan reoliadau'r cynllun pensiwn	1,899	0	152	0	0	(2,051)
Gwyrdroi eitemau'n ymwneud a buddion ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	0	0	0	0	0	0
Cyfraniadau pensiwn cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr a oedd yn daladwy yn ystod y flwyddyn	0	0	0	0	0	0
Addasiadau'n ymwneud a'r Cyfrif Addasu Cyflog Cyfartal:						
Y swm y mae'r symiau a ddangosir ar gyfer hawliadau cyflog cyfartal yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn wahanol i gost setliadau sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(4,310)	0	0	0	0	4,310
Addasiadau'n ymwneud a'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig						
Y swm y mae taliadau swyddogion a ddangosir yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i'r taliadau sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(1,126)	0	0	0	0	1,126
Addasiadau'n ymwneud a'r Cyfrif Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig						
Trosglwyddiad o'r Gronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf gohiriedig i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	0	0	7	0	0	(7)
Addasiad Arall						
Trosglwyddiad net i mewn neu allan o gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth	0	0	0	0	0	0
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan reoliadau	25,136	0	10,605	(726)	816	(35,831)

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

2011/12	Balans Cronfa'r Cyngor £000	Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio: Cronfa Wrth Gefn y Cyngor £000	Cronfa Refeniw Tai £000	Cronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf £000	Grantiau Cyfalaf na Ddefnyddiwyd £000	Cronfeydd wrth gefn na ellir eu £000
Addasiadau yn ymwneud a'r Cyfrif Addasu Cyfalalf						
Gwyrdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydywyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr:						
Taliadau dibrisiant ac amhariadau yng nghyswllt asedau nad ydynt yn gyfredol	32,643	0	23,792	0	0	(56,435)
Ailbrisio colledion ar Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	29,897	0	0	0	0	(29,897)
Symudiadau yng ngwerth eiddo buddsoddi ar y farchnad	(1,261)	0	0	0	0	1,261
Amorteiddiad asedau anniriaethol	(15)	0	15	0	0	0
Cyfraniadau a grantiau cyfalaf a ddefnyddiwyd	0	0	0	0	(23,898)	23,898
Symudiadau yn y Cyfrif Asedau a Roddwyd	0	0	0	0	0	0
Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	7,741	0	50	0	0	(7,791)
Symiau asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a ddilewyd wrth waredu neu werthu, yn rhan o'r colledion o werthu, i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	(42)	0	0	0	0	42
Cynnwys eitemau na ddebydwyd neu na gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr						
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddi cyfalaf	(6,281)	0	(552)	0	0	6,833
Gwariant cyfalaf a ddangosir yn erbyn balansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai	(1,288)	(457)	(2,714)	0	0	4,459
Addasiadau'n ymwneud a'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na Ddefnyddiwyd:						
Cyfraniadau a grantiau cyflaf na ddefnyddiwyd a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	0	0	0	0	0	0
Defnyddio grantiau yng nghyswllt duliau ariannu cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf	(17,939)	0	0	0	17,939	0
Addasiadau'n ymwneud a'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf:						
Trosglwyddo o drafodion gwerthu arian parod fel rhan o'r elw/colled ar waredu i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr						
Defnydd o gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	0	0	0	(153)	0	153
Cyfraniad o'r gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf tuag at gostau gweinyddol gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol						
Trosglwyddo o Gronfa Wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf ar ol derbyn arian parod						
Addasiadau'n ymwneud a'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:						
Y swm y mae'r costau cyllid a ddangosir yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllid sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	0	0	(132)	0	0	132
Addasiadau'n ymwneud a'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau						
Y swm y mae costau pensiynau a gyfrifwyd yn unol a'r Cod (h.y. yn unol ag IAS 19) yn wahanol i'r cyfraniadau dyledus dan reoliadau'r cynllun pensiwn	350	0	0	0	0	(350)
Gwyrdroi eitemau'n ymwneud a buddion ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	0	0	1,105	0	0	(1,105)
Cyfraniadau pensiwn cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr a oedd yn daladwy yn ystod y flwyddyn	0	0	(977)	0	0	977
Addasiadau'n ymwneud a'r Cyfrif Addasu Cyflog Cyfartal:						
Y swm y mae'r symiau a ddangosir ar gyfer hawliadau cyflog cyfartal yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn wahanol i gost setliadau sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	3,545	0	0	0	0	(3,545)
Addasiadau'n ymwneud a'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig						
Y swm y mae taliadau swyddogion a ddangosir yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i'r taliadau sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	102	0	38	0	0	(140)
Addasiad Arall						
Trosglwyddiad net i mewn neu allan o gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth	15,146	0	0	0	0	(15,146)
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan reoliadau	62,598	(457)	20,625	(153)	(5,959)	(76,654)

* Addasiad cyfnod blaenorol - gweler Nodyn 44. Yng nghyfrifon 2011/12 y taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn gyfredol ei gofnodi fel £43,683k.

8. PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu trafodion arwyddocaol gyda phartïon cysylltiedig, h.y. cyrff neu unigolion a allai reoli'r Cyngor neu ddylanwadu arno, neu a allai gael eu rheoli neu'u dylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodion hyn yn caniatáu i ddarllenwyr asesu faint y mae'r Cyngor wedi cael ei gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol, neu a fyddai'n medru cyfyngu ar barti arall fargeinio'n rhydd â'r Awdurdod.

- Mae Llywodraeth Cymru yn dylanwadu'n sylweddol ar y Cyngor drwy ddeddfwriaeth a grantiau – mae'n gyfrifol am ddarparu fframwaith statudol ar gyfer gwaith yr Awdurdod, mae'n darparu'r rhan fwyaf o'r cyllid ar ffurf grantiau ac mae'n rhagnodi telerau nifer o'r trafodion rhwng yr Awdurdod a phartïon eraill fel biliau'r dreth gyngor a budd-daliadau tai. Trafodion perthnasol yw'r rheini a nodir yn nodn 5, a cheir rhagor o gymorth grant (refeniw) i wahanol wasanaethau gwerth £37,686k (£38,267k yn 2011/12), gan gynnwys dyledwyr diwedd blwyddyn o £2,636k.
- Drafodion perthnasol gydag aelodau o'r Cyngor ystod 2012/13 i gyfanswm o £584k (£528k yn 2011/12) oedd swm y trafodion perthnasol gydag aelodau'r Cyngor yn 2012/13 gan gynnwys credydwyr diwedd blwyddyn o £19k. Mae hyn yn seiliedig ar ffurflen a dderbyniwyd gan o bob 70 o aelodau. Mae un aelod o'r Cyngor ei benodi yn mis Mawrth 2011 fel comisiynydd i redeg Cyngor Sir Ynys Môn. Trafodion gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar gyfer arferol busnes y Cyngor gyfanswm o £570k yn 2012/13 (£368k yn 2011/12), gan gynnwys credydwyr diwedd blwyddyn o £67k. Mae buddiannau personol yr holl aelodau wedi'u cofrestru yn y Gofrestr Gyhoeddus o Fuddiannau Aelodau, yn unol â'r gyfraith a Chod Ymarfer y Cyngor. Mae'r Gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei gweld drwy gysylltu â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yng Nghyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug.
- Roedd cyfanswm y trafodion perthnasol gydag uwch swyddogion y Cyngor yn ystod 2012/13 yn £124k. Mae'r Pennaeth Cyllid yn gysylltiedig â'r Rheolwr Swyddfa Trafnidiaeth Gymunedol y Gororau a dderbyniodd ariangrant gan y Cyngor, ac mae'r Pennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid yn gyfarwyddwr anweithredol gwirfoddol Cymdeithas y Rheolwyr TG.
- Cyfanswm y praeseptau a'r ardollau i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru oedd £20,041k (£19,757kyn 2011/12); cyfanswm y praeseptau i'r 34 cyngor cymuned/tref oedd £2,247k (£2,191k yn 2011/12).
- Mae manylion y trafodion gyda'r Gronfa Bensiynau i'w cael yn nodyn 4 ar dudalennau 31 i 33, ac yng nghyfrifon y Gronfa Bensiwn ar dudalennau 78 i 104.

9. FFÏOEDD ARCHWILIO

£496k oedd cyfanswm y ffioedd archwilio ac arolygu a oedd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn (£495k yn 2011/12). Darparwyd gwasanaethau archwilio allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

	2013	2012
	£000	£000
Ffioedd ar gyfer y cyfrifon	216	216
Ffioedd ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol	140	127
Ffioedd ar gyfer grantiau	140	152
	496	495

10. GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae Cyngor Sir y Fflint yn un o chwe phartner yn Asiantaeth Priffyrdd Gogledd Cymru, ynghyd â Chynghorau Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd a Wrecsam. Mae cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd yng Nghyngor Sir y Fflint yn ymgymryd â gwaith priffyrdd ar ran yr Asiantaeth Priffyrdd i Lywodraeth Cymru.

Ad-dalwyd £2,280k (£2,063k yn 2011/12) am waith a wnaed o dan gytundeb yr Asiantaeth Priffyrdd. Mae incwm a gwariant yn ymwneud â Chytundeb yr Asiantaeth Priffyrdd wedi'i gynnwys yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ar ôl didynnu cyfanswm cost y gwasanaethau.

Mae chwe Chyngor Gogledd Cymru yn gweithredu fel asiantau Llywodraeth Cymru drwy ddarparu benthyciadau y gellir eu hailgylchu o fewn Cynllun Troi Tai'n Gartrefi. Mae hyn ar gyfer atgyweirio eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir gyda'r bwriad o wneud defnydd ohono unwaith eto. Mae Cyngor Sir y Fflint yn awdurdod arweinio/ banc i ranbarth y Gogledd ac yn gyfrifol am weinyddu'r gronfa. Cafwyd incwm cyfan o £2,332k gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2012/13 gyda thaliadau yn erbyn y swm yma o £1,847k. Cafodd Cyngor Sir y Fflint £529k o'r swm.

11. TÂL SWYDDOGION

Mae rheoliad 7A y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Gwelliant) 2010 yn gofyn datgeliad (o fewn bandiau o £5,000) y nifer o weithwyr y mae eu cyflog yn mynd heibio £60,000. Mae hyn yn cynnwys pob swm a dalwyd neu sy'n ddyledus i'r gweithiwr yn cynnwys tâl dod â chyflogaeth i ben, lwfansau treuliau trethadwy, a gwerth ariannol buddion eraill:

	2013		2012	
Band Cyflog	**Heb fod mewn ysgolion**	**Ysgolion**	**Heb fod mewn ysgolion**	**Ysgolion**
	No.	**No.**	**No.**	**No.**
£60,000 - £64,999	1	18	2	13
£65,000 - £69,999	5	4	7	5
£70,000 - £74,999	4	4	10	3
£75,000 - £79,999	2	1	2	1
£80,000 - £84,999	5	4	1	3
£85,000 - £89,999	0	0	0	0
£90,000 - £94,999	1	2	0	2
£95,000 - £99,999	2	0	2	0
£100,000 - £104,999	1	0	0	0
£105,000 - £109,999	0	0	0	0
£110,000 - £114,999	1	0	1	0
£115,000 - £119,999	1	0	0	0
£120,000 - £124,999	0	0	0	0
£125,000 - £129,999	0	0	0	0
£130,000 - £134,999	0	0	0	0
£135,000 - £139,999	0	0	1	0
£140,000 - £144,999	0	0	0	0
£145,000 - £149,999	0	0	0	0
£150,000 - £154,999	0	0	0	0
£155,000 - £159,999	0	0	1	0
£160,000 - £164,999	1	0	1	0
	24	33	28	27

Maer wybodaeth wedi ei llunio ar sail gofynion y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, ac arweiniad cysylltiedig CIPFA; mae rhifau 2012/13 yn cynnwys 4 o weithwyr dros dro yn llenwi mewn swyddi parhaol. Mae pob rhif tu allan i ysgolion yn cynnwys swyddi uwch weithwyr a restrir ar dudalen 42. Nid yw'r gwerthoedd band yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, a gafodd eu cyfrif ar gyfer 2012/ 13 ar gyfradd o 14.1% i athrawon a 22.5% ar gyfer gweithwyr eraill.

Roedd Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 yn cyflwyno gofyniad i ddatgelu manylion taliadau unigol ar gyfer uwch weithwyr fesul swydd lle mae'r cyflog rhwng £60,000 a £150,000 ac yn ôl enw lle mae'r cyflog yn fwy na £150,000. Diffinnir uwch weithwyr ar gyfer dibenion datgelu fel y prif weithredwr, y cyfarwyddwyr strategol, y prif swyddog statudol a phersonau y mae'r prif weithredwr yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt.

Teitl Swydd	Nodyn	Cyflog Pensiynadwy £	Lwfans treuliau £	Cyfanswm taliadau ac eithrio cyfraniadau pensiwn £	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr £	Cyfanswm taliadau gan gynnwys cyfraniadau pensiwn £
2012/13						
Prif Weithredwr (Colin Everett)	**1**	159,597	0	**159,597**	35,909	**195,506**
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd		97,328	0	**97,328**	21,899	**119,227**
Gwasanaethau Cymunedol		91,437	0	**91,437**	20,400	**111,837**
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes		97,328	0	**97,328**	21,899	**119,227**
Pennaeth Cyllid		81,960	0	**81,960**	18,441	**100,401**
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	**2**	76,917	0	**76,917**	16,744	**93,661**
Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol		74,063	0	**74,063**	15,608	**89,671**
Pennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid	**3**	80,679	0	**80,679**	18,009	**98,688**
		759,309	0	**759,309**	168,909	**928,218**
2011/12 (gwybodaeth gymharol)						
Prif Weithredwr (Colin Everett)	**1**	156,302	80	**156,382**	35,168	**191,550**
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd		97,328	0	**97,328**	21,899	**119,227**
Gwasanaethau Cymunedol	**4**	62,776	0	**62,776**	14,124	**76,900**
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes		97,328	0	**97,328**	21,899	**119,227**
Pennaeth Cyllid		81,960	0	**81,960**	18,411	**100,371**
Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol		69,154	0	**69,154**	15,560	**84,714**
Pennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid	**3**	75,557	0	**75,557**	17,000	**92,557**
		640,405	80	**640,485**	144,061	**784,546**

Nodyn 1 : Mae'r cyflog pensiynadwy yn cynnwys tal yn ymwneud ag (a) rol swyddog canlyniadau mewn etholiadau cenedlaethol a lleol (ad-delir y costau'n gan y llywodraeth berthnasol), a (b) rol clerc i Awdurdod Tan ac Achub y Gogledd (ad-delir y costau gan y corff hwnnw). Y cyflog sylfaenol (heb ei adolygu a'i newid ers 2007) yw £131,233.

Nodyn 2 : Dechreuodd fis Ebrill 2012. Nid yw trefniadau dros dro/interim cyn y penodiad wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad cymharol. Mae'r cyflog pensiynadwy yn cynnwys tâl yn ymwneud a rôl fel Dirprwy Glerc i Awdurdod Tân ac Achub y Golgedd (ad-delir costau gan y corff hwnnw).

Nodyn 3 : Mae'r cyflog pensiynadwy yn cynnwys tâl am gyfrifoldebau ychwanegol (Prif Weithredwr Cynorthwyol ar gyfer Newid Sefydliadol).

Nodyn 4 : Dechreuwyd Gorffennaf 2011.

Pecynnau Ymadael

Mae gofyn i'r Cyngor ddatgelu (mewn bandiau £20,000) y nifer o becynnau gadael y cytunwyd a chost y pecynnau hynny i'r awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r cyfansymiau a ddadlennir yn cynnwys taliadau diswyddo, straen pensiynau (gan gynnwys cyfandaliadau athrawon).

Mae'r costau gadael sy'n codi yn 2013/14, lle bo'r Awdurdod yn amlwg wedi ei ymrwymo iddynt ar 31 Mawrth 2013, yn cael eu cynnwys yn y datgeliad.

Mae nifer y pecynnau gadael gyda chyfanswm cost fesul band a chyfanswm cost y diswyddo gorfodol neu fel arall wedi eu nodi yn y tabl isod :-

Cost Pecynnau Gadael	Diswyddo Gorfodol		Gadael am resymau eraill		Cyfanswm y pecynnau gadael fesul cost		Cyfanswm y pecynnau gadael ym mhob band	
	2012/13	2011/12	2012/13	2011/12	2012/13	2011/12	2012/13	2011/12
	No.	No.	No.	No.	No.	No.	£	£
£0 - £20,000	16	37	13	26	29	63	147,931	391,215
£20,001 - £40,000	5	5	5	11	10	16	271,494	465,060
£40,001 - £60,000	0	1	4	9	4	10	184,487	471,003
£60,001 - £110,000	1	0	2	2	3	2	238,997	162,125
	22	43	24	48	46	91	842,909	1,489,403

12. PRYDLESU

Rhenti deiliaid prydles

Prydlesi Cyllid -

Mae'r Cyngor wedi caffael nifer o gerbydau, peiriannau ac eitemau o gyfarpar dan brydlesi cyllid. Caiff yr asedau a gafaelwyd dan y prydlesi hyn eu dangos fel Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar yn y Fantolen, ar sail y symiau net a ganlyn:

	2013	2012
Dosbarthiad Asedau	**£000**	**£000**
Cerbydau, peiriannau a chyfarpar	7,941	5,987
	7,941	5,987

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud y taliadau gofynnol dan y prydlesi hyn, ac mae hynny'n cynnwys bodloni'r rhwymedigaeth hirdymor am y budd yn yr eiddo, y peiriannau a'r cyfarpar a gafaelwyd gan y Cyngor, a thalu'r costau cyllid y bydd angen i'r Cyngor eu talu yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod tra bydd y rhwymedigaeth yn ddyledus. Mae taliadau gofynnol prydlesi yn cynnwys y symiau canlynol, a bydd £556k yn dod yn ddyledus yn ystod y 12 mis nesaf (y swm cyfatebol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol oedd £414k).

	2013	Ad-dalwyd	Newydd	2012
	£000	£000	£000	£000
Rhwymedigaethau prydlesi cyllid (heb gynnwys gwerth cyfredol y taliadau prydles sylfaenol):				
Cyfredol	556	47	189	414
Heb fod yn gyfredol	7,552	439	2,418	5,573
	8,108	486	2,607	5,987
Costau cyllid sy'n daladwy yn y dyfodol	5,496	701	2,177	4,020
Isafswm taliadau prydles	13,604	1,187	4,784	10,007

Isafswm taliadau prydles - y swm isaf y gellir disgwyl i ddeiliaid prydlesi dalu dros oes y brydles
Rhwymedigaethau prydlesi cyllid - yr elfen cyfalaf yn y taliadau prydles sylfaenol
Costau Cyllid - yr elfen llog yn y taliadau prydles sylfaenol

Bydd taliadau gofynnol prydlesi a rhwymedigaethau prydlesi cyllid yn daladwy dros y cyfnodau a ganlyn:

	Lleiafswm Taliadau Prydles		Rhwymedigaethau Prydlesi Cyllid	
	2013	2012	2013	2012
	£000	£000	£000	£000
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	1,281	947	556	414
Yn hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	5,577	4,234	2,706	2,146
Yn hwyrach na phum mlynedd	6,746	4,826	4,846	3,427
	13,604	10,007	8,108	5,987

Prydlesi Gweithredu -

Yn 2012/13, roedd y rhenti prydlesi gweithredu a dalwyd yn cyfateb i £1,908k (£1,760k yn 2011/12).

Dosbarthiad Asedau	2012 £000	2011 £000
Tir	55	23
Adeiladau	152	140
Cerbydau, peiriannau a chyfarpar	1,701	1,597
	1,908	1,760

Dyma'r taliadau gofynnol prydlesi a fydd yn ddyledus dan brydlesi gweithredu yn ystod y blynyddoedd nesaf:

	Tir	Adeiladau	Cerbydau, peiriannau a chyfarpar	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	37	152	1,181	1,370
Yn hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	70	562	1,872	2,504
Yn hwyrach na phum mlynedd*	952	445	0	1,397
	1,059	1,159	3,053	5,271

* Caiff unrhyw gytundebau penagored eu cyfrifo i 2021/22 yn unol â chyfartaledd oes cyffredinol y prydlesi hwyaf

Rhenti Prydleswr

Prydlesi Gweithredu –

Mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo dan brydlesi gweithredu, yn bennaf at ddibenion datblygu economaidd. Yn 2012/13, roedd y rhenti prydlesi derbyniadwy'n cyfateb i £2,387k (£2,286k yn 2011/12).

Mae taliadau gofynnol prydlesi sy'n dderbyniadwy dan brydlesi gweithredu yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod fel a ganlyn:

	Tir	Adeiladau	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	226	2,181	2,407
Yn hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	916	6,599	7,515
Yn hwyrach na phum mlynedd*	11,444	12,368	23,812
	12,586	21,148	33,734

* Caiff unrhyw gytundebau penagored eu cyfrifo i 2029/30 yn unol â chyfartaledd oes cyffredinol y prydlesi

Prydlesi Cyllid –

Nid yw'r Cyngor yn prydlesu unrhyw eiddo ar sail prydlesi cyllid.

13. LWFANSAU AELODAU

Cafodd lwfansau gwerth cyfanswm o £1,347k (sy'n cynnwys taliadau pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr) eu talu i aelodau'r Cyngor yn 2012/13 (£1,363k yn 2011/12) yn cynnwys £6k a dalwyd I gyn-aelodau'r Cyngor na ddychwelodd i'w seddi yn dilyn etholiadau Mai 2012.

	2013 £000	2012 £000
Lwfans sylfaenol	921	913
Lwfans cyfrifoldeb arbennig	228	264
Lwfans gofal	0	3
Yswiriant gwladol cyflogwr	85	89
Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr *	57	38
Treuliau'r aelodau *	56	56
	1,347	1,363

* Mae ffigurau 2011/2012 wedi cael eu hailddatgan i gynnwys symiau ychwanegol o gostau pensiwn y cyflogwr a threuliau'r Aelodau mewn perthynas â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor, na chafodd eu cynnwys yng nghyfrifon y llynedd. Mae'r cyfansymiau yr adroddwyd arnynt yng nghyfrifon y llynedd yn £36k ar gyfer costau pensiwn y cyflogwr a £46k ar gyfer treuliau'r Aelodau.

Mae'r lwfansau a dalwyd yn perthyn i'r bandiau canlynol :-

Band Lwfans	2013 Nifer yr Aelodau	2012 Nifer yr Aelodau
£10,000 - £14,999	41	46
£15,000 - £19,999	11	3
£20,000 - £24,999	7	8
£25,000 - £29,999	7	4
£30,000 - £34,999	1	5
£35,000 - £39,999	0	3
£40,000 - £44,999	2	0
£45,000 - £49,999	0	0
£50,000 - £54,999	0	1
£55,000 - £59,999	1	0
	70	70

14. GWEITHREDIADAU MASNACHU

Ym mis Ionawr 2000, dilëwyd y gofynion statudol a oedd yn ymwneud â chyfrifon ac adroddiadau ar gyfer sefydliadaugwasanaethau uniongyrchol, ac nid yw'n ofynnol bellach cadw cyfrifon masnachu ar gyfer gwasanaethau

15. DEDDF GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

Mae gan y Cyngor gytundeb â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn unol ag Adran 33 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, i ddarparu gwasanaeth cyfarpar cymunedol integredig dan drefniant ariannu ar y cyd. Staff Cyngor Sir y Fflint (fel y partner cynnal) sy'n darparu'r gwasanaeth yn Uned 3, Ystâd Ddiwydiannol Penarlâg, Penarlâg.

Partneriaeth	**2013 £000**	**2012 £000**
Gwariant gros	1,043	1,013
Incwm gros	(1,054)	(1,020)
(Gwarged) / diffyg am y flwyddyn	(11)	(7)
Cyfraniad i'r Gyllideb		
Cyngor Sir y Fflint	406	362

Mae Uned 3, sydd yn Sir y Fflint, yn eiddo ar y cyd i Gyngor Sir y Fflint (50.25%) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (49.75%), a rhoddwyd gwerth o £907,000 ar y safle; caiff y safle ei gynnwys ym mantolen Cyngor Sir y Fflint (fel y partner cynnal):-

Prisio	**Gros £000**	**Net £000**	**%**
Cyngor Sir y Fflint	456	447	50.25
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	451	442	49.75
	907	889	100.00

16. ASEDAU ANNIRIAETHOL

	Trwyddedau Meddalwedd	**2013 Gwariant Datblygu**	**Cyfanswm**	**Trwyddedau Meddalwedd**	**2012 Gwariant Datblygu**	**Cyfanswm**
	£000	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**
Balans ar 1 Ebrill						
Gwerth llyfr gros	463	549	1,012	243	549	792
Amorteiddio cronnus	(65)	(215)	(280)	(28)	(136)	(164)
Gwerth llyfr net	398	334	732	215	413	628
Ychwanegiadau	101	58	159	220	0	220
Amorteiddiad ar gyfer y cyfnod *	(116)	(78)	(194)	(37)	(79)	(116)
Balans ar 31 Mawrth	383	314	697	398	334	732
Yn Cynnwys						
Gwerth llyfr gros	564	607	1,171	463	549	1,012
Amorteiddio cronnus	(181)	(293)	(474)	(65)	(215)	(280)
Cyfanswm	383	314	697	398	334	732

* Amorteiddiad ychwanegol yn deillio o ailddosbarthu'r asedau anniriaethol presennol o ddatblygu i drwyddedau meddalwedd.

Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio o'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl eu caffael, yn unol â'r polisi cyfrifyddu cysylltiedig, fel y mae wedi'i gynnwys ar dudalen 21. Mae'r amorteiddiad o £194k a ddangoswyd yn y cyfrif refeniw yn 2012/13 (£116k yn 2011/12) wedi'i gynnwys fel cost barhaus ym mhob pennawd gwasanaeth yng Nghost y Gwasanaethau. Nid yw'n bosibl mesur faint yn union o'r amorteiddiad sydd i'w briodoli i bob pennawd gwasanaeth.

17. EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR

Symudiadau 2012/13

	Anheddau a garejys y Cyngor	Tir ac Adeiladau Eraill	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn a Chyfarpar	Asedau dros ben	Asedau Seilwaith	Asedau Cymunedol	Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cost neu Brisiad								
Ar 1 Ebrill, 2012	281,509	376,343	42,643	6,967	200,535	11,439	5,204	924,640
Ychwanegwyd	10,742	7,011	5,539	0	5,975	55	2,585	31,907
Gwaredwyd	0	0	0	0	0	0	0	0
Ailddosbarthwyd	(550)	(2,746)	6,863	1,126	0	(6,863)	0	(2,170)
Ailbrisiwyd	(10,809)	(30,558)	23	(2,568)	0	118	(7,245)	(51,039)
Ar 31 Mawrth 2013	280,892	350,050	55,068	5,525	206,510	4,749	544	903,338
Dibrisiant ac amhariadau								
Ar 1 Ebrill, 2012	(5,225)	(87,972)	(31,171)	(15)	(46,916)	(1,761)	0	(173,060)
Tâl dibrisiant 2012/13	(5,208)	(8,552)	(3,746)	0	(5,172)	0	0	(22,678)
Tâl amhariad 2012/13	(185)	(308)	(671)	(99)	0	(11)	0	(1,274)
Gwaredwyd	0	0	0	0	0	0	0	0
Ailddosbarthwyd	0	432	(1,739)	(177)	0	1,739	0	255
Ailbrisiwyd	24	17,661	0	177	0	4	0	17,866
Ar 31 Mawrth 2013	(10,594)	(78,739)	(37,327)	(114)	(52,088)	(29)	0	(178,891)
Mantolen ar 31 Mawrth 2013	270,298	271,311	17,741	5,411	154,422	4,720	544	724,447
Ex asedau AD Waste *	0	972	781	0	0	0	0	1,753
Mantolen ar 31 Mawrth	270,298	272,283	18,522	5,411	154,422	4,720	544	726,200
Mantolen ar 1 Ebrill 2012	276,284	291,283	12,458	6,952	153,619	9,678	5,691	755,965
Natur yr Ased								
Perchnogaeth y Cyngor	270,298	272,283	10,581	5,411	154,422	4,720	544	718,259
Prydles gyllid	0	0	7,941	0	0	0	0	7,941
Menter Cyllid Preifat	0	0	0	0	0	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2013	270,298	272,283	18,522	5,411	154,422	4,720	544	726,200

* Hailbrisio yn ystod 2012/13. Gweler Nodyn 44.

Symudiadau 2011/12

	Anheddau a garejys y Cyngor	Tir ac Adeiladau Eraill	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn a Chyfarpar	Asedau dros ben	Asedau Seilwaith	Asedau Cymunedol	Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cost neu Brisiad								
Ar 1 Ebrill, 2011	305,432	470,006	33,877	9,032	195,677	10,920	12,025	1,036,969
Ychwanegwyd	10,348	7,303	7,779	0	4,858	519	3,991	34,798
Gwaredwyd	(118)	0	0	(275)	0	0	0	(393)
Ailddosbarthwyd	0	(137)	450	7,118	0	0	0	7,431
Ailbrisiwyd	(34,153)	(100,829)	537	(8,908)	0	0	(10,812)	(154,165)
Ar 31 Mawrth 2012	281,509	376,343	42,643	6,967	200,535	11,439	5,204	924,640
Dibrisiant ac amhariadau								
Ar 1 Ebrill,2011	(12,146)	(128,574)	(27,922)	(1,113)	(41,661)	(1,462)	(10,812)	(223,690)
Tâl dibrisiant 2011/12	(5,216)	(5,245)	(1,630)	0	(5,255)	(299)	0	(17,645)
Tâl amhariad 2011/12	0	0	(1,082)	0	0	0	0	(1,082)
Gwaredwyd	0	0	0	0	0	0	0	0
Ailddosbarthwyd	0	0	0	0	0	0	0	0
Ailbrisiwyd	12,137	45,847	(537)	1,098	0	0	10,812	69,357
Ar 31 Mawrth 2012	(5,225)	(87,972)	(31,171)	(15)	(46,916)	(1,761)	0	(173,060)
Mantolen ar 31 Mawrth	276,284	288,371	11,472	6,952	153,619	9,678	5,204	751,580
Caffaelwyd o brynu AD Waste *	0	2,912	986	0	0	0	487	4,385
Mantolen ar 31 Mawrth	276,284	291,283	12,458	6,952	153,619	9,678	5,691	755,965
Mantolen ar 1 Ebrill 2011	293,286	344,344	6,941	7,919	154,016	9,458	1,700	817,664
Natur yr Ased								
Perchnogaeth y Cyngor	276,284	291,283	6,471	6,952	153,619	9,678	5,691	749,978
Prydles gyllid	0	0	5,987	0	0	0	0	5,987
Menter Cyllid Preifat	0	0	0	0	0	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2012	276,284	291,283	12,458	6,952	153,619	9,678	5,691	755,965

Addasiad cyfnod blaenorol - gweler Nodyn 44. Yng nghyfrifon 2011/12 Tir ac Adeiladau Eraill ei gofnodi fel £303,972k.

- Anheddau'r Cyngor, tir ac adeiladau eraill, cerbydau, peiriannau, dodrefn a chyfarpar a gedwir, a ddelir neu a ddefnyddir gan yr Awdurdod, neu a gaiff eu contractio i'w defnyddio ar ran yr Awdurdod, neu'u defnyddio i ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys anheddau ac eiddo arall ym maes tai, adeiladau swyddfeydd, ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau chwaraeon a phyllau nofio, cartrefi preswyl/canolfannau dydd, depos a gweithdai, adeiladau mynwentydd, meysydd parcio oddi ar y stryd, cerbydau, peiriannau mecanyddol, gosodion a ffitiadau a chyfarpar arall.
- Asedau diymwad yw asedau seilwaith, a'r unig ffordd y gellir adennill y gwariant arnynt yw drwy barhau i ddefnyddio'r ased a grëwyd, h.y. nid oes gobaith ei werthu na gwneud defnydd arall ohono. Mae'r asedau hyn yn cynnwys priffyrdd, llwybrau troed, pontydd, cyfleusterau dŵr a draenio ac amddiffynfeydd arfordirol.
- Asedau cymunedol yw asedau y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cadw am byth, nad oes iddynt oes ddefnyddiol y gellir ei phennu, ac y gallai cyfyngiadau ar y modd y gellir cael gwared arnynt fod yn berthnasol hefyd. Nid oes fawr o obaith eu gwerthu na newid y defnydd a wneir ohonynt. Maent yn cynnwys parciau a mannau agored, caeau chwarae, ardaloedd chwarae a thir mynwentydd.

18. EIDDO BUDDSODDI A'R YSTÂD AMAETHYDDOL

Symudiadau 2012/13

	Eiddo Buddsoddi £000	Ystadau Amaethyddol £000	Cyfanswm £000
Cost neu Brisiad			
Ar 1 Ebrill, 2012	28,550	13,278	41,828
Ychwanegwyd	24	0	24
Gwaredwyd	0	0	0
Ailddosbarthwyd	(1,745)	(555)	(2,300)
Ailbrisiwyd	(5,166)	0	(5,166)
Ar 31 Mawrth 2013	21,663	12,723	34,386
Dibrisiant ac amhariadau			
Ar 1 Ebrill, 2012	(587)	0	(587)
Tâl dibrisiant 2012/13	0	0	0
Tâl amhariad 2012/13	0	0	0
Gwaredwyd	0	0	0
Ailddosbarthwyd	(255)	0	(255)
Ailbrisiwyd	587	0	587
	(255)	0	(255)
Mantolen ar 31 Mawrth 2013	21,408	12,723	34,131
* Ex asedau AD Waste	45	0	45
Mantolen ar 31 Mawrth	21,453	12,723	34,176
Mantolen ar 1 Ebrill 2012	28,008	13,278	41,286
Natur yr Ased			
Perchnogaeth y Cyngor	21,453	12,723	34,176
Prydles gyllid	0	0	0
Menter Cyllid Preifat	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2013	21,453	12,723	34,176

* Hailbrisio yn ystod 2012/13. Gweler Nodyn 43.

Symudiadau 2012/13

	Eiddo Buddsoddi	Ystadau Amaethyddol	Cyfanswm
Cost neu Brisiad			
Ar 1 Ebrill, 2011	31,038	14,864	45,902
Ychwanegwyd	261	0	261
Gwaredwyd	0	(1,215)	(1,215)
Ailddosbarthwyd	0	0	0
Ailbrisiwyd *	(2,749)	(371)	(3,120)
Ar 31 Mawrth 2012	28,550	13,278	41,828
Dibrisiant ac amhariadau			
Ar 1 Ebrill, 2011	(4,178)	(371)	(4,549)
Tâl dibrisiant 2011/12	0	0	0
Tâl amhariad 2011/12	0	0	0
Gwaredwyd	0	0	0
Ailddosbarthwyd	0	0	0
Ailbrisiwyd	3,591	371	3,962
	(587)	0	(587)
Mantolen ar 31 Mawrth 2012	27,963	13,278	41,241
Caffaelwyd o brynu AD Waste	146	0	146
Mantolen ar 31 Mawrth	28,109	13,278	41,387
Mantolen ar 1 Ebrill 2011	27,006	14,493	41,499
Natur yr Ased			
Perchnogaeth y Cyngor	28,109	13,278	41,387
Prydles gyllid	0	0	0
Menter Cyllid Preifat	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2012	28,109	13,278	41,387

* Addasiad y cyfnod blaenorol - gweler Nodyn 44. Yng nghyfrifon 2011/12 Eiddo buddsoddi yn cael eu cofnodi fel £ 28,172

19. PRISIO ASEDAU

Prisio asedau nad ydynt yn asedau cyfredol

Cafodd yr eiddo rhydd-ddaliol a phrydlesol sydd ym mhortffolio eiddo'r Awdurdod ei brisio'n unol â Datganiadau o Arferion Prisio Asedau a Nodiadau Cyfarwyddyd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, a Chanllaw CIPFA i Gofrestrau Asedau. Caiff y gwahanol fathau o eiddo eu dosbarthu i grwpiau amrywiol yn ôl Cod Ymarfer 2010/11 ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Rhaid ailbrisio holl asedau'r Awdurdod bob pum mlynedd, ac roedd 2010/11 yn ddechrau cylch newydd pum mlynedd. Yn ystod 2012/13 ailbrisiwyd oddeutu 25% o'r asedau nad ydynt yn anheddau, er y caiff newidiadau pwysig i brisiadau eu haddasu wrth iddynt ddigwydd. Mae'r broses brisio yn cynnwys adolygiadau o amhariadau i gydymffurfio â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 36.

Cafodd anheddau a garejis y Cyngor eu prisio ar sail gwerth eu defnydd presennol fel tai cymdeithasol. Caiff pob eiddo, peiriant a chyfarpar ei brisio'n awr ar sail gwerth teg (fel sy'n ofynnol wrth weithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 16, ac eithrio asedau seilwaith, asedau cymunedol ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu, a gaiff eu prisio ar sail cost hanesyddol.

Mae eiddo buddsoddi a'r ystâd amaethyddol hefyd wedi'u prisio ar sail gwerth teg yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 40. Cafodd yr asedau hynny a gafodd eu cynnwys ar sail gwerth teg eu prisio gan briswyr mewnol ac allanol -

Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar -	
Garejys a Thai y Cyngor	Paula M. Blellock BSc (Hons) MRICS Cyngor Sir y Fflint
Anheddau Cyngor	Heb fod yn berthnasol yn y flwyddyn ariannol hon
Cartrefi Preswyl	Heb fod yn berthnasol yn y flwyddyn ariannol hon
Tir ac Adeiladu gweithredol eraill	Paula M. Blellock BSc (Hons) MRICS, Paul Brockley BSc (Hons) MRICS, John Allen MRICS, Lisa McLellan BSc (Hons) MRICS oll yng Nghyngor Sir y Fflint
Asedau Anweithredol	
Eiddo Buddsoddi	Paula M. Blellock BSc (Hons) MRICS Cyngor Sir y Fflint
Ystâd Amaethyddol	Heb fod yn berthnasol yn y flwyddyn ariannol hon

Darperir ar gyfer dibrisiant llinell syth ar bob ased nad yw'n ased cyfredol, ac iddo oes ddefnyddiol gyfyngedig, ac eithrio tir nad oes modd ei ddibrisio ac eiddo buddsoddi anweithredol yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 16 a Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 40. Seilir y ffigur ar brisiadau mantolen agoriadol 2012/13, gan ragdybio nad oes dim gwerthoedd gweddilliol i bob ased nad yw'n ased cyfredol, a chan amrywio'r gwerthoedd ar gyfer oes ddefnyddiol ar draws y portffolio. Os yw'r ased yn cynnwys dwy neu ragor o gydrannau mawr, ac os yw oes economaidd ddefnyddiol y naill yn wahanol iawn i'r llall, rhoddwyd cyfrif ar wahân am bob cydran. Pennwyd lefel pwysigrwydd ar gyfer cydrannu, sef asedau unigol gwerth £2.5 miliwn neu fwy; a nodwyd mai cydrannau sylweddol yw cydrannau sy'n cyfateb i 20% o werth unrhyw ased pwysig. Mae manylion am oes ddefnyddiol at ddibenion dibrisio wedi eu cynnwys yn y Polisïau Cyfrifyddu ar dudalen 18.

Caiff cerbydau, peiriannau, dodrefn a chyfarpar eu prisio ar sail cost hanesyddol, sef £18,522k, ar ôl dibrisiant (£12,458k yn 2011/12).

20. GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Mae cyfanswm y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn i'w weld yn y tabl ar dudalen 51 (gan gynnwys gwerth yr asedau a gafwyd o dan brydlesu cyllid), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. (Os yw'r gwariant cyfalaf i'w ariannu yn y dyfodol drwy godi ar refeniw wrth i'r Awdurdod ddefnyddio asedau, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y gofynion ariannu cyfalaf, mesur o'r gwariant cyfalaf hanesyddol yr Awdurdod sydd heb ei ariannu).

Ymrwymiadau'r dyfodol

Ar 31 Mawrth, 2013, mae blaenraglen cyfalaf y Cyngor ar gyfer y pedair blynedd nesaf yn cynnwys (ymysg cynlluniau rhaglenni dangosol eraill), ymrwymiadau penodol sylweddol o ran:

- Gwaith moderneiddio ysgolion (£37,411k)
- Benthyciadau adnewyddu tai yn y sector preifat (£9,850k)
- Gwaith atgyweirio adeiladau ysgolion a gwaith cynnal a chadw sydd wedi 'ôl-gronni' (£9,530k)
- Rhesymoli Depo (£2,350k)

	2013 £000	2012 £000
Buddsoddiadau Cyfalaf		
Eiddo, perirannau a chyfarpar	31,907	34,798
Eiddo buddsoddi	24	261
Asedau anniriaethol	159	220
REFCUS (gweler tudalen 25)	7,890	8,355
	39,980	43,634
Ffynonellau cyllid		
Derbyniadau cyfalaf	(6,051)	(2,618)
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf	(17,297)	(23,898)
Cronfeydd cyfalaf wrth gefn / CERA	(5,087)	(4,095)
	(28,435)	(30,611)
Cynnydd/(gostyngiad) yn y gofyniad cyllid cyfalaf	11,545	13,023
Cynnydd mewn benthyciadau a chymorth	5,141	5,788
Cynnydd mewn benthyciadau eraill (heb gymorth)	3,778	1,812
Asedau a gafwyd dan brydlesi cyllid	2,626	5,423
	11,545	13,023

21. BUDDSODDIADAU HIRDYMOR

Caiff buddsoddiadau hirdymor eu dangos yn y fantolen ar sail gwerth teg. Mae gwybodaeth gysylltiedig bellach wedi'i chynnwys yn nodyn 36 ar dudalennau 64 – 67.

	2013 £000	2012 £000
Stoc rhyfel	15	15
Cyfranddaliadau	0	725
Adneuon mewn banciau/cymdeithasau	0	2,013
	15	2,753

22. DYLEDWYR HIRDYMOR

	2013 £000	2012 £000
Endidau ac unigolion eraill	1,592	1,066
	1,592	1,066

Dadansoddiad o ddyledwyr tymor hir dosbarthu fel 'endidau ac unigolion eraill': -

	2013 £000	2012 £000
Morgeisi - cyn-denantiaid tai cyngor	0	2
Benthyciadau adnewyddu a gwella	1,291	769
Benthyciadau i bobl sy'n prynu eiddo am y tro cyntaf	100	100
Benthyciadau a chymorth i brynu car	160	155
Gwaith stryd preifat	41	40
	1,592	1,066

23. STOCIAU

Roedd gan y Cyngor stociau gwerth cyfanswm o £1,024k (£1,269k yn 2011/12) yn y fantolen ar 31 Mawrth 2013.

	2013 £000	2012 £000
Cynnal a chadw adeiladau	29	90
Cynnal a chadw priffyrdd	286	322
Tanwydd fflyd	23	33
Cynnal a chadw tiroedd	8	8
Cynnal a chadw cerbydau	38	35
Halen craig	256	257
Amrywiol	384	524
	1,024	1,269

Yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 2, rhaid datgelu cyfanswm cost pob prif fath o stoc yn ystod y flwyddyn, a ddelir ar ddyddiad y fantolen

	2013 £000	2012 £000
Cynnal a Chadw Adeiladau *	0	463
Cynnal a Chadw Priffyrdd	308	332
Tanwydd y fflyd(Queensferry) **	0	93
Tanwydd y fflyd, cynnal a chadw tir a chynnal a chadw cerbydau (Alltami)	623	511
	931	1,399

* Mae'r llechres cynnal a chadw adeiladau bellach yn cael ei rheoli'n allanol dan drefniant partneriaeth gyda Travis Perkins.
** Mae tanwydd y fflyd a leolwyd yn flaenorol yn Queensferry wedi cael ei drosglwyddo i ddepo Alltami.

24. DYLEDWYR BYRDYMOR

	2013 £000	2012 £000
Rhenti tai	1,491	1,398
Y Dreth Gyngor	2,651	2,700
Adrannau'r llywodraeth	9,443	454
Trethi	3,420	1,816
Benthyciadau	127	138
Taliadau ymlaen llaw	2,424	3,492
Budd-daliadau a or-dalwyd	2,260	1,651
Asiantaeth ardrethi annomesitg	3,380	450
Dyledwyr eraill	16,976	20,535
	42,172	32,634
Namyn darpariaeth ar gyfer colledion oherwydd amhariadau (nodyn 32)	(2,768)	(2,699)
	39,404	29,935

25. BUDDSODDIADAU BYR DYMOR

Mae'r cyfanswm ar y fantolen o £19,474k (£13,599k yn 2011/12) yn cael ei gofnodi namyn unrhyw symiau a fuddsoddwyd am 3 mis neu lai (yn cynnwys arian tros nos/ cyfrifon galw) sy'n cael eu trin fel arian parod, sef £36,300k (£24,000k yn 2011/12). O fewn y cyfanswm mae cofnodion cyfrifo gofynnol sy'n berthnasol i arian a oedd ym Manc Landsbanki, Ynys yr Iâ (gweler nodyn 4 ar dudalennau 29 a 30).

	2013 £000	2012 £000
Buddsoddiadau (3 mis – 365 diwrnod)	17,800	11,000
Llog Cronnus	130	128
	17,930	11,128
Buddsoddiad Landsbanki sy'n weddill	1,938	2,613
Llog Cronnus	737	633
Amhariad	(1,131)	(1,065)
AD Waste	328	290
	1,872	2,471
	19,802	13,599

26. ARIAN PAROD AC ELFENNAU SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

	2013		2012	
	£000	£000	£000	£000
Asedau Cyfredol				
Buddsoddiadau dros dro (cyfrifon galw)		2,000		16,000
Arian parod ac elfennau sy'n cyfateb i arian parod	37,412		25,458	
Arian a ordynnwyd	(5,064)		(2,521)	
		32,348		22,937
		34,348		38,937

27. ASEDAU A GEDWIR I'W GWERTHU

Yr asedau hynny sy'n debygol iawn o gael eu gwerthu cyn pen blwyddyn ar ôl eu dosbarthu. Mae'r addasiadau ar gyfer asedau a gafodd eu hailgategoreiddio (£3,774k) yn gysylltiedig â'r asedau a gafodd eu hailgategoreiddio o fewn Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar - gweler nodyn 17 ar dudalen 46 a nodyn 18 ar dudalen 48.

	Anheddau a Garejys y Cyngor £000	Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar Eraill £000	Eiddo Buddsoddiadau £000	Ystad Amaethyddol £000	Cyfanswm £000
Ar 1 Ebrill 2012	**518**	**2,234**	**0**	**0**	**2,752**
Asedau newydd eu dosbarthu i'w gwerthu	704	579	2,786	555	4,624
Asedau wedi eu dad-ddosbarthu a gedwir i'w gwerthu	(154)	0	0	0	(154)
Ailddosbarthiadau Net	**550**	**579**	**2,786**	**555**	**7,015**
Colledion ailbrisio	0	(135)	(241)	0	(376)
Elw ailbrisio	0	0	20	0	20
Ail brisiadau Net	**0**	**(135)**	**(221)**	**0**	**7,015**
Asedau werthwyd	(785)	(779)	(1,528)	0	(3,092)
Ar 31 Mawrth 2013	**283**	**1,899**	**1,037**	**555**	**3,774**

28. BENTHYCIADAU I'W HAD-DALU YN ÔL Y GALW NEU CYN PEN 12 MIS

	2013 £000	2012 £000
Llog a gronnwyd ar fenthyciadau allanol hir dymor	4,242	4,298
Llywodraeth (PWLB)	0	1,500
Benthyciad buddsoddi i arbed (gan Lywodraeth Cymru)	0	131
Benthyciadau Effeithlonrwydd Ynni (gan Salix Finance Ltd.)	54	27
AD Waste - benthyciad rhwng cwmniau	0	4,531
	4,296	10,487

29. CREDYDWYR

	2013 £000	2013 £000	2012 £000	2012 £000
Byr Dymor				
Credydwyr cyffredinol *		30,824		26,344
Taliadau ymlaen llaw				
Rhenti tai	247		233	
Y Dreth Gyngor	592		679	
Arall	1,222		1,718	
		2,061		2,630
		32,885		28,974
Hir Dymor				
Taliadau ymlaen llaw				
Arall		2,480		1,905
		2,480		1,905

***** Mae ffigurau 2011/2012 wedi cael eu hailddatgan i eithrio symiau mewn perthynas â derbyniadau grant gan y llywodraeth rhagblaen nad ydynt eto wedi cael eu cydnabod fel incwm. Cafodd y symiau hyn eu cynnwys o fewn credydwyr tymor byr yng nghyfrifon y llynedd, ond bellach cânt eu cynnwys ar wahân fel nodir yn nodyn 30. Mae'r cyfanswm a eithriwyd o'r credydwyr tymor byr ar gyfer 2011/2012 yn £4,710k, wedi'u rhannu rhwng grantiau refeniw tymor byr (£4,095k) a grantiau refeniw tymor hir (£615k).

30. DERBYNIADAU GRANTIAU YMLAEN LLAW

	2013 £000	2012 £000
Byr Dymor		
Grantiau refeniw *	3,029	4,095
	3,029	4,095
Hir Dymor		
Grantiau refeniw *	887	615
	887	615

***** ffigurau wedi eu hadddasu o gyfnod blaenorol

31. BENTHYCA HIRDYMOR

Dadansoddiad	Cyfraddau Llog Lleiafswm %	Uchafswm %	2013 £000	2012 £000
Yn ol math o Fenthyciad (Cyfradd Sefydlog)				
Salix Finance (Effeithlonrwydd Ynni)	Di-log		243	297
Llywodraeth (PWLB)	0.54	9.50	153,163	153,163
Sefydliadau ariannol eraill	4.48	4.58	18,950	18,950
			172,356	172,410
Yn ol cyfnod aeddfedu				
Rhwng 1 a 2 flynedd			0	55
Rhwng 2 a 5 mlynedd			1,600	162
Rhwng 5 a 10 mlynedd			15,734	14,771
Mwy na 10 mlynedd			155,022	157,422
			172,356	172,410

32. DARPARIAETHAU

Y symiau a gydnabyddir fel darpariaethau yw'r amcangyfrifon gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i fodloni ymrwymiadau presennol. Mae cyfanswm y darpariaethau (ar hyn o bryd a'r rhai nad ydynt ar hyn o bryd), sef £11,011k yn cynnwys y balansau a ganlyn:-

	2013 £000	Symud Allan £000	Symud i Mewn £000	2012 £000
Hawliadau (staff)	9	0	0	9
Partneriaeth Camerâu Diogelwch Gogledd Cymru	0	(1)	0	1
Cyflog cyfartal	9,334	(4,310)	0	13,644
Cynllun Trefniant M M I S	577	0	577	0
Ôl-ofal o hen safleoedd claddu gwastraff	1,091	(20)	1,111	0
	11,011	(4,331)	1,688	13,654

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau staff yn cynnwys costau disgwyliedig amryw hawliadau gan y staff yn erbyn y Cyngor; ni ddisgwylir i neb wneud hawliad yn y dyfodol agos.

- Mae darpariaeth Partneriaeth Camerâu Diogelwch Gogledd Cymru yn darparu ar gyfer rhoi iawndal i yrwyr a gafodd eu dirwyo ar gam am yrru'n rhy gyflym mewn ardal ddynodedig lle nad oedd arwyddion 30mya priodol wedi'u gosod. Mae amseriad a sicrwydd yr ymrwymiadau'n dibynnu'n llwyr ar b'un a fydd y gyrwyr hynny nad ydynt eisoes wedi cyflwyno hawliadau yn penderfynu gwneud hynny.

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ôl-daliadau cyflog cyfartal yn darparu ar gyfer hawliadau posibl am gyflog cyfartal pe gellid pennu atebolrwydd, ac mae'n ofynnol datgelu'r ddarpariaeth am resymau'n ymwneud â gofal a'r angen i gydymffurfio â'r Cod. Mae'r cyfrif cyflog cyfartal a gynhwysir yn y fantolen ar dudalen 12 (a datgelu ar dudalen 62) ei ddefnyddio i gadw swm cyfwerth ag ôl-daliadau, y gohiriwyd ei ddangos yng Nghronfa'r Cyngor dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllido Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru). Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer y cytundeb statws sengl/cyflog cyfartal (wedi'i chynnwys yn y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd sydd i'w gweld ar dudalen 57), yn darparu cefnogaeth ariannol ar gyfer y ddarpariaeth; nid yw'r £9,334k yn ychwanegol at y £25,653k yn y gronfa wrth gefn a glustnodwyd.

- Gwnaed y ddarpariaeth parthed Cynllun Trefniant MMI yn 2012/13. Gwnaed hyn yn dilyn penderfyniad gan fwrdd MMI i wneud y cynllun trefniant yn weithredol ar 13 Tachwedd 2012.

  MMI oedd un o brif yswirwyr cyrff sector gyhoeddus cyn iddo roi'r gorau i gyflawni'r swyddogaeth honno ym mis Medi 1992.

Er mwyn sicrhau fod trefn daclus o ddod â'r yswirio i ben rhoddwyd Cynllun Trefniant gyda Chredydwyr yn ei lle. O weld nad oedd dirwyn i ben diddyled yn mynd i ddigwydd nid oedd yn debygol y gellid dod â'r drefn heb weithredu'r Cynllun Trefniant.

Bydd holl Gredydwyr y cynllun yn ddarostyngedig i ganran o ardoll ar rwymedigaethau'r cynllun i gyd a dalwyd hyd at yn awr a byddai unrhyw daliadau pellach yn cael eu gwneud ar gyfradd wedi ei gostwng.

Mae gweinyddwr y cynllun wedi rhoi ar wybod i Gredydwyr y cynllun y bydd yr ardoll yn 15% o hawliadau a wnaed hyd yn awr. Mae Sir y Fflint fel y sefydliad llywodraeth leol sy'n bod ar hyn o bryd yn gyfrifol am dalu ardoll parthed Cynghorau blaenorol Delyn ac Alun a Glannau Dyfrdwy, a chyfran o'r hyn fyddai'n ddyledus gan yr hen Gyngor Clwyd fel y cytunwyd gyda'r Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru. Mae 15% yr holl daliadau a dalwyd hyd yn hyn yn cyfateb â darpariaeth o £577k.

- Yng nghyfrifon 2011/12 cynhwyswyd rhwymedigaeth wedi ei gohirio o £1,090k ym mantolen Sir y Fflint. Mae hyn yn dilyn ar ôl i'r Cyngor ddod yn berchennog AD Waste Ltd ac yn cydnabod yr angen am ddarparu ar gyfer yr ôl-ofal am safleoedd gwaredu gwastraff. Yn 2012/13 trosglwyddwyd hyn i ddarpariaethau, ei adolygu ar gyfer digonolrwydd a'i gynyddu i £1,091k er mwyn adlewyrchu trosglwyddo cyfrifoldeb i'r Cyngor am y costau ôl-ofal amgylcheddol o hen safleoedd gwaredu gwastraff, gyda £43k yn rhwymedigaeth gyfredol a £1,048k yn atebolrwydd nad oedd yn gyfredol.

Darpariaethau Cyfredol – Absenoldebau Cronedig

Y ddarpariaeth ar gyfer absenoldebau cronedig yn 2012/13 yw £2,612k (£3,738k yn 2011/12).

	2013 £000	Symud Allan £000	Symud i Mewn £000	2012 £000
Absenoldebau cronedig	2,612	(1,302)	176	3,738
	2,612	(1,302)	176	3,738

Mae absenoldebau cronnol byrdymor y digolledir amdanynt yn cyfeirio at fuddion a gaiff gweithwyr yn rhan o'u contract cyflogaeth, y bydd eu hawl iddynt yn cronni wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i'r Awdurdod. Y budd mwyaf sylweddol y mae'r pennawd hwn yn ymdrin ag ef yw tâl gwyliau. Bydd gweithwyr yn cronni hawl i wyliau gyda thâl wrth iddynt weithio. Dan y Cod, mae'n ofynnol i gost darparu gwyliau a buddion tebyg gael ei chydnabod pan fydd gweithwyr yn darparu gwasanaeth sy'n cynyddu eu hawl i absenoldebau yn y dyfodol y digolledir amdanynt. O ganlyniad, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gronni ar gyfer unrhyw wyliau blynyddol a enillwyd ond na chymerwyd ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Dan y trefniadau cyfrifyddu blaenorol, nid oedd croniad o'r fath yn ofynnol. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi rheoliadau sy'n golygu mai'r unig adeg y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyllido tâl gwyliau a buddion tebyg yw pan gânt eu defnyddio, yn hytrach na phan fydd gweithwyr yn eu hennill. Caiff symiau eu trosglwyddo i'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig nes caiff y buddion eu defnyddio.

Darpariaethau Cyfredol – Darpariaeth ar gyfer colledion oherwydd amhariadau (drwgddyledion)

Mae'r symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor wedi'u gostwng yn ôl darpariaethau amcan ar gyfer colledion oherwydd amhariadau.

	2013 £000	2012 £000
Rhenti tai	719	637
Y Dreth Gyngor	770	803
Dyledwyr eraill	1,279	1,259
	2,768	2,699

33. RHWYMEDIGAETHAU GOHIRIEDIG

	2013 £000	2012 £000
Prydlesi cyllid nad ydynt yn gyfredol	7,552	5,573
AD Waste Limited	0	1,090
	7,552	6,663

Bydd cyfanswm o £7,552k mewn perthynas â phrydlesi cyllid yn dod yn ddyledus y tu hwnt i 2012/13 (£5,573k yn 2011/12) fel rhan o daliadau gofynnol prydlesi sy'n ddyledus, fel y cânt eu datgelu yn nodyn 12 ar dudalen 42.

Roedd rhwymedigaeth AD Waste Limited yn £1,090k yn 2011/12 parthed ôl-ofal amgylcheddol cyn safleoedd gwaredu gwastraff. Trosglwyddwyd i ddarpariaeth nad oedd yn gyfredol yn 2012/13 fel y gwelir yn nodyn 32 ar dudalen 55.

34. CRONFEYDD Y GELLIR EU DEFNYDDIO

Mae manylion am gronfeydd defnyddiadwy'r Awdurdod i'w gweld ar Ddatganiad Symud yn y Cronfeydd ac ar nodyn 7 ar dudalen 36.

Cronfa'r Cyngor

Mae balans cronfa'r Cyngor o £9,270k yn dynodi gwerth cronfeydd heb eu clustnodi ar gael i'r Awdurdod (£6,468k yn 2011/12).

Cronfeydd wedi eu Clustnodi

Mae'r cyfanswm o gronfeydd wedi eu clustnodi o £42,064k (£37,964k yn 2011/12) yn cynnwys balansau gwasanaethau refeniw o £8,922k (£6,479k yn 2011/12), y gwarged yn deillio o ysgolion a reolir yn lleol o £3,097k (£2,658k yn 2011/12), a chronfeydd amrywiol dynodedig eraill. Mae'r symud rhwng cronfeydd wedi eu clustnodi yn cael eu crynhoi yn y tabl isod:-

	Mantolen ar 1 Ebrill 2011 £000	Trosglwyddiadau Allan 2011/12 £000	Trosglwyddiadau i Mewn 2011/12 £000	Mantolen ar 31 Mawrth 2012 £000	Trosglwyddiadau Allan 2012/13 £000	Trosglwyddiadau i Mewn 2012/13 £000	Mantolen ar 31 Mawrth 2013 £000
Balansau'r gwasanaeth	5,795	(4,519)	5,203	6,479	(5,340)	7,783	8,922
Balansau ysgolion	1,974	(2,741)	3,425	2,658	(2,917)	3,356	3,097
Statws sengl / cyflog cyfartal	20,380	0	3,776	24,156	0	1,497	25,653
Cydraddoli buddion	255	0	234	489	(121)	751	1,119
Etholiadau sirol	49	0	43	92	(4)	0	88
Clwyd Theatr Cymru	5	(5)	(43)	(43)	26	0	(17)
Cefnogi Pobl	1,209	0	284	1,493	0	0	1,493
Storfa cyfarpar cymunedol	48	0	7	55	0	11	66
Cyfrif masnachu rheoli adeiladu	248	(39)	0	209	0	0	209
Cwotas llaeth	68	0	4	72	0	5	77
Gwaredu gwastraff	895	(84)	0	811	(103)	0	708
Enillion cynllunio	3	0	0	3	0	0	3
Flintshire Enterprise Ltd	219	(32)	0	187	(48)	0	139
Hawliadau trydydd parti	87	0	0	87	0	0	87
Ffioedd dylunio	0	0	120	120	0	0	120
Mwynau a gwastraff	0	0	7	7	0	4	11
Cynnal a chadw'r gaeaf	0	0	245	245	(245)	0	0
Cronfa yswiriant - asbestos	100	0	60	160	0	0	160
Cronfa Yswiriant Sir y Fflint	1,037	(363)	0	674	(14)	0	660
Cronfa Yswiriant Clwyd	10	0	0	10	(1)	0	9
Tai - CERA	457	(457)	0	0	0	0	0
	32,839	(8,240)	13,365	37,964	(8,767)	13,407	42,604

Cyfrif Refeniw Tai

Mae gwarged cronfa wrth gefn y cyfrif refeniw tai, sef £1,931k (£1,890k yn 2011/12) yn adlewyrchu gwarged cyfrif refeniw tai 2012/13, sef £41k (£276k yn 2011/12), fel y nodir ar dudalen 74 a 75.

Cronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf

Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer derbyniadau cyfalaf yn cynnwys derbyniadau o werthu asedau, sydd eto i'w defnyddio i ariannu cyfalaf neu ad-dalu dyled.

Grantiau Cyfalaf na Ddefnyddiwyd

Grantiau cyfalaf na ddefnyddiwyd yw symiau a dderbyniwyd ond na ddefnyddiwyd eto i ariannu gwariant cyfalaf.

35. CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

Dyma fanylion y symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio –

Cronfeydd wrth gefn	2013 £000	2012 £000
Cronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio	52,739	58,060
Cronfa wrth gefn ar gyfer offerynnau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	(3)	368
Cyfrif addasu cyfalaf *	527,474	557,855
Cyfrif addasu offerynnau ariannol	(8,381)	(9,051)
Cronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau	(305,518)	(240,834)
Cyfrif cyflog cyfartal	(9,334)	(13,644)
Derbyniadau cyfalaf gohiriedig	2	9
Cyfrif absenoldebau cronedig	(2,612)	(3,738)
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio	**254,367**	**349,025**

* Addasiad y cyfnod blaenorol - gweler Nodyn 44.
Yng nghyfrifon 2011/12 y Cyfrif addasu cyfalaf ei gofnodi fel £570,607k.

Cronfa wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio

Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod, a oedd yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei eiddo, ei beiriannau a'i gyfarpar. Caiff y balans ei ostwng pan gaiff asedau ag enillion cronedig:

- eu hailbrisio tuag i lawr, neu pan amherir arnynt a phan gollir yr enillion
- eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a chaiff yr enillion eu llyncu gan ddibrisiant
- eu gwerthu a chaiff yr enillion eu gwireddu.

Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio yn cofnodi enillion ailbrisio na wireddwyd sydd wedi codi ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y cafodd y gronfa wrth gefn ei chreu. Mae asedau nad ydynt yn asedau cyfredol yn y fantolen yn cyfateb i'r gronfa wrth gefn – nid yw'r adnoddau ar gael at ddibenion ariannu.

	2013		2012	
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill		58,060		114,579
Ailbrisio busoddiadau tuag i fyny	10,994		9,464	
Ailbrisio buddsoddiadau tuag i lawr na ddangoswyd yn y gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau	(6,818)		(26,091)	
Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisio asedau nad ydynt yn rhai cyfredol na ddangoswyd yn y gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau		4,176		(16,627)
Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant cost hanesyddol	(9,497)		(39,892)	
Enillion cronedig ar asedau a werthwyd neu a ddilewyd	0		0	
Swm a ddilewyd i'r cyfrif addasu cyfalaf		(9,497)		(39,892)
Balans ar 31 Mawrth		52,739		58,060

Cronfa wrth Gefn ar gyfer Offerynnau Ariannol sydd ar gael i'w Gwerthu

Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer offerynnau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu yn cofnodi enillion ailbrisio na wireddwyd sy'n deillio o ddal buddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu, ynghyd ag unrhyw golledion na wireddwyd nad ydynt wedi deillio o amhariad ar yr asedau. Mae benthyciadau a buddsoddiadau yn y fantolen yn cyfateb i'r gronfa wrth gefn - nid yw'r adnoddau ar gael at ddibenion ariannu.

	2013		2012	
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill		368		254
Ailbrisio busoddiadau tuag i fyny	0		114	
Ailbrisio buddsoddiadau tuag i lawr na ddangoswyd yn y gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau	(371)		0	
		(371)		114
Balans ar 31 Mawrth		(3)		368

Cronfa wrth Gefn ar gyfer Pensiynau

Mae'r gronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau yn gyfrif addasu sy'n amsugno'r gwahaniaethau o ran amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer buddion ar ôl cyflogaeth ac ar gyfer cyllido buddion yn unol â darpariaethau statudol.

Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddion ar ôl cyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – caiff y buddion eu hennill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth. Caiff y rhwymedigaethau a gydnabyddir yn y cyfrifon eu diweddaru i adlewyrchu chwyddiant, rhagdybiaethau sy'n newid ac elw buddsoddi ar unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu'r costau.

Mae trefniadau statudol yn mynnu y dylai'r buddion a enillir gael eu hariannu pan fydd yr Awdurdod yn gwneud cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiynau, neu pan fydd maes o law yn talu unrhyw bensiynau y mae'n gyfrifol yn uniongyrchol amdanynt. Felly, mae'r balans o ran debyd yn y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Pensiynau yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a gweithwyr y presennol, a'r adnoddau y mae'r Awdurdod wedi eu neilltuo i'w talu. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn yr adeg y bydd angen talu'r buddion.

Mae'r enillion a'r colledion actiwaraidd a nodir fel symudiadau yn y gronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau yn 2011/12 fel y maent yn nodyn 4 ar dudalennau 30 i 33 :-

	2013 £000	2012 £000
Datganiad (Elw) a Cholled Actiwaraidd -		
Ased (elw)/colled	(13,970)	16,756
Rhwymedigaeth (elw)/colled	76,603	20,425
(Elw)/Colled Net	62,633	37,181

Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r cyfrif addasu cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaeth o ran amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer rhoi cyfrif am ddefnyddio asedau nad ydynt yn asedau cyfredol ac ar gyfer ariannu gwaith caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan y darpariaethau statudol. Caiff y cyfrif ei ddebydu'n unol â chost caffael, adeiladu neu wella wrth i ddibrisiant, colledion oherwydd amhariadau, ac amorteiddiadau gael eu dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda chofnodion cysoni o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer ailbrisio i drosi ffigurau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Caiff y cyfrif ei gredydu â'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod fel arian ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella.

Mae'r cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar eiddo buddsoddi ac enillion ailbrisio a gronnwyd ar eiddo, peiriannau a chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y cafodd y gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio ei chreu i ddal enillion o'r fath.

Mae Nodyn 7 ar dudalennau 36 a 37 yn manylion ffynhonnell pob un o'r trafodion a gofnodir yn y cyfrif, ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud â'r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio.

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

	2013		2012	
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill		557,855		574,061
Gwyrdroi eitemau sy'n ymwneud a gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.				
- Taliadau dibrisiant ac amhariadau yng nghyswllt asedau nad ydynt yn rhai cyfredol *	(65,693)		(86,582)	
- Amorteiddiad asedau anniriaethol	(35)		104	
- Gwariant refeniw a ariennir o gyfalaf yn statudol	(7,367)		(7,791)	
- Symiau asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a ddilewyd wrth waredu neu werthu, yn rhan o'r enillion/colledion o werthu, i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	1,171		(1,540)	
		(71,924)		(95,809)
Addasiadau dyledwyr hirdymor		837		967
Addasu symiau a ddilewyd o'r gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrisio		10,744		39,892
Swm net a ddilewyd allan o gost asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn		(60,343)		(54,950)
Ariannu cyfalaf a gymhwyswyd yn ystod y flwyddyn				
- Defnyddio'r gronfa wrth gefn ar gyfer cyfalaf	2,263		2,858	
- Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr sydd wedi eu cymhwyso i ariannu cyfalaf	17,297		23,898	
- Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddi cyfalaf, sydd i'w ddangos yn erbyn balansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai	6,867		6,852	
- Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn cronfa'r cyngor a balansau'r cyfrif refeniw tai	4,927		3,875	
- Cymhwyso derbyniadau cyfalaf i ariannu asedau a drosglwyddir o AD Waste	3,506			
- Gwaredu buddsoddi mewn AD Waste	(355)			
		34,505		37,483
Symudiadau yng ngwerth eiddo buddsoddi ar y farchnad, a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	(4,543)		1,261	
		(4,543)		1,261
Balans ar 31 Mawrth		527,474		557,855

* Addasiad y cyfnod blaenorol - gweler Nodyn 44. Yn y Taliadau 2011/12 yn cyfrif am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn

Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol

Mae'r cyfrif addasu offerynnau ariannol yn darparu system gydbwyso rhwng pa mor fuan y caiff enillion a cholledion (megis taliadau premiwm am dalu dyledion yn gynnar) eu cydnabod dan y Cod a pha mor fuan y mae'n ofynnol yn ôl statud iddynt gael eu bodloni o gronfa'r Cyngor. Unwaith eto, mae benthyciadau a buddsoddiadau yn y fantolen yn cyfateb i'r gronfa wrth gefn, ac nid yw'r adnoddau ar gael at ddibenion ariannu.

	2013		2012	
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill		(9,051)		(9,679)
Premiymau a dalwyd yn ystod y flwyddyn ac a ddangoswyd yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr			0	
Cyfran y premiynau a dalwyd yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol sydd i'w dangos yn erbyn balans Cronfa'r Cyngor yn unol â gofynion statudol	670		628	
Amhariad trosglwyddiadau buddsoddiad - Landsbanki	0		0	
Y swm y mae costau cyllid a godir ar y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn wahanol i gostau cyllid sydd i'w codi yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol		670		628
Balans ar 31 Mawrth		(8,381)		(9,051)

Cyfrif Ôl-daliadau Cyflog Cyfartal

Mae'r cyfrif cyflog cyfartal yn gwneud iawn am y gwahaniaethau rhwng gallu'r Awdurdod i ddarparu ar gyfer costau posibl setliadau cyflog cyfartal, a'r gallu dan ddarpariaethau statudol i ohirio'r effaith ar falans Cronfa'r Cyngor nes gallai arian fod yn cael ei dalu i'r sawl sy'n ei hawlio.

	2013		2012	
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill		(13,644)		(10,099)
(Cynnydd) / gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer achosion cyflog cyfartal	4,310		(3,545)	
Setliadau arian parod a dalwyd yn ystod y flwyddyn	0		0	
Y swm y mae'r symiau a ddangosir ar gyfer hawliadau cyflog cyfartal yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn wahanol i gost setliadau sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol		4,310		(3,545)
Balans ar 31 Mawrth		(9,334)		(13,644)

Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig

Derbyniadau cyfalaf gohiriedig yw symiau sy'n deillio o werthu asedau, a dderbynnir ar ffurf rhandaliadau dros gyfnodau o amser y cytunwyd arnynt. Mae'r gronfa wrth gefn yn dal yr enillion a gydnabyddir o achosion o werthu asedau nad ydynt yn asedau cyfredol, ond nad oes arian parod wedi dod i law mewn perthynas â nhw eto. Maent yn codi o forgeisi wrth werthu tai cyngor.

Dan drefniadau statudol, nid yw'r Awdurdod yn trin yr enillion hyn fel enillion y gellir eu defnyddio at ddiben ariannu gwariant cyfalaf newydd, nes cânt eu cefnogi gan dderbyniadau arian parod. Pan fydd y setliad arian parod gohiriedig yn digwydd maes o law, caiff symiau eu trosglwyddo i'r gronfa wrth gefn ar gyfer derbyniadau cyfalaf.

	2013 £000	2012 £000
Tai cyngor	2	9
	2	9

Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r cyfrif absenoldebau cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn ymddangos ym malans Cronfa'r Cyngor o waith cronni ar gyfer absenoldebau y digolledir amdanynt, a enillwyd ond na chymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawl i wyliau blynyddol a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Mae'r trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar falans Cronfa'r Cyngor gael ei niwtraleiddio drwy drosglwyddo i mewn ac allan o'r cyfrif.

	2013		2012	
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill		(3,738)		(3,598)
Setlo neu ddiddymu croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	3,738		3,598	
Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol	(2,612)		(3,738)	
Y swm y mae taliadau swyddogion a ddangosir yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i'r taliadau sydd i'w dangos yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol		1,126		(140)
Balans ar 31 Mawrth		(2,612)		(3,738)

36. OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r offerynnau ariannol sydd yn y fantolen yn cynnwys y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol a ganlyn:

	Hir Dymor		Cyfredol	
	2013 £000	2012 £000	2013 £000	2012 £000
Rhwymedigaethau ariannol ar gost amorteiddiad	172,356	172,410	4,296	5,798
Symiau taladwy	0	0	42,036	30,234
Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol	172,356	172,410	46,332	36,032
Benthyciadau	1,291	769	19,802	13,599
Symiau derbyniadwy	0	2,013	31,469	19,879
Asedau ariannol sydd ar gael i' w gwerthu	15	740	0	0
Cyfanswm asedau ariannol	1,306	3,522	51,271	33,478

Roedd gwerth cyfrifon taladwy a symiau taladwy eraill ar y fantolen yn cyfateb i £42,036k (£30,234k yn 2011/12) fel y datgelir uchod, ac roedd cyfrifon derbyniadwy yn cyfateb i £31,469k (£19,879k yn 2011/12).

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag offerynnau ariannol fel a ganlyn:

	2013				2012			
	Rhwymedigaethau Ariannol	Asedau Ariannol			Rhwymedigaethau Ariannol	Asedau Ariannol		
	Rhwymedigaethau wedi'u mesur yn ol cost wedi'i hamorteiddio	Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy	Asedau ar gael i'w Gwerthu	Cyfanswm	Rhwymedigaethau wedi'u mesur yn ol cost wedi'i hamorteiddio	Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy	Asedau ar gael i'w Gwerthu	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cost llog	(10,073)	0	0	(10,073)	(10,231)	0	0	(10,231)
Colledion amhariad	0	35	0	35	0	361	0	361
Llog taladwy a thaliadau tebyg	(10,073)	35	0	(10,038)	(10,231)	361	0	(9,870)
Incwm llog	0	749	0	749	0	670	0	670
Incwm llog a buddsoddiadau	0	749	0	749	0	670	0	670
Elw wrth ailbrisio			0				0	
Diffyg sy'n deillio o ailbrisio asedau ariannol			0				0	
Elw/(colled) net am y flwyddyn	(10,073)	784	0		(10,231)	1,031	0	

Gwerth Teg Asedau a Rhwymedigaethau a gariwyd ar sail Cost wedi'i hamorteiddio

Caiff y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a symiau derbyniadwy eu cario yn y fantolen ar sail cost wedi'i hamorteiddio. Gellir asesu eu gwerth teg drwy gyfrifo gwerth presennol y llifoedd arian a fydd yn digwydd dros weddill tymor yr offerynnau (yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd yn 2011/12). Mae ffigur benthyca 2012/13 ar gyfer benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) wedi'i gyfrifo drwy gyfeirio at y gyfres o gyfraddau ar gyfer 'ad-daliadau cynamserol' a oedd mewn grym ar 31 Mawrth 2013 (yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd yn 2011/12).

Mae'r ffigur benthyciadau Dewis Opsiwn Benthyciwr 2012/13 (LOBO) wedi'i gyfrifo drwy ddisgowntio'r llif arian dros oes gyfan y benthyciadau ar y gyfradd llog priodol.

Mae gwerth teg y cyfranddaliadau a stoc rhyfel yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio gwerth giltiau heb ddyddiad fel a gyhoeddwyd ar gyfer 31 Mawrth 2013.

Mae gwerth teg masnach a symiau derbyniadwy eraill yn cael ei gymryd i fod y swm a anfonebwyd, ac nid oes unrhyw ad-daliad cynnar neu amhariad yn cael ei gydnabod.

Caiff y gwerthoedd teg eu cyfrifo fel a ganlyn:

	2013		2012	
	Gwerth Llyfr	Gwerth Teg	Gwerth Llyfr	Gwerth Teg
	£000	£000	£000	£000
Rhwymedigaethau Ariannol				
PWLB	157,179	226,577	158,734	223,022
LOBOs	19,176	26,298	19,177	26,480
	176,355	252,875	177,911	249,502

Yn achos benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, mae'r gwerth teg yn uwch na'r gwerth llyfr oherwydd bod portffolio benthyciadau'r Awdurdod yn cynnwys nifer o fenthyciadau sefydlog lle mae'r gyfradd llog sy'n daladwy'n uwch na'r cyfraddau sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg ar ddyddiad y fantolen. Mae'r ymrwymiad hwn i dalu llog sy'n uwch na chyfraddau presennol y farchnad yn cynyddu'r swm y byddai'n rhaid i'r Awdurdod ei dalu pe bai'r echwynnwr yn gofyn i'r benthyciadau gael eu had-dalu'n gynnar, neu pe bai'n cytuno iddynt gael eu had-dalu'n gynnar. Mae'r un peth yn wir am fenthyciadau LOBO, gyda'r cyfraddau llog yn uwch na chyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus sydd ar gael ar ddyddiad y fantolen, sy'n arwain at werth teg uwch.

	2013		2012	
	Gwerth Llyfr	Gwerth Teg	Gwerth Llyfr	Gwerth Teg
	£000	£000	£000	£000
Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy				
Stoc rhyfel	15	15	15	15
Cyfranddaliadau	0	0	725	725
Buddsoddiadau hir dymor	0	0	2,013	2,013
	15	15	2,753	2,753

Datgelu Natur a Maint y Risgiau sy'n codi o'r Offerynnau Statudol

Mae'r Cyngor yn rheoli ei risg o ran Rheoli'r Trysorlys drwy fabwysiadu Cod Ymarfer 2009 CIPFA ar Reoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus, y Cod Darbodaeth ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dan adran 15 (1) (a) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi (o leiaf) Datganiad Polisi a Strategaeth (adroddiad canol blwyddyn) ac adroddiad alldro blynyddol i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn mynnu terfynau buddsoddi ar fuddsoddiadau penodol (buddsoddiadau sy'n cynnig lefel uchel o ddiogelwch a hylifedd), buddsoddiadau amhenodol (buddsoddiadau sydd â mwy o risg bosibl) a buddsoddiadau yr ymrwymir iddynt am ragor na blwyddyn. Yn ogystal, rhaid pennu dangosyddion darbodaeth allweddol a chofnodi Arferion Rheoli'r Trysorlys. Mae'r arferion hynny'n cynnwys risgiau ariannol megis Risg o ran Credyd, Risg o ran Hylifedd a Risg o ran y Farchnad.

Mae gweithgareddau'r Awdurdod yn golygu ei fod yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

- Risg o ran credyd – y posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu â thalu'r symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod
- Risg o ran hylifedd – y posibilrwydd na fyddai gan yr Awdurdod arian ar gael i fodloni ei ymrwymiadau i wneud taliadau
- Risg o ran y farchnad – y posibilrwydd y gallai'r Awdurdod ddioddef colled ariannol o ganlyniad i newidiadau mewn cyfraddau llog, er enghraifft, neu symudiadau yn y farchnad stoc.

Mae rhaglen rheoli risg gyffredinol yr Awdurdod yn canolbwyntio ar y ffaith ei bod yn anodd rhagweld sefyllfa marchnadoedd ariannol, ac mae'n ceisio lleihau'r effeithiau posibl ar yr adnoddau sydd ar gael i gyllido gwasanaethau. Tîm trysorlys canolog sy'n ymgymryd â gwaith rheoli risg, dan bolisïau a gymeradwyir gan Gyngor Sir y Fflint yn y Datganiad Polisi a Strategaeth. Mae Sir y Fflint yn darparu egwyddorion ysgrifenedig ar gyfer rheoli risg yn gyffredinol, yn ogystal â pholisïau ysgrifenedig sy'n ymwneud â meysydd penodol, megis risg o ran cyfraddau llog, risg o ran credyd a risg o ran buddsoddi arian dros ben.

Risg - rhwymedigaethau

Mae'r Cyngor wedi sicrhau arian hirdymor naill ai drwy fenthyg gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, neu gan y farchnad drwy fenthyciadau LOBO.

- Benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus – Mae'r rhan fwyaf o'r ddyled hon ar gyfradd sefydlog, ac felly ceir risg o ran cyfraddau llog. Os bydd cyfraddau'n gostwng yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn talu cyfradd uwch na chyfradd bresennol y farchnad. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn fwy buddiol cael sicrwydd cyllidebol ynghylch taliadau llog y dyfodol mewn amgylchedd lle mae cyfraddau llog yn isel; ar hyn o bryd mae 6% o'r ddyled i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar gyfradd newidiol, sy'n lleihau'r risg o ran cyfraddau llog ond sy'n cynyddu ansicrwydd cyllidebol. Yn y Datganiad o Bolisi Rheoli'r Trysorlys ceir opsiwn i gael dyled newidiol sy'n gyfwerth â 35% os bernir bod hynny'n briodol. Caiff risg o ran hylifedd ei rheoli drwy'r proffil aeddfedrwydd dyledion a dangosydd darbodaeth nad yw'n caniatáu i ragor na 10% o'r ddyled aeddfedu mewn unrhyw un flwyddyn.
- Benthyciadau LOBO - Mae gan bob benthyciad LOBO gyfradd llog sefydlog am gyfnod o rhwng 12 a 23 mis, a ddilynir gan gyfradd sefydlog arall dros gyfnod y benthyciad. Fodd bynnag, gall yr echwynnwr ofyn i'r benthyciad gael ei ad-dalu ar ôl cyfnod sefydlog penodol. Caiff benthyciadau LOBO eu defnyddio oherwydd bod eu cyfradd llog yn is na benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, a chaiff hynny ei gydbwyso yn erbyn y perygl o gyfraddau'n codi a'r posibilrwydd y bydd yn rhaid ad-dalu'r benthyciad, sy'n arwain at risg ail-ariannu pan fydd cyfraddau llog yn uwch. Caiff swm benthyciadau LOBO ei gyfyngu i 35% o fenthyciadau hirdymor.

Pe bai cyfraddau llog yn codi 1%, dengys dadansoddiad mai'r effaith ariannol fyddai cynnydd o £90k mewn costau dyledion.

Risg – Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy

Buddsoddiadau Hirdymor -

- Cyfeirir at fuddsoddiadau sy'n para dros flwyddyn (neu mewn Cronfeydd Marchnadoedd Arian) fel buddsoddiadau amhenodol oherwydd y risg gynyddol o ran cyfraddau. Ceir terfyn o £20m ar gyfer buddsoddiadau hirdymor, a cheir gweithdrefnau ychwanegol ar gyfer eu hawdurdodi gan y Pennaeth Cyllid.

- Mae rhywfaint o risg o ran credyd ynghlwm wrth adneuon gyda banciau neu gymdeithasau adeiladu, a chaiff y risg honno ei rheoli drwy ddefnyddio tair asiantaeth asesu statws credyd a thrwy fuddsoddi mewn banciau neu gymdeithasau adeiladu sydd â statws uchel o ran credyd ac sydd ag asedau sy'n werth dros £1 biliwn. Caiff y meini prawf eu dangos yn y tabl isod :-

	FITCH		MOODY'S		STANDARD & POORS	
Math o radd	Banciau yn y DU a Thramor	Cymdeithasau Adeiladu	Banciau yn y DU a Thramor	Cymdeithasau Adeiladu	Banciau yn y DU a Thramor	Cymdeithasau Adeiladu
Byrdymor	F1	F2	P1	P2	A-1	A-2
Hirdymor	A	A-	A2	A3	A	A-

Pe bai cyfraddau llog yn codi 1%, dengys dadansoddiad mai'r effaith ariannol fyddai cynnydd o £455k mewn incwm buddsoddi. Pe bai cyfraddau llog yn gostwng 1%, byddai'n arwain at golli incwm a fyddai'n cyfateb i'r un swm.

Mae gan y Cyngor £3,700k wedi'i adneuo ym manc Landsbanki yng Ngwlad yr Iâ, a aeth i'r wal ym mis Hydref 2008. Mae'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn awgrymu na chaiff y swm a fuddsoddwyd ei ad-dalu'n llawn.

Bondiau -

Risg gyfyngedig o ran credyd sydd ynghlwm wrth fuddsoddiadau mewn bondiau oherwydd eu bod wedi'u gwarantu gan y llywodraeth, ond bydd y farchnad yn amrywio'n ôl cyfraddau llog cyfredol, gan newid y gwerth teg felly.

Symiau derbyniadwy eraill -

Mae'n ofynnol i gwsmeriaid wneud trefniadau i dalu symiau sy'n parhau'n ddyledus i'r Cyngor, ar sail eu gallu i dalu. Gofynnir i gwsmeriaid lenwi ffurflen asesu ariannol a chadarnhau'n ysgrifenedig y swm y cytunwyd arno a'r dyddiad y bydd y trefniant yn dechrau, a sicrhau bod y Cyngor yn hollol ymwybodol o unrhyw amgylchiadau o ran eu gallu i dalu, yr hoffent iddynt gael eu hystyried wrth gynnal yr asesiad.

37. YSGOLION SEFYDLEDIG

Newidiodd Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 statws ysgolion a gynhelir â grant, ac fe'u trowyd yn ysgolion sefydledig a gynhelir gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Gwnaed hynny am resymau cyllido, a daeth y newidiadau i rym ar 1 Ebrill 1999. Arweiniodd hynny at gynnwys yr asedau a'r rhwymedigaethau cyfredol a reolir gan unig ysgol sefydledig Sir y Fflint (Ysgol Gynradd Derwen, Higher Kinnerton) yn y fantolen. Corff llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol o hyd am yr asedau sefydlog a'r rhwymedigaethau hirdymor, ac felly nid yw'r gwerthoedd a'r symiau wedi'u crynhoi yn y fantolen.

38. CRONFEYDD ERAILL A WEINYDDIR GAN YR AWDURDOD

Mae'r Cyngor Sir wedi gweinyddu 21 o gronfeydd ymddiriedolaeth addysg yn ystod 2012/13, gyda phob un yn cynnwys symiau cymharol fach o arian a dderbyniwyd gan unigolion a'u buddsoddi er mwyn darparu incwm blynyddol ar gyfer gwobrau ac ati. Cafodd gweinyddiaeth 1 o'r cronfeydd ei throsglwyddo i'r ysgol gysylltiedig yn ystod 2012/13 a chafodd 1 gronfa ei diddymu gan ei bod wedi cyflawni ei phwrpas, mae'r 19 cronfa sy'n weddill yn cael eu hadolygu. Cyfanswm balans y gronfa ar 31 Mawrth 2013 oedd £203,318 (£277,394 yn 2011/12), nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y fantolen.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweinyddu cronfa ymddiriedolaeth ar ran Optec D.D. (UK) Limited. Mae'r gronfa yn rhoi cymorth ariannol i'r cynllun cyfnewid ieuenctid rhwng Cyngor Sir y Fflint a Murata a Kuga Cho yn Japan. Balans y gronfa ar 31 Mawrth 2013 oedd £115k (£130k yn 2011/12). Ni ddangosir y cyfrifon banc yn y fantolen.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am reoli a chynnal a chadw Mynwent Santes Margaret, Rhewl. Mae gan yr elusen gofrestredig hon dri chyfrif banc y mae cyfanswm eu gwerth presennol yn cyfateb i £357 (£357 yn 2011/12 hefyd). Ni ddangosir y cyfrifon banc yn y fantolen.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu fel awdurdod arweiniol yn y broses o weinyddu Cronfa Deddf Eglwys Cymru, ar ran Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Caiff incwm a dderbynnir o fuddsoddiadau, ar ôl ystyried treuliau rheoli canolog, ei ddyrannu i bob awdurdod i'w ddefnyddio i roi grantiau sy'n cyd-fynd ag amcanion penodol. Ar 31 Mawrth 2013 balans y gronfa oedd £600k (£577k yn 2011/12), Roedd gan Sir y Fflint falans incwm heb ei ddefnyddio o £500 (£548 yn 2011/12). Nid yw'r ffigyrau hyn wedi eu hadlewyrchu yn y fantolen.

Mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol yn cynnal cyfrifon banc unigol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw yn y gymuned nad ydynt yn gallu ymdopi â'u materion ariannol oherwydd eu hanalluedd meddyliol; caiff aelodau unigol o'r tîm Dirprwyaeth eu cymeradwyo i weithredu fel penodai corfforaethol gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth. Y cyfanswm a oedd gan y Cyngor ar 31 Mawrth 2013 oedd £3,441k mewn 306 o gyfrifon ar wahân (£2,588k mewn 306 o gyfrifon yn 2011/12).

39. RHWYMEDIGAETHAU WRTH GEFN

- Mae'r Cyngor yn ailystyried ei safle cyfreithiol mewn perthynas â nifer o hawliadau tâl cyfartal a gofnodwyd yn y Tribiwnlys Cyflogaeth. Mae'r rhain yn deillio o ddyfarniadau yn ymwneud ag awdurdodau eraill yn cynnwys Sheffield a Birmingham. Gwnaed cynnig i undebau llafur perthnasol i drafod potensial o ddod i gytundeb ar setlo'r hawliadau. Byddai cost setliadau yn cael ei wneud o gronfa statws sengl/cyflog cyfartal. Gallai dyfarniad Achos Cyngor Dinas Birmingham (2012) gynyddu'r gost atebolrwydd posib gan y gellid gwneud hawliadau hyd at 6 mlynedd yn ôl o gymharu â 6 mis (fel yr arferai fod).

- Daeth gwrandawiad Panel Dyfarnu Cymru mewn perthynas ag Aelod etholedig i ben ar 19 Gorffennaf, 2013 gan arwain at ddiarddel yr Aelod am dorri'r Cod Ymddygiad am 2½ flynedd. Gofynnodd yr Aelod am ganiatâd gan yr Uchel Lys i apelio yn erbyn y penderfyniad, a disgwylir penderfyniad ynglŷn â hyn ym mis Hydref 2013. Yn ddibynnol ar dderbyn caniatâd i apelio, a chanlyniad yr apêl, efallai y bydd gofyn i'r Cyngor dalu dim, peth neu'r cyfan o gostau'r Aelod wrth amddiffyn y gost wreiddiol, nid yw hyn yn cynnwys costau'r Aelod wrth geisio'r hawl i apelio neu yr apêl ei hun.

- Mae grŵp o Gwmnïau Chwilio am Eiddo yn ceisio hawlio ad-daliad gan y Cyngor am ffioedd a dalwyd i'r Cyngor i gael mynediad at ddata pridiannau tir. Nid yw'r broses gyfreithiol wedi cychwyn eto. Cafodd y Cyngor wybod mai swm yr hawliadau hynny ar hyn o bryd yw £186k ynghyd a llog a chostau. Mae'r hawlwyr wedi mynegi'r tebygrwydd y byddant yn hawlio yn erbyn pob awdurdod yng Nghymru a Lloegr ar seiliau ymddygiad gwrth-gystadleuol honedig. Nid yw'n eglur beth fyddai gwerth y fath hawliad yn erbyn y Cyngor. Mae'n bosib y daw hawlwyr eraill i ofyn am y fath ad-daliadau. Ond ar hyn o bryd nid yw'n hysbys bod yno unrhyw hawlwyr o'r fath.

- Fel rhan o 'Strategaeth Archwilio Tir Halogedig' mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn ymgymryd ag ymholiadau amgylcheddol mewn 10 cyn safle gwastraff o fewn y sir. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (gynt yr Asiantaeth Amgylchedd) i sefydlu a oes atebolrwydd posib i gyflawni gwaith adfer angenrheidiol a chostau ôl-ofal.

- Yn dilyn y ddarpariaeth mewn perthynas â'r 'Cynllun Trefniant MMI' yn Nodyn 32 dudalen 55, mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd unrhyw daliadau yn y dyfodol a wneir gan MMI ar ôl gosod yr ardoll gychwynnol yn cael ei wneud ar y gyfradd is o 85% ac mae wedi creu cronfa wrth gefn i ariannu'r 15% y bydd angen i'r Cyngor ei ariannu mewn unrhyw haliad a gaiff ei setlo yn y dyfodol. Mae'r rhagamcaniad o hawliadau yn y dyfodol yn ansicr oherwydd natur cudd llawer o'r hawliadau y mae MMI yn dal i'w derbyn. Mae'r ardoll yn destun adolygiad o leiaf unwaith bob 12 mis gan weinyddwr y cynllun. Er gwaethaf gosod ardoll gychwynnol o 15% ,wrth fodelu rhagamcanion canlyniadau ar gyfer terfyn diddyled MMI, dywedodd y gweinyddwr y gallai'r ardoll amrywio rhwng 9.5% a 28%.

40. ASED POSIBL

Mae'r Cyngor yn parhau i fynd ar drywydd ad-daliadau TAW gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yn dilyn penderfyniadau gan Dŷ'r Arglwyddi yn achosion Fleming (yn masnachu dan yr enw Bodycraft) a Conde Nast Publications Ltd. Yn 1996, cafodd y terfyn amser ar gyfer hawlio TAW a ordalwyd ei leihau i dair blynedd; yn 2008 dyfarnwyd bod diffyg trefniadau pontio yn mynd yn groes i gyfraith y Gymuned, a chafodd y terfyn o dair blynedd ei ddileu. Mae'r ceisiadau unigol yn ymwneud â chyfnodau amrywiol rhwng mis Ebrill 1973 a mis Rhagfyr 1996. Yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl yn achos Compass Contract Services yn 2006, ac yn amodol ar achos presennol Littlewoods yn yr Uchel Lys, bydd y Cyngor yn mynd ar drywydd apeliadau i'r Tribiwnlys Trethi a/neu yn yr Uchel Lys am log cyfansawdd os yw'r ad-daliadau hyd yma wedi'u gwneud gan ychwanegu llog syml yn unig.

41. ASEDAU TREFTADAETH: RHAGOR O WYBODAETH AM Y CASGLIADAU

Archifdai'r Sir

Yn Archifdy Sir y Fflint, mae archifau hanesyddol a gweinyddol Cyngor Sir y Fflint. Mae'r rhain yn cynnwys dwy filltir o gofnodion sy'n dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg hyd heddiw a chânt eu cadw er mwyn sicrhau eu diogelwch ac er mwyn caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth am dreftadaeth y sir.

Mae'r cofnodion a gedwir yn cynnwys cofnodion canolog a lleol ond hefyd cofnodion sy'n eiddo i bobl eraill fel cofnodion ystadau tir, busnesau, cymdeithasau lleol, papurau teuluol etc., ynghyd â nifer o gofnodion yn ymwneud ag eglwysi ac ysgolion Sir y Fflint. Y casgliad preifat mwyaf yw papurau Ystâd Mostyn a'r cyfreithwyr Birch Cullimore, o Gaer (rhan o'u casgliad enfawr o bapurau cleientiaid – y rheini'n ymwneud â Sir y Fflint); mae arwyddocâd yr archifau'n gyffredinol i'w briodoli i'r casgliad yn ei gyfanrwydd, yn hytrach nag i eitemau unigol.

Mae Archifdy Sir y Fflint yn caffael defnyddiau archif yn ymwneud â Sir y Fflint yr ystyrir sydd o ddiddordeb hanesyddol parhaol. Caiff y defnyddiau hyn eu cadw mewn ystafelloedd cryf, diogel ag amgylchedd y gellir ei reoli, a chaiff y cyhoedd eu gweld dan oruchwyliaeth mewn ystafell chwilio. Mae swyddog cadwraeth cymwysedig yn yr Archifdy sy'n pecynnu ac yn trwsio defnyddiau'n ôl yr angen. Anaml iawn y gwaredir defnyddiau archif – pan fydd angen gwneud hynny, cedwir at y yr holl ofynion cyfreithiol perthnasol ac, pan fo hynny'n bosibl, ymgynghorir â'r adneuwr neu'r perchennog gwreiddiol.

Mae'r ystafell chwilio ar agor i'r cyhoedd ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener rhwng 10am a 4.30pm. Mae gwybodaeth am y cofnodion a gedwir (a rhai delweddau) wedi'u cynnwys ar dudalennau'r Archifdy ar wefan Cyngor Sir y Fflint. Mae gwybodaeth hefyd ar nifer o wefannau eraill – archifdy Cymru; y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru; yr Archifdy cenedlaethol, ac mae cynlluniau ar y gweill i roi delweddau ar wefan Casgliad Pobl Cymru.

Amgueddfeydd y Sir

Mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd yn gweithio'n ôl Polisi Caffael a Gwaredu sy'n cydymffurfio â'r Cynllun Achredu Amgueddfeydd Cenedlaethol. Yn fras, mae'r Gwasanaeth yn casglu eitemau sy'n berthnasol i hanes Sir y Fflint yn unig ac nid yw'n cael gwared ar eitemau oni bai bod rhesymau curadurol cadarn dros hynny, a chedwr at ganllawiau llym. Cynllun Rheoli Casgliadau'r Gwasanaeth sy'n rheoli'r modd y gofelir am y casgliad, y modd y caiff ei reoli a'r modd y caiff y cyhoedd ei weld. Mae'r casgliad yn cael ei chatalogio ar system rheoli casgliadau, a fydd ar gael i bawb ar-lein yn y dyfodol agos.

Mae casgliad yr amgueddfeydd wedi'u rhestru'n llawn ar gronfa ddata ac mae'n cynnwys casgliadau hanes cymdeithasol ac archaeolegol yn bennaf. Y casgliad mwyaf arwyddocaol yw Crochenwaith Bwcle – casgliad o oddeutu 1000 o eitemau'n gysylltiedig â diwydiant Crochenwaith Bwcle - sy'n amrywio o'r cyfnod canoloesol i'r ail ryfel byd, a gafwyd yn bennaf gan Dr Fraser yn y 1970au, James Bentley yn y 1990au a chasgliad Martin Harrison yn 2010. Mae Crochenwaith Bwcle o bwys cenedlaethol ac, yn ei gyfanrwydd, y casgliad hwn yw'r mwyaf o'i fath. .

Mae casgliad o eitemau amaethyddol a gafwyd yn bennaf gan Gyngor Bwrdeistref Delyn yn y 1980au, ac mae'r mwyafrif wedi'u rhoi ar fenthyg i Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas ar hyn o bryd. Mae'n arwyddocaol o safbwynt hanes amaethyddiaeth leol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn bennaf ac mae'n cynnwys eitemau mawr fel erydr, dyrnwyr ac offer fferm.

Mae rhywfaint o gelf wedi'i gynnwys yn y casgliad – dros 100 o baentiadau gan James Bentley, sy'n berthnasol i hanes Bwcle, a thua dwsin o baentiadau eraill gan arlunwyr lleol. Mae 2 o baentiadau olew dinesgig mawr yn cael eu harddangos ar hyn o bryd ym Mhencadlys Llyfrgell yr Wyddgrug.

Ymhlith yr archifau archaeoloegol pwysig yw'r rheini a gafwyd wrth gloddio yng Nghastell Caergwrle, Castell y Fflint a Pentre Farm, y Fflint. Mae Casgliad Archaeolegol Gilbert yn cynnwys tua 650 o eitemau a gafwyd gan yr archaeolegwr amatur, Gibert Smith, yn y 1930au. Yr eitemau pwysicaf yw grŵp o arfau o safle canoloesol Llys Edwin, a gloddiwyd yn y 1930au.

Mae mynediad i Amgueddfeydd Bwcle a'r Wyddgrug yn ddi-dâl ac mae'r ddwy ar agor 6 diwrnod yr wythnos. Ymddiriedolaeth elusennol sy'n rheoli Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas ac mae tâl mynediad i'r amgueddfa. Anogir y cyhoedd i fynd i weld casgliadau wrth gefn a rhaid gwneud hynny drwy drefnu apwyntiad.

42. GWEITHREDU AR Y CYD

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu ar y cyd â chynghorau cyfagos yng nghyswllt y pedwar cynllun a ganlyn:-

- Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Gogledd-ddwyrain Cymru (gyda Wrecsam)
- Canolfan Gwastraff Bwyd Gogledd-ddwyrain Cymru (gyda Chonwy a Sir Ddinbych)
- Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (gyda Chyngor Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych)
- Partneriaeth Caffael Gogledd Cymru (gyda Chyngor Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych a Wrecsam)
- Taith [Consortiwm Drafnidiaeth Gogledd Cymru] (gydag Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd a Wrecsam)

Yn Sir y Fflint lleolir Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Gogledd-ddwyrain Cymru (mae'r manylion yn nodyn 15 ar dudalen 45), a Phartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru).

Gwneir datganiadau ar wahân (cydbwyllgor) ar gyfer PTGGGC a Taith. Mae datganiadau cyd bwyllgor PTGGGC 2012/13 yn cofnodi gwariant o £843k [£503k net heb gymhorthdal] (£998k yn 2011/12) gyda gwariant Taith yn £185k (£150k yn 2011/12); mae'r cyfansymiau gwariant net yn cael eu rhannu gan bob partner.

43. DIGWYDDIAD AR ÔL Y FANTOLEN – DIDDYMU AD WASTE LTD

Cyngor Sir y Fflint oedd unig gyfranddaliwr AD Waste Ltd, gan ddal 100 o gyfranddaliadau £1 cyffredin a 354,900 o gyfranddaliadau braint £1 cyffredin. Ar 29 Hydref 2008 penderfynodd Cyngor Sir y Fflint gymryd gweithgareddau'r cwmni yn fewnol.

Cafodd trosglwyddiad masnach ac asedau'r cwmni, am werthoedd teg, ei weithredu ar 30 Medi 2010. Ar yr adeg honno cafodd asedau a rhwymedigaethau fel y'u nodir isod eu trosglwyddo i fantolen Sir y Fflint:

Asedau: eiddo peiriannau ac offer, eiddo buddsoddiadau ac asedau anniriaethol	£4,531k
Rhwymedigaethau: darpariaeth ariannol costau ôl-ofal o safleoedd gwaredu gwastraff sydd wedi cau	(£1,025k)
Net:	£3,506k

Cafodd yr asedau a'r rhwymedigaethau a drosglwyddwyd eu gwrthbwyso ar fantolen Sir y Fflint o dan gytundeb trosglwyddo benthyciad rhyng-gwmni yn unol â rheolau prisiau trosglwyddo y DU sy'n ymwneud â thrafodion rhwng grwpiau, trwy gyfrwng:

Benthyciadau ad-daladwy yn ôl y gofyn	(£4,531k)
Dyledwyr byr dymor	£1,025k
Benthyciad rhyng-gwmni	(£3,506k)

Deilliodd llog cronedig ar sail dyddiol o'r benthyciad rhyng-gwmni ac ar gyfradd flynyddol o 5% yn uwch na'r gyfradd sail, ac ar 31 Mawrth, 2013 roedd yn £328k .

Cafodd AD Waste Ltd ei ddiddymu'n wirfoddol ar 29 Mehefin, 2012, gyda'r disgwyliad y byddai'r broses o ddirwyn y cwmni ben yn cymryd rhwng 6 i 18 mis. Ar adeg cynhyrchu cyfrifon drafft Sir y Fflint nid oedd y broses wedi cael ei chwblhau, yn dilyn hynny cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol terfynol y cwmni ar 11 Medi, 2013 gan arwain at ddigwyddiad ôl-fantolen yr oedd angen ei addasu.

Yn ystod y broses diddymu mae'r diddymwyr wedi gwneud 3 dosbarthiad. Gwnaed y dosbarthiad heb fod yn arian cyntaf ar 23 Gorffennaf 2012 trwy wrthgyfrifo'r asedau gwarged a'r benthyciad rhyng-gwmni am werth o £3,834k (yn cynrychioli £3,506k o fenthyciad rhyng-gwmni a llog o £328k ar y benthyciad) a oedd yn cyfateb i gyfradd o £10.79 i bob cyfranddaliad. Gwnaed dosbarthiadau arian pellach ar 21 Rhagfyr 2012 (£600k) a dosbarthiad terfynol ar 24 Gorffennaf, 2013 (£ 271k).

Mae gwerthoedd y benthyciad rhyng-gwmni, llog ar y benthyciad, y cyfranddaliadau, a dosbarthiadau'r diddymwyr i gyd wedi cael eu casglu yn y cyfrif gwireddu diddymiad gyda'r balans yn dangos cynnydd net o £4,220k wedi'i wireddu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Trwy gydol y broses ddiddymu mae'r Cyngor wedi bod yn adolygu'r ddarpariaeth ariannol ar gyfer costau ôl-ofal safleoedd gwaredu gwastraff blaenorol yn rheolaidd ac wedi cynyddu'r ddarpariaeth i £1,091k yn unol â'r cytundebau amgylcheddol gydag Adnoddau Naturiol Cymru.

Cafodd yr asedau trosglwyddo eu hailbrisio ar 31 Mawrth 2013 er mwyn diweddaru gwerthoedd yr asedau ar y fantolen o brisiad Medi 2010, gan ddod â hwynt yn ôl i fod yn unol â pholisïau prisio asedau'r Cyngor. Cyfanswm gwerth diwygiedig yr asedau yw £1,798k sydd wedi arwain at gofnodi gostyngiad net o £2,733k yn y llinell Cost Net Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr; gan adlewyrchu faint o amser sydd wedi mynd heibio ers i'r asedau gael eu prisio ddiwethaf a'r defnydd sydd wedi'i wneud o'r asedau yn ystod y prisiadau .

44. ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Mae adolygiad o'r holl wariant cyfalaf a ddelir ar y fantolen wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Er ei fod yn bodloni'r diffiniad cyfalaf o wella gwariant (o ran natur y gwariant a gafwyd), penderfynwyd bellach nad yw'r gwariant yn welliant yn nhermau prisio h.y. nid yw'r gwariant cyfalaf a gafwyd wedi cynyddu prisiad yr asedau eiddo, peiriannau ac offer / eiddo buddsoddi y mae'n gysylltiedig â hwynt. Yn unol â hynny mae gwerthoedd mantolen 2011/12 wedi cael eu lleihau drwy gyfrwng addasiad cyfnod blaenorol.

Effaith yr addasiad cyfnod blaenorol yw tâl £12,752k ychwanegol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, yn seiliedig ar y gwerthoedd asedau a gafodd eu hailddatgan ac a nodir yn y tabl isod:-

	Cyfrifon 2011/12 Gwreiddiol £000	Cyfrifon 2011/12 wedi'u Hailddatgan £000	Amrywiad £000
Eiddo, Peiriannau ac Offer	303,972	291,283	12,689
Eiddo Buddsoddiadau	28,172	28,109	63
Cyfanswm	**332,144**	**319,392**	**12,752**

Mae'r addasiad yn cael ei ddilyn drwodd mewn ffigurau cymharol cysylltiedig ar gyfer 2011/12 o fewn y Datganiad Cyfrifon.

45. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llifoedd arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu, sef £8,649k (£11,972k yn 2011/12), yn cynnwys yr elfennau llog a ganlyn:

	2013 £000	2012 £000
Llog a dderbyniwyd	606	607
Llog a dalwyd	(10,063)	(6,446)

46. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

	2013 £000	2012 £000
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(29,482)	(30,420)
Prynu buddsoddiadau byr dymor a hir dymor	(6,125)	(2,613)
Taliadau eraill am weithgareddau buddsoddi	(523)	(565)
Elw o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	4,909	2,622
	0	0
Elw o fuddsoddiadau byr dymor a hir dymor	2,013	0
Derbyniadau eraill am weithgareddau buddsoddi	18,114	17,939
Llifoedd arian net o weithgareddau buddsoddi	(11,094)	(13,037)

47. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU ARIANNU

	2013 £000	2012 £000
Derbyniadau arian o fenthyciadau byr dymor a hir dymor	0	324
Derbyniadau eraill o weithgareddau ariannu	0	0
Taliadau arian ar gyfer lleihau'r rhwymedigaeth sy'n weddill sy'n ymwneud a phrydlesi cyllid	0	(451)
Ad-dalu benthyciadau byr dymor a hir dymor	(1,658)	(66)
Taliadau eraill am weithgareddau ariannu	(486)	0
Llifoedd arian net o weithgareddau ariannu	(2,144)	(193)

DATGANIAD INCWM A GWARIANT Y CYFRIF REFENIW TAI

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

	2013		2012	
	£000	£000	£000	£000
Gwariant				
Atgyweirio a chynnal a chadw		8,471		9,111
Rheoli a goruchwylio		3,077		3,058
Rhenti, ardrethi, trethi a thaliadau eraill		1,116		997
Cymhorthdal taladwy o ran y cyfrif refeniw tai		6,168		6,311
Dibrisiant ac amhariad yng nghyswllt asedau nad ydynt yn rhai cyfredol		15,974		23,861
Costau rheoli dyledion		13		15
Cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion		166		272
Cyfanswm gwariant		**34,985**		**43,625**
Incwm				
Rhenti anheddau (gros)	25,387		24,316	
Rhenti safleoedd heblaw anheddau (gros)	296		286	
		25,683		24,602
Taliadau am wasanaethau a chyfleusterau		757		610
Cyfanswm incwm		**26,440**		**25,212**
Cost net gwasanaethau y cyfrif refeniw tai fel y mae wedi ei gynnwys yn natganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yr awdurdod cyfan		**8,545**		**18,413**
Cyfran y cyfrif refeniw tai o symiau eraill sydd wedi eu cynnwys yng Nghost Net Gwasanaethau ond na chwasanteu dyrannu i wasanaethau penodol		124		136
Cost net gwasanaethau y cyfrif refeniw tai		**8,669**		**18,549**
Llog taladwy a thaliadau tebyg		1,491		1,436
Incwm buddsoddi y cyfrif refeniw tai		(10)		(9)
Cost llog pensiynau ac elw disgwyliedig ar asedau pensiwn		414		373
Cyfanswm (gwarged)/diffyg ar Ddatganiad Incwm a Gwariant y cyfrif refeniw tai		**10,564**		**20,349**

DATGANIAD O SYMUDIADAU YN Y CYFRIF REFENIW TAI

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

Mae'r datganiad hwn yn dangos sut y mae'r gwarged/diffyg yn Natganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn yn cysoni â'r gwarged/diffyg ar gyfer y flwyddyn yn y Cyfrif Refeniw Tai Statudol.

	Nodyn (o nodiadau craidd)	2013 £000	2012 £000
Ar 1 Ebrill 2012		1,890	1,614
Gwarged/(diffyg) ar ddatganiad incwm a gwariant y cyfrif refeniw tai		(10,564)	(20,349)
Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr		**(10,564)**	**(20,349)**
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido dan reoliadau	**7**	10,605	20,625
Cynnydd/(gostyngiad) net cyn trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi		**41**	**276**
Trosglwyddiadau i/(o) gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi		0	0
Cynnydd/(gostyngiad) yn ystod y flwyddyn ar y cyfrif refeniw tai		**41**	**276**
Ar 31 Mawrth 2013		1,931	1,890

1. DEDDFWRIAETH

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, yn adlewyrchu rhwymedigaeth statudol i roi cyfrif ar wahân am ddarpariaethau tai awdurdod lleol. Mae'n dangos prif elfennau'r gwariant refeniw ar dai – gwaith cynnal a chadw, ad-daliadau rhent, gwaith gweinyddu – a chostau ariannu cyfalaf, a sut y telir am y rhain drwy gyfrwng rhenti, cymorthdaliadau ac incwm arall.

2. STOC TAI

Dyma nifer yr anheddau a'u math ar 31 Mawrth 2013 were :-

Math	2013 Nifer	2012 Nifer
Tai	4,073	4,084
Fflatiau	1,375	1,376
Maisonettes	191	199
Byngalos	1,796	1,796
	7,435	7,455

3. ÔL-DDYLEDION RHENT

Mae cyfanswm y rhenti, sef £1,254k (£1,173k yn 2011/12) yn cynnwys, yn ychwanegol at yr elfen rent sylfaenol, symiau sy'n ddyledus am drethi dŵr/carthffosiaeth, taliadau gwresogi, yswiriant cartref, trwyddedau teledu cyffredin a threth ar werth ar rai rhenti garejis. Nid oes modd nodi'r elfennau rhent unigol hyn ar wahân i'r cyfanswm.

Dadansoddiad o ôl-ddyledion	2013 £000	2012 £000
Rhent		
Tenantiaid cyfredol	768	848
Cyn-denantiaid	486	325
	1,254	1,173

Darpariaeth ar gyfer colledion oherwydd amhariadau (drwgddyledion)	£000	£000
Darpariaeth agoriadol	645	481
Dilewyd yn ystod y flwyddyn	(61)	(108)
Cynnydd yn y ddarpariaeth	166	272
	750	645

4. CYFRIFYDDU ASEDAU NAD YDYNT YN ASEDAU CYFREDOL

Ariannu Cyfalaf

Cafodd gwariant cyfalaf y cyfrif refeniw tai, sef £10,742k (£10,348k yn 2011/12) ei ariannu fel a ganlyn :-

	Derbyniadau Cyfalaf	Cyfraniadau a Grantiau Cyfalaf	Cyfraniadau Refeniw	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Ariannau cyfalaf	808	5,242	4,692	10,742
	808	5,242	4,692	10,742

Lwfans Atgyweiriadau Mawr

Cynhwysir yng nghyfanswm y cyfraniadau a'r grantiau cyfalaf (£5,242k) y swm a ddyrannwyd ar gyfer atgyweiriadau mawr yn 2012/13, sef £5,200k (£5,200k yn 2011/12 hefyd). Caiff y swm a ddyrannwyd ar gyfer atgyweiriadau mawr ei gynnwys yng ngrantiau'r llywodraeth – llinell gyffredinol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cafodd y grant hwn gan Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio'n llawn yn 2012/13 i ariannu gwariant cyfalaf cymwys.

Derbyniadau Cyfalaf

Gwireddwyd derbyniadau cyfalaf gros gwerth £806k (£325k yn 2011/12) drwy werthu anheddau, gwerthu tir, gwerthu perchnogaeth a rennid ac ad-dalu morgeisi :-

	2013	2012
	£000	£000
Anheddau'r cyngor	608	318
Morgeisi	7	7
Gwerthu tir	191	0
	806	325

Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant llinell syth ar bob ased ac iddo oes ddefnyddiol gyfyngedig, nad yw'n ased cyfredol yn y cyfrif refeniw tai, ac eithrio tir nad oes modd ei ddibrisio. Seilir y swm o £5,214k (£5,220k yn 2011/12) ar brisiadau mantolen net agoriadol 2012/13 (rhestr brisio namyn dibrisiant cronnus) gan ragdybio nad oes dim gwerthoedd gweddilliol.

	2013	2012	
	£000	£000	
Anheddau	5,196	5,200	(yn cyfateb i werth Lwfans Atgyweiriadau Mawr)
Garejys	12	10	
Peiriannau a chyfarpar	6	10	
	5,214	5,220	

Colledion oherwydd amhariadau a gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud

Rhoddwyd cyfrif am gyfanswm o £10,742k, yn y Cyfrif Refeniw Tai yn 2012/13 (£1,808k yn 2011/12) ar gyfer addasiadau oherwydd amhariadau ar anheddau, y gwariant refeniw a gyllidwyd o gyfalaf dan statud oedd dim yn (£50k yn 2011/12).

DULL RHEOLI AC AELODAETH CRONFA BENSIYNAU CLWYD

Caiff Cronfa Bensiynau Clwyd ei gweinyddu gan Gyngor Sir y Fflint, sef yr awdurdod arweiniol. Ystyrir a chytunir ar strategaeth fuddsoddi a gweinyddu'r Gronfa bob chwarter gan Banel Cronfa Bensiynau Clwyd, sy'n cynnwys pum Aelod etholedig, y Pennaeth Cyllid, Rheolwr Cronfa Bensiynau Clwyd, ymgynghorydd y Gronfa, ac aelod o'r cynllun sy'n sylwedydd. Yn ystod 2012/13 cafodd trefniadau rheoli buddsoddiadau'r Gronfa eu gweithredu gan bymtheg o reolwyr buddsoddi.

Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) statudol a sefydlwyd i ddarparu buddion marwolaeth a buddion ymddeol i weithwyr llywodraeth leol yng ngogledd-ddwyrain Cymru heblaw athrawon, heddweision ac ymladdwyr tân. Yn ogystal derbyniwyd cyrff cymwys eraill sy'n darparu gwasanaethau tebyg i wasanaethau awdurdodau lleol yn aelodau o'r CPLlL, ac yn aelodau o'r Gronfa hefyd felly.

Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn gweithredu cynllun buddion diffiniedig lle caiff buddion ymddeol eu hariannu gan gyfraniadau ac enillion buddsoddi. Gwneir cyfraniadau gan aelodau gweithredol yn unol â Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 ac maent yn amrywio o rhwng 5.5% a 7.5% o dâl pensiynadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013. Ceir cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr a bennir ar sail prisiad o'r gronfa gan yr actwari bob tair blynedd. Cafodd y gronfa ei brisio ddiwethaf ar 31 Mawrth 2010. Rhagnodir buddion y cynllun yn genedlaethol yn ôl Rheoliadau a waned o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cynhelir y prisiad actiwaraidd nesaf ar 31 Mawrth 2013, mae canfyddiadau'r a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2014.

Caiff y gronfa ei llywodraethu gan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 a'i gweinyddu'n unol â'r is-ddeddfwriaeth a ganlyn:

- Rheoliadau CPLlL (Buddion, Aelodau a Chyfraniadau) 2007 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau CPLlL (Gweinyddu) 2008 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau CPLlL (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009

Mae aelodaeth yn wirfoddol a dyma'r cyrff sy'n rhan o Gronfa Bensiynau Clwyd:

- Cyrff rhestredig, sy'n awdurdodau lleol a chyrff tebyg y mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r gronfa.
- Cyrff a dderbyniwyd, sef cyrff sy'n rhan o'r gronfa o dan gytundeb rhwng y gronfa a'r corff perthnasol. Mae'r cyrff a dderbyniwyd yn cynnwys contractwyr gwirfoddol, elusennol ac ati sy'n ymgymryd ag un o swyddogaethau awdurdod lleol a gafodd ei roi ar gontract allanol i'r sector preifat.

Dyma aelodaeth y Gronfa ar 31 Mawrth 2013:-

	2013 Nifer	**2012 Nifer**
Cyfranwyr	14,920	14,519
Pensiynwyr		
Cyn-weithwyr	8,386	8,071
Gweddwon/dibynyddion	1,488	1,482
Buddion a ddiogelwyd	7,539	7,386
Cyfanswm yr aelodau	32,333	31,458

Dyma'r cyrff rhestredig a gyfrannodd at y Gronfa yn ystod 2012/13 :-

Siroedd:	Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam.
Colegau:	Prifysgol Glyndŵr, Coleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Iâl Wrecsam.
Cynghorau cymuned:	Argoed, Coedpoeth, Cei Connah, Penarlâg, Rhosllannerchrugog, Bwcle, Prestatyn, Offa, Yr Wyddgrug, Parc Caia, Y Rhyl, Shotton, Llanasa.
Eraill:	Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru.

Dyma'r cyrff a dderbyniwyd ac sy'n cyfrannu i'r Gronfa:-

Eraill:	Gyrfa Cymru, Cartref y Dyffryn Ceiriog, Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Clwyd Leisure, Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan, Grosvenor Facilities Management.

Mae cynnwys y cyfrifon yn cydymffurfio â safonau cyfrifo, ond mae mwy o wybodaeth ar gael yn Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi Cronfa Bensiynau Clwyd, a gyflwynir bob blwyddyn i'r Cydgyfarfod Ymgynghorol Blynyddol ar gyfer cyflogwyr a chynrychiolwyr aelodau ym mis Tachwedd.

SAIL Y BROSES O BARATOI'R CYFRIFON A'R POLISÏAU CYFRIFYDDU

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13 a'i sefyllfa ar ddiwedd 31 Mawrth 2013. Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012/13 sydd wedi'i seilio ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn ystyried rhwymedigaeth i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae gwerth actiwariaid presennol y buddion ymddeol a addawyd, a brisiwyd ar sail Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 yn cael ei ddatgelu yn Nodyn 15 yn y cyfrifon hyn.

I grynhoi, dyma fanylion y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd:

- Caiff cyfraniadau, buddion ac incwm buddsoddi sy'n ddyledus ar 31 Mawrth eu cynnwys ar sail croniadau.
- Caiff buddsoddiadau eu cynnwys yn y cyfrifon yn ôl eu gwerth ar y farchnad, ar sail y pris cynnig fel rheol.
- Caiff dyledwyr a chredydwyr eu llunio ar gyfer pob swm sy'n ddyledus ar 31 Mawrth.
- Mae gwerthoedd trosglwyddo unigol a dderbyniwyd ac a dalwyd wedi'u cyfrifo ar sail arian parod.
- Mae gwerthoedd trosglwyddo swmpus a dalwyd wedi'u cyfrifo ar sail croniadau.
- Nid yw'r datganiadau ariannol yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ôl y cyfnod cyfrifo yr adroddir yn ei gylch.
- Caiff treuliau rheoli buddsoddiadau eu cyfrifyddu ar sail croniadau ac maent yn cynnwys y ffioedd a dalwyd ac sy'n ddyledus i reolwyr a cheidwad y Gronfa, ffioedd actiwaraidd a ffioedd ymgynghorwyr mesur perfformiad a buddsoddi.
- Mae treuliau gweinyddu wedi'u cyfrifyddu ar sail croniadau. Codir holl gostau staff yn uniongyrchol ar y gronfa a chaiff costau rheoli, lletya a gwasanaethau cymorth eraill eu dosrannu i'r Gronfa yn unol â pholisïau'r Cyngor.
- Mae costau caffael buddsoddiadau yn cynnwys holl gostau uniongyrchol trafodion, a chaiff derbyniadau gwerthiant eu dangos heb gynnwys holl gostau uniongyrchol trafodion.

	Nodyn	2013 £000	2013 £000	2013 £000	2012 £000	2012 £000	2012 £000
Cyfraniadau a Buddion							
Cyfraniadau derbyniadwy							
Gan gyflogwyr	1	52,294			50,654		
Gan weithwyr neu aelodau	1	14,381			14,315		
			66,675			64,969	
Trosglwyddwyd i mewn		4,735			4,952		
Incwm arall		1,411			1,636		
			6,146			6,588	
				72,821			71,557
Buddion taladwy							
Pensiynau	1	44,717			41,563		
Cyfandaliadau (ymddeol)	1	10,859			10,844		
Cyfandaliadau (grantiau marwolaeth)	1	1,401			1,382		
			56,977			53,789	
Taliadau i'r rhai a adawodd y cynllun neu o'i herwydd							
Ad-dalu cyfraniadau		8			12		
Trosglwyddwyd allan (unigol)		1,544			3,034		
Trosglwyddwyd allan (swmp)	10	0			23,530		
Arall		52			96		
Costau gweinyddol a threuliau eraill	2	1,047			1,244		
			2,651			27,916	
				59,628			81,705
YCHWANEGIADAU NET (TYNNWYD ALLAN)				13,193			(10,148)
Elw ar Fudsoddiadau							
Incwm buddsoddiadau	4		2,397			3,326	
Newid yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad	4		110,113			21,097	
Treuliau rheoli buddsoddiadau	2		(5,294)			(5,267)	
ELW NET AR FUDDSODDIADAU				107,216			19,156
(GOSTYNGIAD)/CYNNYDD NET AR Y CYNLLUN				120,409			9,008
ASEDAU NET AGORIADOL				1,060,823			1,051,815
ASEDAU NET WRTH GAU'R CYFRIFON				1,181,232			1,060,823

	Nodyn	2013 £000	2012 £000
Datganiad Asedau Net			
Asedau Buddsoddiadau :	**5**		
Cronfa llog sefydlog a reolir		175,148	170,075
Cronfeydd ecwiti y DU a reolir		122,222	104,624
Cronfeydd ecwiti tramor a reolir		391,597	334,145
Cronfeydd amlstrategaeth a reolir		120,380	118,080
Cronfeydd eiddo		82,260	75,307
Cronfeydd seilwaith		23,907	23,414
Cronfeydd Coed / Amaeth		20,511	14,686
Cronfeydd nwyddau		34,588	36,879
Cronfeydd ecwiti preifat		138,137	122,317
Cronfa Ymddiogelu Cronfeydd		47,070	47,321
Benthyciadau wedi'u trosoli		0	530
Cronfeydd Oportiwnaidd		5,910	0
Asedau buddosddiadau eraill	**9**	0	3
Arian Parod	**7**	17,331	36,476
Rhwymedigaethau Buddsoddiadau			
Rhwymedigaethau buddsoddiadau eraill	**9**	874	0
Asedau Cyfredol :			
Dyledus cyn pen 1 flwyddyn	**8**	3,845	3,703
Dyledus dros 1 flwyddyn	**8**	0	200
Rhwymedigaethau cyfredol	**8**	(2,548)	(26,937)
ASEDAU NET AR 31 MAWRTH		1,181,232	1,060,823

1. DADANSODDIAD O GYFRANIADAU I'W DERBYN/BUDDION I'W TALU

Y cyfraniadau yw'r symiau hynny sydd i'w derbyn gan wahanol awdurdodau cyflogi parthed eu cyfraniadau eu hunain a chyfraniadau gweithwyr pensiynadwy. Roedd cyfanswm y cyfraniadau a dderbyniwyd gan gyflogwyr yn ystod 2012/13 yn cyfateb i £52.294m (£50.654m yn 2011/12).

Roedd y swm hwnnw'n cynnwys £26.717m (£26.663m yn 2011/12) a oedd yn ymwneud â'r gyfradd gyfrannu gyffredin o 11.7% a delir gan bob cyflogwr, a £25.577m (£23.991m yn 2011/12) a oedd yn ymwneud â'r cyfraddau addasedig unigol a chyfraniadau ychwanegol a delir mewn perthynas â chyllido diffygion ar gyfer cyflogwyr unigol.

Cafodd buddion sydd i'w talu a chyfraniadau a ad-dalwyd eu cynnwys yn y cyfrifon ar sail yr holl hawliadau dilys a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.

Gwelir dadansoddiad o gyfraniadau a dderbyniwyd a buddion i'w talu isod:-

	Buddion sy'n daladwy	Cyfraniadau derbyniadwy
Cyrff Rhestredig -	**£000**	**£000**
Cyngor Sir y Fflint	19,494	22,566
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	18,614	20,262
Cyngor Sir y Ddinbych	12,960	16,107
Dosrannwyd y gronfa gyda		
Chynghorau Sir Gwynedd a Phowys	2,459	0
Colegau	1,836	4,423
Ysgolion	107	77
Cynghorau Cymuned	166	222
Eraill - cyrff rhestredig	540	1,165
Eraill - cyrff a dderbyniwyd	1,078	1,853
	57,254	66,675

Dim ond adlewyrchu'r ffigurau sydd yn y cyfrifon a wna'r uchod. Mae amgylchiadau pob un o'r cyrff a restrir yn wahanol am amrywiaeth o resymau (proffiliau cyfraniadau a phensiynwyr, cyfraddau cyfrannu gweithwyr, profiad o ymddeoliadau cynnar ac ati) ac mae llunio cymariaethau uniongyrchol yn ddiystyr i raddau helaeth felly.

Mae gan Gyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Ddinbych rwymedigaeth gydnabyddedig, yn eu cyfrifon eu hunain, dros gyfraniadau pensiwn ar sail yr elfen ôl-dâl yn eu cytundebau cyflog cyfartal. Fodd bynnag, oherwydd ansicrwydd ynghylch yr ansicrwydd yn ymwneud â gwerth ac amseriad y taliadau hyn, nid yw'r symiau hyn wedi'u cynnwys eto yng nghyfrifon y Gronfa Bensiynau.

2. TREULIAU RHEOLI BUDDSODDIADAU A GWEINYDDU

Mae'r rheoliadau'n caniatáu i'r Cyngor Sir godi cost gweinyddu'r cynllun ar y Gronfa. Mae ffioedd y rheolwyr allanol wedi'u cyfrifyddu ar sail yr hyn sydd yn eu cytundeb rheoli.

Caiff cost gweinyddu pensiynau a rheoli buddsoddiadau ei dangos isod:-

	2013 £000	2012 £000
Treuliau Gweinyddu		
Costau Gweithwyr	630	567
Gwasanaethau Cymorth	161	189
Cyflenwadau a gwasanaethau	135	395
Ffioedd Archwilio	35	35
Ffioedd yr actiwari	86	58
	1,047	1,244
Treuliau Buddsoddi		
Ffioedd Rheoli'r Gronfa	5,187	5,155
Ffioedd Gwarchod	15	39
Ffioedd Monitro Perfformiad	24	24
Ffioedd Ymgynghorwyr	68	49
	5,294	5,267
Cyfanswm Ffioedd	6,341	6,511

Caiff ffioedd rheoli buddsoddiadau eu seilio ar brisiadau'r buddsoddiadau. Mae'r Gronfa wedi'i buddsoddi mewn cronfeydd cyfun, a chaiff mwyafrif eu ffioedd eu codi o fewn y Cronfeydd. Er mwyn gweithredu'n agored, mae'r Gronfa yn datgelu'r ffioedd hynny. Roedd y ffioedd a gafodd eu cynnwys yn y Cronfeydd Cyfun yn cyfateb i £5.3m yn ystod y flwyddyn (£4.9m yn ystod 2011/12).

3. BUDDSODDIADAU A PHERFFORMIAD

Ceir rhagor o fanylion am y strategaeth fuddsoddi yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi sydd ar gael drwy gysylltu â'r Pennaeth Cyllid, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NA (gwefan: www.clwydpensionfund.org.uk neu ffôn: 01352 702264).

Mae'r Cyngor Sir yn defnyddio gwasanaethau perfformiad buddsoddiadau Cwmni WM. Dangosodd adroddiad y cwmni ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012/13 fod y Gronfa wedi gwneud elw cyffredinol o+10.0% o'i buddsoddiadau (+2.4% yn 2011/12). Mae hynny'n cymharu ag elw meincnod o +9.2% ar gyfer y flwyddyn.

4. DADANSODDIAD O DRAFODION AC ELW AR FUDDSODDIADAU

Trosolwg

Mae'r Gronfa'n buddsoddi unrhyw warged sydd ganddi mewn asedau trwy ystod eang o reolwyr. Mae'r prif fuddsoddiadau hyn i gyd yn digwydd trwy gronfeydd cyfun lle mae'r Gronfa yn un o nifer o fuddsoddwyr a lle caiff yr arian cyfun ei fuddsoddi ar sail gyffredin. Er hynny, ymhlith asedau amgen y Gronfa ceir un neu ddau o ddaliannau a ddyfynnir. At ei gilydd, fodd bynnag, nid oes gan y Gronfa ddaliannau uniongyrchol o safbwynt soddgyfrannau, bondiau, eiddo, cwmnïau ecwiti preifat, nwyddau neu offerynnau ariannol eraill.

Trafodion ac Elw ar Fuddsoddiadau

Isod gwelir manylion trafodion buddsoddi 2012/13 a'r elw net o £8.854m (£7.907m yn 2011/12) ynghyd ag incwm buddsoddi o £2.397m (£3.326m yn 2011/12). Yr oedd yr elw nas gwireddwyd ar gyfer 2012/13, o ganlyniad i newid yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad, yn cyfateb i £101.259m (£13.190m yn 2011/12). Y cynnydd yng ngwerth buddsoddiadau (a wireddwyd ac nas gwireddwyd) ar y farchnad felly yw £110.113m (£21.097m yn 2011/12).

Caiff costau uniongyrchol trafodion eu cynnwys yng nghost prynu ac enillion o werthu. Costau trafodion yw costau ychwanegol y mae modd eu priodoli'n uniongyrchol i waith caffael a gwerthu buddsoddiad. Maent yn cynnwys ffioedd a thaliadau comisiwn a delir i asiantiaid, ymgynghorwyr, broceriaid a delwyr, ardollau gan asiantaethau rheoleiddio a chyfnewidfeydd gwarannau, a threthi a thollau trosglwyddo. Cânt eu hychwanegu at gostau prynu neu'u gosod yn erbyn enillion o werthu, fel y bo'n briodol. Ni ellir dangos y costau unigol hyn yn uniongyrchol gan fod Cronfa Bensiynau Clwyd yn cael ei buddsoddi bron yn gyfan gwbl drwy gronfeydd cyfun. Mae incwm buddsoddi yn cynnwys difidendau cyfranddaliadau, llog ar fuddsoddiadau ac incwm net o rentu eiddo. Gwneir croniadau ar gyfer difidendau sydd i'w derbyn, llog sydd i'w dderbyn a threth y gellir ei hadennill ar ddifidendau.

	Gwerth ar y Farchnad 2011/12	Pryniadau ac ychwanegiadau	Gwerthiannau a didyniadau	Elw a wireddwyd (Colled)	Elw heb ei wireddu (Colled)	Gwerth ar y Farchnad 2012/13	Incwm Buddsoddiadau
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Gwarannau a llog sefydlog	170,075	0	(10,000)	2,382	12,691	175,148	0
Ecwitiau y DU - Goddefol	104,624	0	0	0	17,598	122,222	0
Ecwitiau Tramor Gweithredol	245,992	12,537	(4,857)	1,980	32,726	288,379	11
Ecwitiau Tramor Goddefol	88,152	0	0	0	15,066	103,218	0
Amlstrategaeth	118,080	123	0	0	2,177	120,380	0
Eiddo	75,307	6,704	(5,358)	(2,816)	8,423	82,260	1,837
Seilwaith	23,414	5,086	(7,979)	2,510	876	23,907	250
Coed	14,686	4,761	(170)	0	1,234	20,511	0
Nwyddau	36,879	0	0	0	(2,291)	34,588	0
Ecwiti Preifat	122,318	19,636	(15,461)	1,221	10,424	138,137	164
Oportiwnaidd	0	5,782	0	0	128	5,910	11
Cronfa Ymddiogelu Cronfeydd	47,321	0	(1,283)	40	978	47,930	0
Benthyciadau wedi'u trosoli	530	0	(53)	(1,880)	1,403	0	0
	1,047,378	54,629	(45,161)	3,437	101,433	1,162,590	2,273
Arian Parod	36,476	0	0	0	0	17,331	0
Ffioedd mewn cronfeydd cyfun	0	0	0	5,300	0	0	0
Llog	0	0	0	0	0	0	124
Arian cyfred	0	0	0	(57)	0	0	0
	36,476	0	0	5,243	0	17,331	124
Cyfanswm 2012/13	1,083,854	54,629	(45,161)	8,680	101,433	1,179,921	2,397
2011/12	1,051,611	230,350	(152,119)	7,907	13,190	1,083,854	3,326

	Gwerth ar y Farchnad 2010/11	Pryniadau ac ychwanegiadau	Gwerthiannau a didyniadau	Elw a Wireddwyd (Colled)	Elw heb ei wireddu (Colled)	Gwerth ar y Farchnad 2011/12	Incwm Buddosddiadau
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Gwarannau a llog sefydlog	123,024	27,129	0	0	19,922	170,075	0
Ecwitiau'r DU Gweithredol	63,659	0	63,935	(6,407)	6,683	0	97
Ecwitiau'r DU Goddefol	97,724	5,000	0	0	1,900	104,624	0
Ecwitiau Tramor Gweithredol	174,219	101,434	25,160	1,384	(5,884)	245,992	106
Ecwitiau Tramor Goddefol	89,147	5,000	5,917	917	(995)	88,152	0
Amlstrategaeth	88,318	29,109	(13)	(13)	652	118,080	0
Eiddo	65,317	13,241	4,743	(1,377)	2,869	75,307	1,903
Seilwaith	20,753	4,444	2,319	0	536	23,414	268
Coed	12,212	2,671	413	0	216	14,686	0
Nwyddau	39,814	21,000	20,786	744	(3,893)	36,879	0
Ecwiti Preifat	112,563	21,322	12,394	2,063	(1,237)	122,318	796
Cronfa Ymddiogelu Cronfeydd	50,646	0	918	99	(2,506)	47,321	13
Benthyciadau wedi'u trosoli	16,346	0	15,547	4,308	(4,577)	530	0
	953,742	230,350	152,119	1,718	13,686	1,047,378	3,183
Arian Parod	97,373	0	0	0	0	36,476	0
Contractau Dyfodolion	496	0	0	1,345	(496)	0	0
Ffioedd o fewn Cerbydau a Rennir	0	0	0	4,927	0	0	0
Llog	0	0	0	0	0	0	143
Arian Cyfred	0	0	0	(83)	0	0	0
	97,869	0	0	6,189	(496)	36,476	143
Cyfanswm 2011/12	1,051,611	230,350	152,119	7,907	13,190	1,083,854	3,326
2010/11	953,195	698,740	771,446	44,275	35,690	1,051,611	2,898

5. GWERTH BUDDSODDIADAU AR Y FARCHNAD (AC EITHRIO ARIAN A BLAENDRAFODION)

£948.212m yw cost y buddsoddiadau ar bapur ar 31 Mawrth (£936.363m yn 2011/12. £1,161.730m yw gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2013 (£1,047.378m yn 2011/12) a gellir eu dadansoddi fel a ganlyn.

Yn ôl Cyfandir

Mae'r daliannau yn y DU ar 31 Mawrth 2013 yn cyfateb i 17% o gyfanswm y buddsoddiadau yn ôl gwerth ar y farchnad.

	2013	2012
	£000	£000
Y DU	203,154	188,638
Ewrop	142,201	123,678
Asia Môr Tawel	119,172	102,693
Gogledd America	116,680	87,017
Marchnadoedd sy'n datblygu	91,714	73,290
Buddsoddiadau Byd-eang	488,809	472,062
	1,161,730	1,047,378

Yn ôl Rheolwr Cronfa

	2013		2012	
	£000	%	£000	%
BlackRock	56,385	5	58,295	6
Wellington	117,468	10	110,168	11
Aberdeen	93,876	8	72,862	7
State Street (Transition Manager)	0	0	134	0
Pioneer	2,001	0	2,974	0
Liongate	21,358	2	21,467	2
SSARIS	23,711	2	22,880	2
Duet	48,826	4	47,227	5
BlueCrest	31,470	3	29,309	3
Investec	62,797	5	52,480	5
Stone Harbor	175,148	15	170,075	16
SSgA	225,440	19	192,776	18
Pyrford	32,525	3	30,476	3
Eiddo	82,260	7	75,307	7
Seilwaith	23,907	2	23,414	2
Coed / Amaeth	20,511	2	14,686	1
Ecwiti Preifat	138,137	12	122,318	12
Oportiwnaidd	5,910	1		
Benthyciadau wedi'u trosoli	0	0	530	0
	1,161,730	100	1,047,378	100

Yn ôl buddsoddiadau Rhestredig/Rheoledig

	2013			2012		
	Rhestredig a reolwyd	Rhestredig	Anrhestredig	Rhestredig a reolwyd	Rhestredig	Anrhestredig
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Gwarannau a llog sefydlog	0	0	175,148	0	0	170,075
Ecwitiau y DU	122,222	0	0	104,624	0	0
Ecwitiau Tramor	328,800	0	62,797	281,531	134	52,480
Amlstrategaeth	120,380	0	0	118,080	0	0
Eiddo	29,107	0	53,153	43,615	0	31,691
Seilwaith	0	4,764	19,143	0	4,287	19,127
Coed / Amaeth	0	0	20,511	0	0	14,686
Nwyddau	0	0	34,588	0	0	36,879
Ecwiti Preifat	0	3,446	134,691	0	4,170	118,148
Cronfa Ymddiogelu Cronfeydd	21,358	0	25,712	21,467	0	25,854
Oportiwnaidd	0	0	5,910	0	0	0
Benthyciadau wedi'u trosoli	0	0	0	0	0	530
	621,867	8,210	531,653	569,317	8,591	469,470
			1,161,730			1,047,378

6. GWERTH TEG BUDDSODDIADAU

Offerynnau ariannol

Er mai prin iawn y bydd y Gronfa'n buddsoddi mewn unrhyw beth ond cronfeydd cyfun, mae rheolwyr y cronfeydd hynny'n buddsoddi mewn amrywiaeth o offerynnau ariannol gan gynnwys adneuon, offerynnau ecwiti a ddyfynnir, gwarannau llog sefydlog, daliannau eiddo uniongyrchol, cynnyrch ecwiti anrhestredig, blaendrafodion nwyddau a deilliadau eraill. Mae hynny'n golygu bod y Gronfa'n agored i amrywiaeth o risgiau ariannol gan gynnwys risg o ran credyd a phartïon eraill cytundebau, risg o ran hylifedd, risg o ran y farchnad a risg o ran y gyfradd gyfnewid.

Benthyca stoc yw'r hyn a wna un buddsoddwr wrth fenthyca gwarannau penodol i fuddsoddwr arall, gan gadw'r hawl i barhau i dderbyn incwm a gynhyrchir gan y stoc ynghyd â thaliad ychwanegol gan y sawl sy'n cael ei fenthyg. Caiff lefel y risg ei lleihau wrth i'r sawl sy'n cael benthyg y stoc ddarparu sicrwydd cyfochrog o safon (arian parod, gwarannau neu stociau ymyl aur). Gweithgaredd masnachu i gynhyrchu incwm ydyw i bob pwrpas, yn hytrach na buddsoddiad. Nid yw'r Gronfa yn ymwneud yn uniongyrchol â benthyca stoc, ond mae rheolwr ecwiti goddefol y Gronfa yn defnyddio'r arfer o fenthyca stoc yn ei gronfeydd cyfun er mwyn cynhyrchu incwm i'w roi yn erbyn costau trafodion.

Gwerth teg – Seiliau Prisio

Caiff buddsoddiadau eu dangos yn y cyfrifon yn ôl eu gwerth teg ar 31 Mawrth 2013, ar sail y canlynol:

- Caiff gwarannau rhestredig yn y DU a thramor eu prisio o fewn y cronfeydd cyfun priodol gan ddefnyddio'r prisiau cynnig swyddogol a ddyfynnwyd ar y gyfnewidfa stoc berthnasol. Caiff daliannau tramor eu trosi i sterling ar sail cyfradd gyfnewid a ddyfynnwyd pan gaeodd y marchnadoedd ar 31 Mawrth 2013.
- Caiff unedau buddsoddi eu prisio ar sail y pris cynnig ar y farchnad.
- Caiff cronfeydd cyfun eraill eu prisio ar bwynt cynnig y broses ddiweddaraf a ddyfynnwyd gan eu rheolwyr neu'u gweinyddwyr cronfa priodol ar 31 Mawrth 2013. Os nad oes pris cynnig ar gael, caiff yr asedau eu prisio ar sail y gwerth net a ddarparwyd ar gyfer yr ased.
- Caiff cronfeydd eiddo eu prisio ar sail y pris cynnig ar y farchnad, sydd wedi'i seilio ar brisiad annibynnol rheolaidd o ddaliannau eiddo gwaelodol y gronfa gyfun.
- Mae daliannau ecwiti preifat yn fuddiannau mewn partneriaethau cyfyngedig. Mae'n bwysig cydnabod bod y broses o bennu gwerth teg y buddsoddiadau hyn yn un hynod oddrychol. Mae wedi'i seilio'n annatod at amcangyfrifon a barn sy'n cynnwys nifer o ffactorau. Caiff y daliannau hyn eu prisio ar sail cyfran y Gronfa o asedau net y bartneriaeth yn ôl y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd gan y rheolwyr priodol. Os nad yw'r prisiadau hyn yn cyd-daro â dyddiad mantolen y Gronfa, caiff y prisiadau eu haddasu gan ystyried y prynu a'r gwerthu diweddaraf, gwerth asedau a gwybodaeth ariannol arall sydd ar gael adeg paratoi'r datganiadau hyn, er mwyn adlewyrchu dyddiad mantolen y Gronfa. Caiff datganiadau prisio'r rheolwyr eu paratoi yn unol â Chanllawiau Cymdeithas Cyfalaf Menter ac Ecwiti Preifat Ewrop (EVCA), heb gynnwys y llog a ddygir. Mae'r rhain yn cynnwys protocol FAS157 yr Unol Daleithiau ar ddulliau prisio sy'n seiliedig ar –

    - Y farchnad – mae'n defnyddio prisiau a data perthnasol arall a gynhyrchir gan drafodion y farchnad, sy'n cynnwys yr un asedau/rhwymedigaethau'n union neu asedau/rhwymedigaethau cyffelyb (e.e. lluosrifau arian)
    - Incwm – mae'n defnyddio technegau prisio i drosi symiau y disgwylir eu cael yn y dyfodol yn un swm cyfredol (enillion neu lifau arian gostyngol)
    - Cost – wedi'i seilio ar y swm y byddai ei angen ar hyn o bryd i gymryd lle'r capasiti gwasanaeth sy'n perthyn i ased (wedi'i addasu ar gyfer darfodiant).

    Mae gofyn i reolwyr ddefnyddio'r dull sy'n briodol yn yr amgylchiadau a'r dull y defnyddir digon o ddata ar ei gyfer, a defnyddio'r dull hwnnw'n gyson tan nad yw'n briodol mwyach. Mae hefyd yn bosibl defnyddio sawl dull neu gyfuniad o ddulliau. Mae'r rhan fwyaf o reolwyr ecwiti preifat yn defnyddio cyfuniad o ddulliau "marchnad" a dulliau "incwm".

- At ei gilydd, caiff buddsoddiadau isadeiledd eu dwyn ar sail cost neu werth teg, pa un bynnag un sydd isaf, ac eithrio lle ceir prisiadau penodol am i fyny neu am i lawr. Mae rheolwyr yn defnyddio eu doethineb wrth amcangyfrif gwerth teg, gan ystyried y canllawiau EVCA a nodwyd uchod ar gyfer prisio buddsoddiadau heb eu dyfynnu. Ni chaiff prisiadau am i fyny eu hystyried oni bai bod yr amcanion buddsoddi wedi'u dilysu a bod modd dangos cynnydd o'r fath. Os yw'r rheolwr o'r farn bod diffyg ar y buddsoddiad gwaelodol, caiff prisiadau am i lawr eu gweithredu ni waeth ym mha gyfnod y mae'r buddsoddiad.
- Caiff buddsoddiadau coetir eu dwyn ar sail gwerth net yr ased fel y pennwyd gan y Partner Cyffredinol. Gan amlaf, bydd gwerth teg yn deillio o'r datganiadau ariannol archwiliedig a ddarperir gan y rheolwyr neu'r cronfeydd gwaelodol. Os nad oes datganiadau ariannol archwiliedig ar gael hyd 31 Mawrth, bydd y prisiadau'n deillio o adroddiadau chwarterol anarchwiliedig y rheolwyr neu'r cronfeydd gwaelodol. Os yw'r buddsoddiadau coetir yn rhai uniongyrchol yn hytrach nag yn fuddsoddiadau a wnaed trwy reolwyr gwaelodol, caiff y prisiadau eu seilio ar brisiad annibynnol rheolaidd o'r daliannau hyn.
- Caiff cyswllt â nwyddau ei reoli'n weithredol trwy ddefnyddio offerynnau deilliadol dros y cownter ac offerynnau deilliadol a gaiff eu prynu a'u gwerthu ar gyfnewidfa (Blaendrafodion, Opsiynau a Chyfnewidiadau) a rhai gwarannau. Caiff deilliadau a gaiff eu prynu a'u gwerthu ar gyfnewidfa eu prisio gan ddefnyddio ffeil gwerthwr a gaiff ei hanfon yn ddyddiol o Bloomberg gydag IDC yn ail ffynhonnell. Daw'r prisiau hyn yn uniongyrchol o'r cyfnewidfeydd deilliadau. Caiff opsiynau eu prisio ar sail y pris masnachu olaf ar y brif gyfnewidfa. Os na cheir masnach mewn opsiwn, defnyddir y pris cynnig i brisio'r opsiwn. Daw prisiadau ar gyfer opsiynau dros y cownter o froceriaid/delwyr sydd fel rheol yn barti i'r cytundeb. Os yw'r mewnbynnau angenrheidiol ar gael gan werthwyr ar restr sy'n caniatáu prisio ar yr un diwrnod, gellir prisio opsiynau dros y cownter gan ddefnyddio cyfrifwr opsiynau a ddarperir gan y gwerthwr, a chan ddefnyddio pris y deliwr i ddilysu canlyniadau'r model. Caiff arian sy'n weddill ei fuddsoddi'n bennaf mewn rhwymedigaethau dyled ar ffurf doleri'r UD, sydd o radd fuddsoddi ac sydd dros gyfnod byr.
- Caiff cronfeydd o gronfeydd ymddiogelu a chronfeydd ymddiogelu amlstrategaeth eu prisio bob mis i greu gwerth asedau net ar sail cyfran gymesur y Gronfa o werth y cronfeydd cyfun gwaelodol, fesul rheolwr. At ei gilydd, mae gwerth teg buddsoddiad y Gronfa mewn cronfa gyfun gysylltiedig yn cyfateb i'r swm y gallai'r Gronfa ddisgwyl yn rhesymol ei gael o'r gronfa gyfun pe bai buddsoddiad y Gronfa'n cael ei adbrynu ar ddyddiad y prisiad, ar sail y wybodaeth a oedd ar gael yn rhesymol adeg paratoi'r prisiad ac y mae'r Gronfa o'r farn ei bod yn ddibynadwy.
- Mae cronfeydd dyrannu asedau'n dactegol yn fyd-eang (GTAA) yn buddsoddi'n bennaf mewn marchnadoedd nad ydynt wedi'u seilio ar gyfnewidfeydd. Mae'r rhain yn cynnwys marchnadoedd dros y cownter neu farchnadoedd lle mae delwyr yn masnachu â'i gilydd, a chaiff trosoledd ei ddefnyddio'n sylweddol gan gronfeydd o'r fath. Os nad oes prisiau ar y farchnad ar gael neu os nad ydynt yn adlewyrchu'r prisiau cyfredol ar y farchnad, bydd y Gronfa'n defnyddio'i pholisïau prisio ei hun gan gyfeirio at y prisiau perthnasol sydd ar gael i bennu gwerth teg yr asedau a ddelir.

Gwerth teg – Hierarchaeth

Mae prisiant offerynnau ariannol wedi'i ddosbarthu ar sail tair lefel ddosbarthu'n ôl safon a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg.

Lefel 1

Yr offerynnau ariannol ar Lefel 1 yw'r rheini y mae eu gwerth teg yn deillio o brisiau heb eu haddasu a ddyfynnwyd mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer yr un asedau neu rwymedigaethau unfath. Mae cynhyrchion Lefel 1 yn cynnwys ecwitïau a ddyfynnwyd, gwarannau a ddyfynnwyd â llog sefydlog ac ymddiriedolaethau unedol. Dangosir buddsoddiadau rhestredig yn ôl pris cynnig.

Lefel 2

Yr offerynnau ariannol ar Lefel 2 yw'r rheini lle nad oes prisiau wedi'u dyfynnu ar y farchnad, er enghraifft, os yw offeryn yn cael ei fasnachu mewn marchnad nad ystyrir ei bod yn weithredol, neu os defnyddir dulliau prisio i bennu gwerth teg ac mae'r dulliau hynny'n defnyddio mewnbynnau sydd wedi'u seilio'n sylweddol ar ddata marchnad y gellir ei weld.

Lefel 3

Yr offerynnau ariannol ar Lefel 2 yw'r rheini sydd ag o leiaf un mewnbwn a allai gael effaith sylweddol ar brisiant offeryn nad yw wedi'i seilio at ddata marchnad y gellir ei weld. Yr offerynnau hyn fyddai buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu a chronfeydd o gronfeydd ymddiogelu, a gaiff eu prisio drwy ddefnyddio dulliau prisio amrywiol sy'n galw am farn sylweddol wrth bennu rhagdybiaeth briodol.

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos sefyllfa asedau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2013 a 31 Mawrth 2012 ar sail yr hierarchaeth hon.

	Gwerth ar y Farchnad 2012/13	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3
	£000	£000	£000	£000
Gwarannau a llog sefydlog	175,148	70	175,078	0
Ecwitiau y DU - Goddefol	122,222	121,366	856	0
Ecwitiau Tramor Gweithredol	288,379	281,460	420	6,499
Ecwitiau Tramor Goddefol	103,218	102,495	723	0
Amlstrategaeth	120,380	64,504	55,876	0
Eiddo (1)	82,260	0	0	82,260
Seilwaith (1)	23,907	4,764	0	19,143
Coed Amaeth (1)	20,511	0	0	20,511
Nwyddau	34,588	14,496	20,092	0
Ecwiti Preifat (2)	138,137	3,446	0	134,691
Cronfa Ymddiogelu Cronfeydd	47,070	0	43,997	3,073
Cronfeydd Oportiwnaidd	5,910	0	0	5,910
	1,161,730	592,601	297,042	272,087
Arian Parod	17,331	17,331	0	0
Cyfanswm 2012/13	1,179,061	609,932	297,042	272,087

(1) Eiddo/Isadeiledd/Coed – defnyddir seiliau prisio amrywiol. Caiff daliannau uniongyrchol cronfeydd eu prisio ar sail prisiadau annibynnol, ond yn aml bydd gan gronfeydd fuddiannau'n ymwneud â mentrau ar y cyd a phartneriaethau, y defnyddir amrywiaeth o ddulliau i'w prisio. Er mwyn bod yn geidwadol, mae'r holl gronfeydd wedi'u dosbarthu i gategori Lefel 3, oni bai bod y gronfa ei hun yn un sydd wedi'i dyfynnu.

(2) Ecwiti preifat – defnyddir seiliau prisio amrywiol – cost, prisiau a ddyfynnwyd (wedi'u gostwng yn aml ar gyfer cyfnodau "cloi"), lluosrifau trafodion, lluosrifau marchnad, enillion o sylweddu yn y dyfodol, rhagolygon cwmni, barn trydydd parti ac ati. Yn aml, bydd prisiadau cwmnïau a chronfeydd yn adlewyrchu cyfuniadau o'r seiliau prisio hyn. Er mwyn bod yn geidwadol, mae'r holl gronfeydd wedi'u dosbarthu i gategori Lefel 3, oni bai bod y gronfa ei hun yn un sydd wedi'i dyfynnu.

Er nad yw'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau'r Gronfa wedi'u rhestru, mae buddsoddiadau gwaelodol y cronfeydd hynny wedi'u rhestru. O fewn y benthyciadau Ecwiti Preifat a'r Benthyciadau wedi'u Trosoli a'r portffolios Eiddo/Seilwaith/Coed, er bod rhai wedi'u rhestru, mae gan y Gronfa ddaliannau sylweddol mewn buddsoddiadau heb eu dyfynnu (£262.515m) o'i gymharu â £227.798m yn 2011/12. Caiff y rhain eu prisio yn ôl gwerth teg gan reolwyr cronfeydd drwy ddefnyddio sylfaen brisio briodol. Mae'r prisiadau'n dibynnu i raddau helaeth ar farn, ac oherwydd natur oddrychol ac amrywiol y prisiadau mae'n fwy tebygol na fyddai'r prisiadau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol yn cael eu gwireddu pe baent yn cael eu gwerthu. Gallai'r gwahaniaeth fod yn sylweddol uwch neu is.

Yn ystod y cyfnod ar ôl cau a pharatoi'r cyfrifon, daw rhagor o fanylion i law am werth buddsoddiadau Eiddo, Ecwiti Preifat, Seilwaith, Benthyciadau wedi'u Trosoli a Choed yn y Gronfa. Amcangyfrifir bod tanbrisiant o £0.899m (£2.297m yn 2011/12) yng ngwerth y Gronfa. Mae'r tabl isod yn dangos y prisiadau a nodir yn y cyfrifon hyn ar gyfer y pedwar categori buddsoddi ynghyd â'r prisiadau diweddaraf a gafwyd.

	2013 Adroddwyd £000	2013 Diweddarwyd £000
Cronfeydd eiddo	82,260	82,382
Cronfeydd seilwaith	23,907	24,130
Cronfeydd Coed /Amaeth	20,511	20,531
Cronfeydd oportiwnaidd	5,910	5,943
Cronfeydd ecwiti preifat	138,137	138,639

	Gwerth ar y Farchnad 2011/12 £000	Lefel 1 £000	Lefel 2 £000	Lefel 3 £000
Gwarannau a llog sefydlog	170,075	323	169,752	0
Ecwitiau y DU Gweithredol	0	0	0	0
Ecwitiau y DU Goddefol	104,624	0	104,624	0
Ecwitiau Tramor Gweithredol	245,992	234,896	9,736	1,360
Ecwitiau Tramor Goddefol	88,152	0	88,152	0
AmIstrategaeth	118,080	65,671	52,351	58
Eiddo (1)	75,307	0	0	75,307
Seilwaith (1)	23,414	4,287	0	19,127
Coed (1)	14,686	0	0	14,686
Nwyddau	36,879	18,635	18,244	0
Ecwiti Preifat (2)	122,318	4,170	0	118,148
Cronfa Ymddiogelu Cronfeydd	47,321	0	39,545	7,776
Benthyciadau wedi'u trosoli	530	0	0	530
	1,047,378	327,982	482,404	236,992
Arian Parod	36,476	36,476	0	0
Cyfanswm 2011/12	1,083,854	364,458	482,404	236,992

7. RISGIAU BUDDSODDI

Fel y dangosir uchod, mae gan y Gronfa fudd mewn amrywiaeth o offerynnau ariannol gan gynnwys adneuon, offerynnau ecwiti a ddyfynnir, gwarannau llog sefydlog, daliannau eiddo uniongyrchol, cynnyrch ecwiti anrhestredig, blaendrafodion nwyddau a deilliadau eraill. Mae hynny'n golygu bod y Gronfa'n agored i amrywiaeth o risgiau ariannol gan gynnwys risg o ran credyd a phartïon eraill cytundebau, risg o ran hylifedd, risg o ran y farchnad a risg o ran y gyfradd gyfnewid.

Gweithdrefnau Rheoli Risg

Mae'r prif bwerau buddsoddi wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009, a than y rheoliadau mae'n ofynnol i Awdurdod Gweinyddu fuddsoddi unrhyw arian o'r gronfa bensiwn nad oes ei angen yn syth i wneud taliadau o'r Gronfa Bensiwn. Dan y rheoliadau hynny, rhaid i'r Gronfa Bensiwn lunio polisi ar gyfer buddsoddi arian y gronfa.

Mae gweithdrefnau rheoli risg cyffredinol yr Awdurdod Gweinyddu yn canolbwyntio ar natur anwadal y marchnadoedd arian a gweithredu cyfyngiadau i leihau'r risgiau hynny. Bob blwyddyn, bydd y Gronfa Bensiwn yn adolygu ei Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi a'r Datganiad Strategaeth Ariannu cyfatebol, sy'n egluro polisi'r Gronfa Bensiwn ar faterion megis y math o fuddsoddiadau i'w dal, y cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o fuddsoddiadau, cyfyngiadau ar fuddsoddiadau a'r modd y caiff risg ei rheoli. Mae'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi a'r Datganiad Strategaeth Ariannu i'w gweld ar wefan y Gronfa (www.clwydpensionfund.org.uk) yn yr adran "Llywodraethu a Buddsoddiadau".

Mae'r Gronfa'n adolygu ei strwythur yn ffurfiol o leiaf unwaith bob 4 blynedd, ac fel rheol bydd yn gwneud hynny bob 3 blynedd. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf yn 2010 ac fe'i gweithredwyd ym mis Ebrill 2011. Mae model optimeiddio'r Gronfa, a ddefnyddir i helpu i bennu meincnod strategol y Gronfa, yn awgrymu y dylai'r cymysgedd o asedau a bennwyd felly, ynghyd â'r gofynion i reolwyr cronfeydd penodol berfformio'n well na mynegeion eu marchnad, arwain at elw hirdymor o ychydig dros 9% gydag ansefydlogrwydd o ryw 10%. Mae ystyried risg yn elfen allweddol yn y broses adolygu hon, ac ers nifer o flynyddoedd mae'r Gronfa wedi dilyn polisi o leihau risg trwy amrywio buddsoddiadau ar draws dosbarthiadau o asedau, rhanbarthau buddsoddi a rheolwyr cronfeydd. At hynny, mae gan asedau amgen eu gofynion amrywio eu hunain a rhoddir rhai enghreifftiau isod.

- ecwiti preifat – yn ôl cyfnod, daearyddiaeth a blwyddyn fuddsoddi gyntaf os na ddefnyddir cronfeydd o gronfeydd
- eiddo - yn ôl math, proffil risg, daearyddiaeth a blwyddyn fuddsoddi gyntaf (ar gronfeydd caeedig)
- isadeiledd – yn ôl math (cynradd/eilaidd), daearyddiaeth a blwyddyn fuddsoddi gyntaf
- cronfeydd ymddiogelu – cronfeydd amlstrategaeth neu gronfeydd o gronfeydd

Risg o ran Rheolwyr

Mae'r Gronfa hefyd wedi'i hamrywio'n dda yn ôl rheolwyr, ac nid yw'r un rheolwr unigol yn rheoli mwy na 15% o asedau'r Gronfa. Wedi i reolwyr cronfeydd gael eu penodi dirprwyir y pŵer iddynt, trwy gytundeb rheoli buddsoddiadau, i brynu a gwerthu fel y gwelant yn dda dan y mandad perthnasol. Mae gan bob mandad feincnod neu darged i'w gyflawni neu i ragori arno, ar sail cyfnodau treigl o 3 blynedd fel rheol. Mae'n ofynnol i bob rheolwr gyflwyno diweddariad, bob chwarter o leiaf, a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd â rheolwyr i drafod eu mandadau a'u perfformiad o safbwynt pob un. Mae'r trefniadau ychydig yn wahanol yn achos rhai o'r asedau amgen. O ran ecwiti preifat, eiddo, isadeiledd a choed/amaeth, mae'r buddsoddiad yn benodol i gronfa yn hytrach nag i reolwr, a chaiff cronfeydd penodol eu dewis gan y tîm mewnol gan ddangos diwydrwydd dyladwy gofalus.

Mae'r ymrwymiadau hyn yn tueddu i fod yn llai na'r buddsoddiadau sy'n perthyn i'r prif ddosbarthiadau o asedau, ond unwaith eto caiff adroddiadau ar berfformiad eu cyflwyno'n rheolaidd a chaiff buddsoddiadau o'r fath eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn gyda rheolwyr.

Risg o ran Credyd

Risg o ran credyd yw'r risg y bydd parti arall mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni rhwymedigaeth neu ymrwymiad y mae wedi cytuno iddi/iddo gyda'r Gronfa. Fel y nodir uchod mae'r Gronfa'n buddsoddi'n bennaf drwy gronfeydd cyfun, ac mae nifer o'r rhain yn ymwneud â phrynu a gwerthu deilliadau o wahanol fathau, gan gynnwys blaendrafodion, cyfnewidiadau ac opsiynau. Er nad yw'r dulliau hyn o brynu a gwerthu'n effeithio'n uningyrchol ar y Gronfa ei hun ac nad yw, felly, yn wynebu risg uniongyrchol o ran credyd, mae'n amlwg bod unrhyw drafodion sy'n ymwneud â deilliadau yn golygu rhyw elfen o risg, a phe bai un o bartïon y gronfa gyfun yn methu, gallai hynny gael effaith negyddol ar werth y gronfa gyfun, a daliant y Gronfa hefyd felly. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r diwydrwydd dyledus gweithredol a gyflawnir mewn perthynas â rheolwr posibl cyn ei benodi yn ymwneud ag ansawdd prosesau risg y rheolwr hwnnw yng nghyswllt partïon.

cytundebau, a cheisir cael sicrwydd bod y prosesau hynny'n lleihau'r risg i'r Gronfa o ran risg. Wedi iddynt gael eu penodi, mae'n ofynnol i reolwyr ddarparu copïau o'u hadroddiadau blynyddol ar reolaeth fewnol at ddibenion adolygu er mwyn sicrhau bod y safonau a ddisgwylir yn cael eu cynnal.

Ni chaiff arian ei adneuo mewn banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod wedi'u safoni'n annibynnol a'u bod yn bodloni meini prawf sylfaenol y Cyngor o ran credyd.

Yn amodol ar ofynion llif arian, gellir adneuo arian yn y canlynol:

- Cyfrif band y Gronfa Bensiynau gyda Banc National Westminster Bank ar gyfer hylifedd dyddiol
- Cyfrif adnau National Westminster sy'n rhyddhau arian ar ôl rhybudd o 180 o ddiwrnodau
- Cronfa Money Market AAA ar gyfer gofynion hylifedd annisgwyl neu gyfraddau enillion uwch.

Mae'r Gronfa'n credu ei bod wedi rheoli risg posibl o ran credyd ac nid yw wedi wynebu achosion o ddiffygdalu neu adneuon na ellir eu casglu yn ystod y tair blynedd ariannol ddiwethaf. Daliannau arian parod y Gronfa ar 31 Mawrth 2013 oedd £17.331m (£36.476m ar 31 Mawrth 2012) ac fe'u dosbarthwyd fel a ganlyn:

	Safon	2013 £000	2012 £000
Cronfeydd marchnadoedd arian			
BlackRock	AAA	478	476
Bank of New York Mellon	AAA	979	665
Cyfrifon Cadw Banc			
National Westminster Bank PLC	AA	15,850	32,553
Cyfrifon Cyfredol Banc			
National Westminster Bank PLC	AA	24	2,782
		17,331	36,476

O fewn y Gronfa, bondiau a rhai o'r categorïau asedau amgen yw'r meysydd y rhoddir sylw iddynt o safbwynt risg o ran credyd.

- Caiff portffolio bondiau'r Gronfa ei reoli heb gyfyngiadau, ac mae credyd, benthyciadau a dyledion egin-farchnadoedd yn dylanwadu arno. Ar 31 Mawrth 2012, roedd gan y Gronfa fondiau nad ydynt o radd fuddsoddi gwerth £56.5 miliwn neu 33.2% o'r portffolio llog sefydlog (30.4% ar 31 Mawrth 2011).
- O ran ecwiti preifat ac isadeiledd, mae bron y cyfan o fuddsoddiadau'r Gronfa yn perthyn i ecwiti'r cwmnïau dan sylw.
- At hynny, mae gan y Gronfa ddaliannau gweddillol sydd mewn cyfrif ar wahân gyda rhai rheolwyr sy'n gaeth ar hyn o bryd. Mae manylion y daliannau hyn i'w gweld isod hefyd:

	Cost Llyfr	Gwerth ar y Farchnad
	£000	£000
Cronfa Ymddiogelu Cronfeydd - Pioneer	1,548	2,001
Cyfanswm	1,548	2,001

Risg o ran Hylifedd

Erbyn hyn, mae gan y Gronfa Bensiwn ei chyfrif banc ei hun. Risg o ran hylifedd, yn ei hystyr symlaf, yw'r risg na fydd y Gronfa yn gallu bodloni ei rhwymedigaethau ariannol pan fyddant yn ddyledus, yn enwedig taliadau pensiwn i'w haelodau. Ar lefel strategol mae'r Awdurdod Gweinyddu, ynghyd â'r actwari sy'n ymgynghorydd iddo, yn adolygu sefyllfa'r Gronfa bob tair blynedd er mwyn sicrhau bod modd i'r Gronfa fodloni ei holl rwymedigaethau'n briodol. At hynny, mae'n hanfodol cynllunio llif arian yn barhaus o safbwynt cyfraniadau, taliadau buddion, incwm buddsoddi a galwadau/dosraniadau cyfalaf. Mae hynny'n digwydd, a chaiff sefyllfa'r Gronfa ei diweddaru yn llawer mwy rheolaidd na hynny.

Gan edrych yn benodol ar fuddsoddiadau, mae'r Gronfa trwy ei rheolwyr yn dal cyfuniad o asedau hylifol, asedau lled-hylifol ac asedau caeth. Er bod gan reolwyr buddsoddi'r Gronfa bwerau dewisol sylweddol yng nghyswllt eu portffolios unigol a'r modd y maent yn rheoli eu sefyllfa o ran arian, mae ganddynt yn eu cronfeydd cyfun lawer iawn o warannau hylifol iawn y gellir eu sylweddu yn hawdd, megis soddgyfrannau a bondiau a ddyfynnir ar y prif gyfnewidfeydd stoc. Erbyn hyn, mae soddgyfrannau a bondiau traddodiadol yn cyfateb i 58% o werth y Gronfa, ac er y bydd rhai elfennau ychydig yn llai hylifol yn y ffigurau hyn (dyled a soddgyfrannau egin-farchnadoedd, er enghraifft), mae'r cronfeydd sy'n buddsoddi yn y gwarannau hyn yn cynnig cyfleoedd i brynu a gwerthu bob mis ar y gwaethaf – ac yn aml bob wythnos neu bob pythefnos.

Mae'r sefyllfa'n fwy cymysg yn achos asedau amgen. Er bod un neu ddwy o gronfeydd a ddyfynnir i'w cael yma, mae gan y rhan fwyaf ohonynt eu telerau hylifedd eu hunain, neu yn achos eiddo, mae rheolau adbrynu yn berthnasol iddynt. I bob pwrpas mae cronfeydd caeedig, megis y rhan fwyaf o gronfeydd ecwiti preifat a rhai cronfeydd eiddo ac isadeiledd, yn gaeth am gyfnod penodedig y gronfa (10 mlynedd fel rheol), er y gellir eu gwerthu ar y farchnad eilaidd, am bris gostyngol fel rheol.

Mae'r tabl isod yn dadansoddi gwerth buddsoddiadau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2012 yn ôl proffil hylifedd.

	Gwerth ar y Farchnad 2012/13	1 Mis	2 - 3 Mis	3 - 6 Mis	6 - 12 Mis	Wedi cau - wedi dod i ben	Wedi'u cloi
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Gwarannau a llog sefydlog	175,148	175,148	0	0	0	0	0
Ecwitiau Goddefol y DU	122,222	122,222	0	0	0	0	0
Ecwitiau Tramor Gweithredol	288,379	284,137	4,242	0	0	0	0
Ecwitiau Tramor Goddefol	103,218	103,218	0	0	0	0	0
Amlstrategaeth	120,380	120,380	0	0	0	0	0
Eiddo	82,260	0	0	0	29,107	53,153	0
Seilwaith	23,907	4,764	0	0	0	19,143	0
Coed	20,511	0	0	0	0	20,511	0
Nwyddau	34,588	34,588	0	0	0	0	0
Ecwiti Preifat	138,137	3,446	0	0	0	134,691	0
Cronfa Ymddiogelu Cronfeydd	47,070	0	0	45,069	0	0	2,001
Cronfeydd oportiwnaidd	5,910	0	0	0	0	5,910	0
	1,161,730	847,903	4,242	45,069	29,107	233,408	2,001

Dylid nodi bod gwahanol reolau talu yn berthnasol i wahanol fuddsoddiadau a ddyfynnir, ond fel rheol bydd taliadau/derbyniadau yn ddyledus cyn pen 7 diwrnod i'r dyddiad prynu/gwerthu. Gan fod y Gronfa'n defnyddio cronfeydd cyfun ar gyfer buddsoddiadau a ddyfynnir, bydd dyddiadau prynu a gwerthu bob dydd, bob wythnos, bob pythefnos neu bob mis yn berthnasol iddynt yn aml. Mae pob buddsoddiad o'r fath wedi'i ddynodi'n fuddsoddiad "cyn pen 1 mis" at ddibenion dadansoddi hylifedd. Mae rheolau adbrynu yn berthnasol i gronfeydd eiddo penagored, a bennir gan eu byrddau rheoli. Mae gan lawer ohonynt adbryniadau chwarterol, ond gellir dal y rhain yn ôl mewn marchnadoedd anodd er mwyn peidio â gorfodi gwerthu a pheri anfantais i fuddsoddwyr parhaus. At ddibenion dadansoddi hylifedd defnyddiwyd dull ceidwadol, ac mae pob buddsoddiad o'r fath wedi'i ddynodi'n fuddsoddiad "cyn pen 6-12 mis".

Mae cronfeydd caeedig wedi'u dynodi'n gaeth at ddibenion dadansoddi hylifedd. Fodd bynnag, mae patrwm llif arian y cronfeydd caeedig hynny'n wahanol iawn i fuddsoddiadau traddodiadol, gan mai dim ond wrth wneud y buddsoddiadau gwaelodol y caiff yr arian a neilltuwyd ei dynnu i lawr (fel rheol dros gyfnod o 5 mlynedd) a chaiff dosraniadau eu dychwelyd cyn gynted ag yr ymadewir â'r buddsoddiadau gwaelodol (mor gynnar â'r bedwaredd flwyddyn yn aml).

O ran llif arian, felly, dim ond uchafswm o ryw 60-70% o'r swm a neilltuwyd y bydd y llif arian net ar gyfer cronfa o'r fath yn ei gyrraedd, ac fel rheol bydd dosraniadau cronnol yn fwy na'r symiau cronnol a dynnwyd i lawr ymhell cyn diwedd y cyfnod a bennwyd, gan fod y cronfeydd hyn yn rheolaidd yn cynnig elw sydd 1½ i 2½ gwaith yn fwy na'r arian a fuddsoddwyd. Ar yr un pryd, bu'n arfer gan y Gronfa fuddsoddi arian yn rheolaidd bob blwyddyn, ac felly mae blwyddyn fuddsoddi gyntaf y cronfeydd sy'n weithredol yn amrywio o 1997 i 2013. Felly, er bod yr holl arian hwn wedi'i ddynodi'n gaeedig a'i fod felly'n gaeth ar sail ei "oes 10 mlynedd" arferol, mae hynny'n golygu bod llawer ohono'n nes i'w ddyddiad aeddfedu nag y mae'r dynodiad cyffredinol yn ei awgrymu.

Fel y gwelir o'r tabl, hyd yn oed o ddefnyddio'r sail geidwadol a amlinellir uchod, byddai modd sylweddu oddeutu 74% o'r portffolio cyn pen 1 mis a sylweddu 73% cyn pen 1 mis.

Risg o ran y Farchnad

Risg o ran y farchnad yw'r risg y bydd newidiadau ym mhris y farchnad yn arwain at amrywiadau yng ngwerth teg neu lif arian sefydliad ariannol yn y dyfodol. Mae'r Gronfa'n agored i'r risg o golled ariannol o ganlyniad i newid yng ngwerth ei buddsoddiadau, a'r perygl o ganlyniad i hynny y bydd ei hasedau'n methu â chynnig enillion yn unol â'r enillion a ragwelwyd sy'n sail i'r prisiad o'i rhwymedigaethau dros y tymor hir. Mae dwy elfen yn perthyn i risg o ran y farchnad –

- Y risgiau sy'n gysylltiedig ag ansefydlogrwydd ym mherfformiad y dosbarth o asedau (beta);

- Y risgiau sy'n gysylltiedig â gallu rheolwyr i symud oddi wrth bwysiadau mynegai a chynhyrchu alffa, os caniateir iddynt wneud hynny, gan wrthbwyso risg beta trwy ragori ar berfformiad y farchnad.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o sefyllfa'r Gronfa yng nghyswllt risg o ran y farchnad ar 31 Mawrth 2013, trwy ddangos y swm a fuddsoddwyd ym mhob dosbarth o asedau a thrwy bob rheolwr ym mhob un o'r prif ddosbarthiadau o asedau, y mynegai a ddefnyddiwyd fel meincnod, y targed a bennwyd ar gyfer rheolwyr yn erbyn y meincnod hwnnw, ac uchafswm ansefydlogrwydd (neu risg) targed rheolwyr yn erbyn mynegai wrth gyflawni hynny.

Mae'r ansefydlogrwydd targed hwn yn mesur graddau eithaf gwasgaru canlyniadau tebygol o'u cymharu â'r meincnod a ddewiswyd.

	Manager	Gwerth ar y Farchnad 2012/13 £000	Meincnod	Targed (Gros)	Risg (<) %
Gwarannau a llog sefydlog	Stone Harbor	175,148	FT All Stocks	+1.5%	4.0
Ecwitiau y DU - goddefol	SSgA	122,222	FTSE All Share	Match	0.5
Ecwitiau tramor - gweithredol	Investec	62,797	MSCI AC World NDR	+3.5%	10.0
	Aberdeen	85,042	MSCI AC Asia/P ex Japan	+3.0%	12.0
	Aberdeen	8,834	MSCI Frontier Markets	+3.0%	12.0
	Wellington	82,880	MSCI EM Free	+2.5%	8.0
	Duet	48,826	Absolute	+8-10%	3.0
Ecwitiau tramor - goddefol	SSgA	31,007	FTSE AWD Europe ex UK	Match	0.5
	SSgA	38,081	FTSE AWD North America	Match	0.5
	SSgA	34,130	FTSE AWD Japan	Match	0.5
Cronfeydd amlstrategaeth	BlackRock	56,385	7 day LIBID	+15.0%	20.0
	BlueCrest	31,470	Absolute	+10-15%	6.0
	Pyrford	32,525	RPI	+5.0%	8.0
Cronfa ymddiogelu cronfeydd	Liongate	21,358	Absolute	+8-10%	6.0
	SSARIS	23,711	Absolute	+8-10%	5.0
	Pioneer	2,001	Absolute	+8-10%	4.0
Cronfa nwyddau	Wellington	34,588	GCSI Equally Weighted	+1.5%	4.0
Cronfeydd eiddo	Amrywiol	82,260	IPD Balanced PUTs	Exceed	
Cronfeydd seilwaith	Amrywiol	23,907	Absolute	+15.0%	
Cronfeydd Coed / Amaeth	Amrywiol	20,511	Absolute	+15.0%	
Cronfeydd ecwiti preifat	Amrywiol	138,137	Absolute	+15.0%	
Cronfeydd oportiwnaidd	Amrywiol	5,910	Absolute	+15.0%	
		1,161,730			

Caiff y risgiau sy'n gysylltiedig ag ansefydlogrwydd gwerthoedd ar y farchnad eu rheoli yn bennaf trwy bolisi o gael amrywiaeth eang o asedau. Mae'r Gronfa'n cyfyngu ar y math o fuddsoddiadau y gall eu dal, trwy derfynau buddsoddi, yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009. Mae'r Gronfa hefyd yn mabwysiadu meincnod strategol penodol (mae manylion i'w cael yn Natganiad o Egwyddorion Buddsoddi'r Gronfa) ac mae pwysiadau'r gwahanol ddosbarthiadau o asedau o fewn y meincnod yn sail i waith dyrannu asedau o fewn y Gronfa. Dan amodau arferol cynhelir ymarfer ail-fantoli chwarterol yn erbyn y meincnod strategol hwn o fewn terfynau goddefiant penodol. Bwriad y gwaith dyrannu hwn, a bennir trwy fodel dyrannu asedau'r Gronfa, yw amrywio asedau a lleihau risg ar gyfer perfformiad ar lefel benodol trwy ystod eang o fuddsoddiadau ar draws y prif ddosbarthiadau o asedau a buddsoddiadau amgen, ac ar draws rhanbarthau daearyddol ym mhob dosbarth o asedau. Bwriedir i'r meincnod strategol cyfredol gynhyrchu elw hirdymor o ychydig dros 9% gydag anwadalrwydd o ryw 10%.

Caiff risg o ran y farchnad ei rheoli hefyd trwy amrywio rheolwyr – gan greu portffolio amrywiol ar draws nifer o reolwyr buddsoddi. Bob dydd, bydd rheolwyr yn rheoli risg yn unol â'r meincnodau, y targedau a'r terfynau risg a bennwyd ar gyfer y mandad, ac yn unol â'u polisïau a'u prosesau eu hunain. Mae'r Gronfa ei hun yn monitro rheolwyr yn rheolaidd (bob chwarter o leiaf) yng nghyswllt pob un o'r agweddau hyn. O ran eiddo ac ecwiti preifat, mae amrywio cronfeydd a rheolwyr yn hollbwysig, ac er na roddir rhestr lawn o fuddsoddiadau yma, mae gan y Gronfa gyswllt â gwahanol fuddsoddiadau fel y gwelir isod:

	Gwerth ar y Farchnad 2013 £000	Rheolwyr Nifer	Cronfeydd Nifer	Eiddo / Cwmniau a Amcangyfrifir Nifer
Asedau Gwirioneddol	126,678	18	31	>280
Ecwiti Preifat / Oportiwnaidd	144,047	19	58	>4,000

Risg o ran Prisiau Eraill

Mae'r risg o ran prisiau eraill yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn ansefydlog o ganlyniad i newidiadau ym mhrisiau'r farchnad (ar wahân i'r rheini sy'n codi o risg yn ymwneud â'r cyfraddau llog neu â'r gyfradd gyfnewid dramor), p'un a yw'r newidiadau hynny i'w priodoli i ffactorau sy'n ymwneud yn benodol â'r offeryn unigol neu â'r sawl sy'n ei gyhoeddi neu ffactorau sy'n effeithio ar bob offeryn o'r fath.

Mae'r gronfa'n agored i risg o ran prisiau cyfranddaliadau a phrisiau deilliadol. Mae hyn yn codi o'r buddsoddiadau sy'n cael eu cadw gan y gronfa, nad yw eu pris yn y dyfodol yn sicr. Mae risg o ran colli cyfalaf ynghlwm wrth yr holl fuddsoddiadau gwarannau . Bydd rheolwyr buddsoddiadau'r gronfa yn lliniaru'r risg hwn o ran pris drwy amrywio'r buddsoddiadau a drwy ddewis gwarannau a chaiff offerynnau ariannol eraill eu monitro gan y gronfa i sicrhau eu bod o fewn y cyfyngiadau a bennir yn strategaeth buddsoddi'r gronfa.

Ar ôl dadansoddi data hanesyddol a symudiadau yn yr enillion a ddisgwylir o fuddsoddiadau yn ystody flwyddyn ariannol, mewn ymgynghoriad â mesurwr perfformiad y gronfa, WM Company, mae'r gronfa wedi penderfynu bod y symudiadau a ganlyn yn y risg ym mhris y farchnad yn rhesymol bosibl ar gyfer cyfnod adrodd 2012/13:

Natur yr Ased	Symudiadau Posib yn y Farchnad (+ / -)
Ecwiti Byd-eang yn cynnwys y DU	11.8%
Ecwiti y DU	14.2%
Ecwiti Tramor	12.7%
Incwm Sefydlog Byd-eang	4.9%
Eraill	3.3%
Eiddo	3.7%

Mae hyn y cyd-fynd â rhagdybiaethau WM Company sy'n seiliedig ar y data hanesyddol a gasglwyd ar gyfer y Gronfa. Mae'r dadansoddiad yn tybio y bydd yr holl newidynnau eraill, yn enwedig cyfraddau cyfnewid arian cyfred tramor, yn aros yr un fath.

Pe bai pris buddsoddiadau'r Gronfa ar y farchnad wedi cynyddu/gostwng yn unol â'r uchod, byddai'r newid yn yr asedau net a fyddai ar gael i dalu buddion yn ôl pris y farchnad fel a ganlyn (nodir ffigurau cymharol y flwyddyn flaenorol hefyd).

Natur yr Ased	Gwerth ar y Farchnad	Newid yn y Ganran	Gwerth ar ôl y Cynnydd	Gwerth ar ôl y Gostyngiad
	2012/13	%	£000	£000
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb	17,331	0.0	17,331	17,331
Asedau portffolio buddosddi -				
Ecwiti byd-eang yn cynnwys y DU	111,623	11.8	124,795	98,451
Ecwiti y DU	122,222	14.2	139,578	104,866
Ecwiti Tramor	279,974	12.7	315,531	244,217
Incwm Sefydlog Byd-eang	175,148	4.9	183,730	166,566
Eraill	391,363	3.3	403,390	377,616
Eiddo	82,260	3.7	85,304	79,216
	1,179,921		1,269,659	1,088,263

Natur yr Ased	Gwerth ar y Farchnad	Newid yn y Ganran	Gwerth ar ôl y Cynnydd	Gwerth ar ôl y Gostyngiad
	2011/12	%	£000	£000
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb	36,476	0.0	36,476	36,476
Asedau portffolio buddosddi -				
Ecwiti Byd-eang yn cynnwys y DU	99,709	14.7	114,396	85,022
Ecwiti y DU	104,624	17.5	122,965	86,283
Ecwiti Tramor	234,437	15.5	270,798	198,076
Incwm Sefydlog Byd-eang	170,075	5.4	179,310	160,840
Eraill	363,226	3.9	377,501	348,951
Eiddo	75,307	6.0	79,833	70,781
	1,083,854		1,181,279	986,429

Risg o ran Cyfraddau Llog

Mae'r Gronfa yn buddsoddi ei hasedau ariannol er mwyn gwneud elw. Gall risgiau'n ymwneud â chyfraddau llog effeithio ar y buddsoddiadau hyn, a hwn yw'r risg y bydd gwerth teg llif arian offerynnau ariannol yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad.

Mae'r Gronfa yn cydnabod y gall cyfraddau llog amrywio ac effeithio ar incwm y gronfa a'r asedau net sydd ar gael i dalu buddion. Mae rheolwr Incwm Sefydlog y Gronfa wedi dweud y byddai'n disgwyl newid bach o 50 o bwyntiau sail (bps) o'r naill flwyddyn i'r llall. Gan nad yw'r Gronfa yn defnyddio gwarannau Incwm Sefydlog i ddarparu incwm, mae'r dadansoddiad a ganlyn o sensitifrwydd yn cyfeirio at arian parod a balansau arian parod yn unig.

Natur yr Ased	Gwerth cario	Newid yn ystod y flwyddyn yn yr asedau net i dalu buddion	
	2012/13	+50BPS	-50BPS
	£000	£000	£000
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian	1,457	7	(7)
Balansau arian parod	15,874	79	(79)
	17,331	86	(86)

Natur yr Ased	Gwerth cario	Newid yn ystod y flwyddyn yn yr asedau net i dalu buddion	
	2011/12	+50BPS	-50BPS
	£000	£000	£000
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian	1,141	6	(6)
Balansau arian parod	35,335	176	(176)
	36,476	182	(182)

Risg o ran Arian Cyfred

Risg o ran arian cyfred yw'r risg y bydd gwerth teg llifau arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau yn y cyfraddau cyfnewid tramor. Mae'r Gronfa yn agored i risgiau arian cyfred ar offerynnau ariannol sydd mewn unrhyw arian cyfred heblaw arian cyfred y Gronfa (GBP). Mae gan y Gronfa asedau sydd mewn arian cyfred gwahanol i GBP.

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi i ba raddau y mae'r Gronfa yn agored i risg yn ymwneud ag arian cyfred ar 31 Mawrth 2013 a'r ffigurau cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol:

Risg arian cyfred - Natur yr Ased	Gwerth ar y Farchnad 2012/13	Gwerth ar y Farchnad 2011/12
	£000	£000
Incwm Sefydlog Byd-eang	175,148	170,075
Ecwitiau Tramor Gweithredol	288,379	245,992
Ecwitiau Tramor Goddefol	103,218	88,152
Amlstrategaeth	120,380	118,080
Nwyddau	34,588	36,879
Cronfa ymddiogleu cronfeydd	47,070	47,321
Eiddo	39,755	31,691
Seilwaith	11,521	8,892
Coed / Amaeth	20,511	14,686
Oportiwnaidd	5,910	0
Ecwiti Preifat	112,096	96,971
	958,576	858,739

Ar ôl dadansoddi data hanesyddol mewn ymgynghoriad â Mesurwyr Perfformiad y Gronfa, sef WM Company, ac ar ôl dadansoddi i ba raddau roedd y Gronfa yn agored i risgiau'n ymwneud ag arian cyfred tramor hyd at 31 Mawrth 2013, ystyriwyd mai'r ansefydlogrwydd tebygol yn ymwneud â symudiadau yng nghyfradd cyfnewid tramor oedd 7.4%. Y ffigur cyfatebol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2012 oedd 7.4%.

Mae'r dadansoddiad hyn yn tybio bod yr holl newidynnau eraill, yn enwedig cyfraddau llog, yn aros yr un fath. Byddai canrannau'r blynyddol hyn yn cryfhau / gwanhau o'u cymharu â'r arian cyfred amrywiol y caiff buddsoddiadau'r gronfa eu cadw ynddynt, yn cynyddu 'lleihau'r asedau net a fyddai ar gael i dalu buddion, fel a ganlyn:

Risg Arian Cyfred - natur yr ased	Gwerth ar y farchnad	Newid yn y Ganran	Gwerth ar ol y cynnydd	Gwerth ar ol y gostyngiad
	2012/13	%	£000	£000
Incwm Sefydlog Byd-eang	175,148	5.1	184,073	166,223
Ecwiti Tramor - Gweithredol	288,379	5.1	303,074	273,684
Ecwiti Tramor - Goddefol	103,218	5.1	108,478	97,958
Amlstrategaeth	120,380	5.1	126,514	114,246
Cronfa Ymddiogelu Cronfeydd	47,070	5.1	49,469	44,671
Nwyddau	34,588	5.1	36,351	32,825
Coed	20,511	5.1	21,556	19,466
Seilwaith	11,521	5.1	12,108	10,934
Eiddo	39,755	5.1	41,781	37,729
Oportiwnaidd	5,910	5.1	6,211	5,609
Ecwiti Preifat	112,096	5.1	117,808	106,384
	958,576		1,007,423	909,729

Risg Arian Cyfred - natur yr ased	Gwerth ar y farchnad	Newid yn y Ganran	Gwerth ar ol y cynnydd	Gwerth ar ol y gostyngiad
	2011/12	%	£000	£000
Incwm Sefydlog Byd-eang	170,075	7.4	182,686	157,464
Ecwiti Tramor - Gweithredol	245,992	7.4	264,232	227,752
Ecwiti Tramor - Goddefol	88,152	7.4	94,688	81,616
Amlstrategaeth	118,080	7.4	126,836	109,324
Cronfa Ymddiogelu Cronfeydd	47,321	7.4	50,830	43,812
Nwyddau	36,879	7.4	39,614	34,144
Coed	14,686	7.4	15,775	13,597
Seilwaith	8,892	7.4	9,551	8,233
Eiddo	31,691	7.4	34,041	29,341
Ecwiti Preifat	96,971	7.4	104,161	89,781
	858,739		922,414	795,064

8. BUDDSODDIADAU ERAILL

	2013		2012	
	£000	£000	£000	£000
Asedau Buddsoddiadau Eraill				
Incwm cronedig	874		3	
		874		3
Rhwymedigaethau Buddsoddi Eraill :				
Prynu buddsoddiadau	0		0	
		0		0
Mantolen Buddsoddiadau Arall		874		3

9. DYLEDWYR /CREDYDWYR

	2013		2012	
	£000	£000	£000	£000
Aesdau Cyfredol				
Cyfraniadau yn ddyledus - Gweithwyr	1,099		1,109	
Cyfraniadau yn ddyledus - Cyflogwyr	2,105		2,100	
Blynyddoedd a ychwanegwyd	52		25	
H.M. Cyllid a Thollau	54		69	
Straen pensiwn	251		342	
Awdurdod gweinyddu	210		1	
Amrywiol	74		57	
		3,845		3,703
Asedau dros 1 flwyddyn				
Straen pensiwn	0		200	
		0		200
Llai Rhwymedigaethau Cyfredol:				
Cyfandaliadau	(1,774)		(1,628)	
Grantiau marwolaeth	(131)		(333)	
Awdurdod gweinyddu	(303)		(1,122)	
Blynyddoedd a ychwanegwyd	(55)		(86)	
Gwerth Trosglwyddo Swmp Daladwy	0		(23,530)	
Amrywiol	(285)		(238)	
		(2,548)		(26,937)
Asedau Cyfredol Net		1,297		(23,034)

Dadansoddiad o ddyledwyr

	2013	2012
	£000	£000
Cyrff Llywodraeth Ganol	54	69
Awdurdodau Lleol Eraill	3,468	3,426
Cyrff y GIG	0	0
Corfforaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Masnachu	0	0
Endidau ac Unigolion Eraill	323	408
	3,845	3,903

Dadansoddiad o gredydwyr

	2013	2012
	£000	£000
Cyrff Llywodraeth Ganol	0	0
Awdurdodau Lleol Eraill	(331)	(24,702)
Cyrff y GIG	0	0
Corfforaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Masnachu	0	0
Endidau ac Unigolion Eraill	(2,217)	(2,235)
	(2,548)	(26,937)

10. DIGWYDDIAD AR ÔL CYFLWYNO'R FANTOLEN

Mae'r cyfrifon a amlinellir yn y datganiad yn cyflwyno sefyllfa ariannol Cronfa Bensiynau Clwyd ar 31 Mawrth 2012. Ers y dyddiad hwnnw, gallai perfformiad marchnadoedd ecwiti'r byd fod wedi effeithio ar werth ariannol buddsoddiadau cronfeydd pensiwn. Nid yw'r symudiad hwnnw'n effeithio ar allu'r Gronfa i dalu ei phensiynwyr.

Cytunwyd ar newidiadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a fydd yn cael gweithredu o 1 Ebrill 2014 ymlaen. Ni fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar Ddatganiad Cyfrifon 2012/13.

11. CYFRANIADAU YCHWANEGOL GWIRFODDOL (CYG)

Ni chafodd gwerth buddsoddiadau CYG prynu arian ar y farchnad nac amcangyfrif o'u gwerth ar y farchnad eu cynnwys. Mae'r asedau hyn wedi eu neilltuo'n benodol i ddarparu buddion ychwanegol ar gyfer aelodau penodol. Caiff Cronfa Bensiynau Clwyd wasanaethau dau ddarparwr CYG ar gyfer buddion ychwanegol i aelodau, a buddsoddir y cronfeydd fel a ganlyn mewn ystod o gynnyrch buddsoddi sy'n cynnwys cronfeydd llog sefydlog, ecwiti, arian, adnau, eiddo a chronfeydd cyfrifol o safbwynt cymdeithasol:-

Cyfraniadau a dalwyd	£	806,956
Unedau a brynwyd	Nifer	125,608
Unedau a werthwyd	Nifer	62,549
Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2013	£	4,404,457
Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2012	£	3,824,312

12. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Llywodraethu

Dan ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn 2004, mae gan Gynghorwyr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn. Fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2013, nid yw'r un o Aelodau'r Panel Pensiynau wedi manteisio ar y cyfle hwn. Nid yw Aelodau'r Panel Cronfa Bensiynau yn cael unrhyw ffioedd mewn perthynas â'u cyfrifoldebau penodol fel aelodau o'r Panel.

Rheoli Personél Allweddol

Nid yw'r un o'r uwch-swyddogion sy'n gyfrifol am weinyddu'r Gronfa wedi ymrwymo i unrhyw gontract, heblaw am eu contract cyflogaeth gyda'r Cyngor, i ddarparu nwyddau neu wasanaethau i'r Gronfa. Nodwyd bod gan Kerry Feather, Pennaeth Cyllid (Trysorydd a Gweinyddwr Cronfa Bensiynau Clwyd) swyddogaeth allweddol yn y gwaith o reoli'r gronfa).

Cyngor Sir y Fflint

Wrth gyflawni ei rôl fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa, darparodd Cyngor Sir y Fflint wasanaethau i'r Gronfa y codwyd £791k amdanynt (£803k yn 2011/12).

Mae'r costau hynny ar gyfer y staff a gaiff eu cyflogi i sicrhau bod y gwasanaeth pensiynau'n cael ei ddarparu, a chostau eraill megis y gyflogres a thechnoleg gwybodaeth. Caiff y costau eu cynnwys yn y cyfrifon dan gostau gweinyddu (gweler nodyn 2). Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd balans net o £0.093m yn ddyledus i Gyngor Sir y Fflint yn gysylltiedig â thaliadau credydwyr a wnaed ar ran y Gronfa a chostau gwasanaethau cynnal, nad oeddent ar gael ar 31 Mawrth 2013 (£1.039m yn 2011/12).

13. YMRWYMIADAU CONTRACT A RHWYMEDIGAETHAU ANNISGWYL

Ar 31 Mawrth, 2013, gan y Gronfa ymrwymiadau cytundebol o £458.4m (£383.4m yn 2011/12) mewn cronfeydd ecwiti preifat ac eiddo, y mae £323.4m (£283.2m yn 2011/12) wedi cael ei fuddsoddi, gan adael yn ymrwymiad o £ 135.0m (£100.2m yn 2011/12).

14. COSTAU TRAFODION

Costau trafodion yw costau ychwanegol y mae modd eu priodoli'n uniongyrchol i waith caffael neu werthu buddsoddiad. Maent yn cynnwys ffioedd a thaliadau comisiwn a delir i asiantiaid, ymgynghorwyr, broceriaid a delwyr, ardollau gan asiantaethau rheoleiddio a chyfnewidfeydd gwarannau, a threthi a thollau trosglwyddo. Gellir eu hychwanegu at gostau prynu neu gellir eu gosod yn erbyn enillion o werthu, fel y bo'n briodol. Ni ellir nodi'r costau hyn yn uniongyrchol gan fod Cronfa Bensiynau Clwyd yn cael ei buddsoddi'n gyfan gwbl mewn cronfeydd cyfun.

15. PRISIAD ACTIWARAIDD A GWERTH BUDDION YMDDEOL A ADDAWYD AT DDIBEN SAFON CYFRIFO RYNGWLADOL (IAS) 26 (Darparwyd gan Actwari'r Gronfa)

Hwn yw'r datganiad sy'n ofynnol dan Reoliad 34(1)(d) Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008.

Cynhaliwyd prisiad actwaraidd o Gronfa Bensiynau Clwyd fel yr oedd ar 31 Mawrth 2010 i bennu'r cyfraddau cyfrannu a fyddai mewn grym o 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2014.

Ar sail y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd, roedd gwerth asedau'r Gronfa, sef £956 miliwn, yn cyfateb i 72% o rwymedigaethau'r Targed Ariannu, sef £1,332 miliwn, ar ddyddiad y prisiad.



72%
Ariennir

Dangosodd y prisiad hefyd fod angen i gyfradd gyffredin cyfraniadau'r cyflogwyr gyfateb i 11.7% o dâl pensiynadwy bob blwyddyn. Pennir y gyfradd gyffredin drwy ystyried yr hyn sy'n ddigonol, ynghyd â chyfraniadau'r aelodau, i dalu'r holl rwymedigaethau sy'n codi yng nghyswllt gwasanaeth ar ôl dyddiad y prisiad.

Wrth fabwysiadu'r un dull a'r un rhagdybiaethau ag a ddefnyddiwyd i asesu'r Targed Ariannu, gallai'r diffyg gael ei ddileu gan gyfraniad ychwanegol cyfartalog o 9.0% o gyflog pensiynadwy dros gyfnod o 20 mlynedd. Byddai hynny'n awgrymu cyfradd gyfrannu gyfartalog o 20.7% o gyflog pensiynadwy i gyd ar gyfer cyfraniadau cyflogwyr.

Mae rhagor o fanylion yn ymwneud â chanlyniadau'r prisiad yn ein hadroddiad ffurfiol ar brisiad yr actwari dyddiedig 30 Mawrth 2011.

Yn ymarferol caiff sefyllfa pob cyflogwr unigol ei hasesu ar wahân, ac mae'r cyfraniadau sy'n ofynnol i'w gweld yn ein hadroddiad. Yn ogystal â'r cyfraniadau a ardystiwyd, bydd y cyflogwyr yn gwneud taliadau i'r Gronfa i fodloni rhwymedigaethau ychwanegol sy'n codi o ymddeoliadau cynnar (ar wahân i ymddeoliadau ar sail afiechyd).

Mae'r cynllun ariannu a fabwysiadwyd wrth asesu cyfraniadau pob cyflogwr unigol yn unol â'r Datganiad Strategaeth Ariannu. Mae'r gwahanol ddulliau a fabwysiadwyd wrth weithredu codiadau mewn cyfraniadau a chyfnodau adennill diffyg yn unol â'r hyn a bennwyd drwy broses ymgynghori'r Datganiad Strategaeth Ariannu.

Y dull actwaraidd a ddefnyddiwyd i gynnal y prisiad oedd y dull uned ragamcanol. Roedd y prif ragdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd i asesu'r Targed Ariannu a'r gyfradd gyfrannu gyffredin fel a ganlyn:

	Ar gyfer rhwymedigaethau gwasanaeth yn y gorffennol (Y Targed Ariannu)	Ar gyfer rhwymedigaethau gwasanaeth yn y dyfodol (Cyfradd Cyfraniadau Cyffredin)
Cyfradd yr elw ar fuddsoddiadau (cyfradd ddisgownt)		
- cyn ymddeol	6.5% y flwyddyn	6.75% y flwyddyn
- ar ôl ymddeol	5.5% y flwyddyn	6.75% y flwyddyn
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	4.5% y flwyddyn	4.5% y flwyddyn
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau mewn taliad (dros y Pensiwn Sylfaenol a Warantwyd)	3.0% y flwyddyn	3.0% y flwyddyn

Cafodd yr asedau eu hasesu ar sail eu gwerth ar y farchnad.

Disgwylir y bydd prisiad teirblwydd nesaf yr actwari yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth 2013. Caiff y cyfraniadau sy'n daladwy gan y cyflogwyr unigol eu hadolygu ar sail canlyniadau'r prisiad hwn, a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2014.

Gwerth Presennol Actiwaraidd Budd-daliadau Ymddeol Addewid at Ddibenion IAS 26

IAS 26 ei gwneud yn ofynnol gwerth presennol buddion ymddeol a addawyd y Gronfa gael eu datgelu, ac at y diben hwn dylai'r rhagdybiaethau actiwaraidd a'r fethodoleg a ddefnyddir fod yn seiliedig ar IAS 19 yn hytrach na'r rhagdybiaethau a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd at ddibenion ariannu.

Er mwyn asesu gwerth y budd-daliadau ar y sail hon, rydym wedi defnyddio'r rhagdybiaethau ariannol canlynol ar 31 Mawrth 2013 (y 31 Mawrth, 2012 rhagdybiaethau yn cael eu cynnwys er mwyn cymharu):

	31 Mawrth 2011	31 Mawrth 2012
Cyfradd yr elw ar fuddsoddiadau (cyfradd ddisgownt)	5.5% y flwyddyn	4.9% y flwyddyn
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	4.4% y flwyddyn	4.0% y flwyddyn
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau mewn taliad (dros y Pensiwn Sylfaenol a Warantwyd)	2.9% y flwyddyn	2.5% y flwyddyn

Mae'r rhagdybiaethau demograffig yr un fath â'r rhai a ddefnyddir at ddibenion ariannu heblaw am ystyriaeth parthed cynnydd yn nisgwyliadau hyd bywyd. Diweddarwyd hynny o ddwyn i ystyriaeth y dystiolaeth ddiweddaraf ar y mater. Mae'r lwfans diwygiedig am hyn yn gynwysedig yn y cyflifiadau a wnaed ar 31 Mawrth 2013 sy'n cyd-fynd â'r model rhagolygon a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2009 gan yr Ymchwiliad Marwoldeb (CMI) gyda gwelliant blynyddol tymor hir o 1.25% y flwyddyn. Roedd y lwfans blaenorol o 31 Mawrth 2012 yn defnyddio gwelliant tymor hir ar gyfradd o 1.0% y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn gostyngodd arenillion bondiau corfforaethol. Golygai hyn fod cyfradd ddisgownt is yn weithredol at ddibenion IAS26 ar ddiwedd y flwyddyn o gymharu â'i chychwyn (4.2% y flwyddyn o gymharu â 4.9% y flwyddyn). Cafodd effaith hyn ei ddadwneud fymryn yn y gostyngiad o 0.1% y flwyddyn yn y gyfradd chwyddiad a ragdybid.

Amcangyfrifwyd gwerth buddiannau ymddeol y Gronfa at ddibenion IAS26 ar 31 Mawrth 2012 yn £1,613 miliwn. Effaith y newid yn y rhagdybiaethau actiwaraidd rhwng 31 Mawrth 2012 a 31 Mawrth 2013 (fel y nodwyd uchod) ydyw cynyddu'r rhwymedigaethau o tua £204 miliwn. Mae ychwanegu llog dros y flwyddyn yn cynyddu'r rhwymedigaethau o tua £79 miliwn, gan ganiatáu buddion net a gronnwyd/talwyd dros y cyfnod gynyddu rhwymedigaethau o tua £5 miliwn. Effaith derfynol hyn ydyw fod gwerth a amcangyfrifir am fuddion ymddeol a addewir gan y Gronfa o 31 Mawrth 2013 felly yn £1,901 miliwn.

Paul Middleman
Aelod o Sefydliad a Chyfadran Actiwariaid
Mercer Limited
Mai 2013

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:
- Cyngor Sir y Flintshire ; a
- Cronfa Bensiwn Clwyd

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir y Flintshire yn cynnwys y Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Clwyd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011-12 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu y Gronfa Bensiwn Clwyd, sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Sir y Flintshire a Clwyd Gronfa Bensiwn a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir y Flintshire

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:
- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir y Flintshire ar 31 Mawrth 2013 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011-12.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Clwyd

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:
- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Clwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011-12.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad
Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir y Flintshire yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

30 Medi 2013

Mae'r datganiad hwn wedi'i rannu'n bump o adrannau:-

1. Maes cyfrifoldeb.
2. Diben y Fframwaith Llywodraethu.
3. Y Fframwaith Llywodraethu.
4. Adolygu Effeithiolrwydd.
5. Materion Pwysig o ran Llywodraethu.

1. MAES CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cyflawni ei fusnes yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian y cyhoedd yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae gan y Cyngor ddyletswydd hefyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y cyflawnir ei swyddogaethau, gan sicrhau ein bod yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol fel sefydliad.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am ofalu bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei fusnes, sy'n hwyluso'r broses o gyflawni swyddogaethau'r Cyngor yn effeithiol ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cydymffurfio ag egwyddorion Fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) / y Gymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), sef *Delivering Good Governance in Local Government: Framework.*

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac mae copi hefyd ar gael gan Reolwr Democratiaeth a Llywodraethu yn yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

Mae'r Datganiad hwn yn egluro sut y mae Cyngor Sir y Fflint wedi cydymffurfio â'r Cod, ac mae hefyd yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010.

2. DIBEN Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau, prosesau, staff, adnoddau eraill, diwylliant a gwerthoedd cymhwyso i reoli y Cyngor a'i weithgareddau, a thrwyddynt mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae'r fframwaith yn galluogi'r Cyngor i fonitro'r modd y mae'n cyflawni ei amcanion strategol, a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynllunio a'u darparu'n briodol a bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu iddynt.

Rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw yw'r system reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio i reoli risgiau a heriau er mwyn eu cadw ar lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion, ac felly dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr, y gall ei ddarparu o effeithiolrwydd. Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i waith cyflawni polisïau, blaenoriaethau, nodau ac amcanion y Cyngor. Mae wedi'i chynllunio hefyd i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau a'r heriau hynny'n cael eu gwireddu, a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Roedd y fframwaith llywodraethu ar waith yng Nghyngor Sir y Fflint ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad cyfrifon blynyddol.

3. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

a) Cyfansoddiad y Cyngor

Mae cyfansoddiad y Cyngor yn diffinio rôl y Cabinet, Cyngor, Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Safonau, Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r pwyllgorau eraill. Mae hefyd yn nodi cynnwys portffolio pob aelod y Cabinet, y cyfrifoldeb am swyddogaethau yn cynnwys trefniadau dirprwyo ac amryw godau a phrotocolau yn cynnwys Cod Ymddygiad Aelodau, Cod Ymddygiad Swyddogion, Protocol Aelodau/Swyddogion a Chod Llywodraethu Corfforaethol.

b) Cod Llywodraethu Corfforaethol

Caiff prif elfennau trefniadau llywodraethu'r Cyngor eu hadlewyrchu yn y **Cod Llywodraethu Corfforaethol**. Mae'r Cod yn rhan o'r Cyfansoddiad ac mae'n berthnasol i bob agwedd ar fusnes y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Aelodau a'r gweithwyr ymddwyn yn unol â'r safon uchel a ddisgwylir.

gan ddinasyddion Sir y Fflint a'r chwech o egwyddorion craidd a nodir yn Fframwaith CIPFA / SOLACE:

- Canolbwyntio ar ddiben yr Awdurdod ac ar ganlyniadau ar gyfer y gymuned, a chreu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol a'i rhoi ar waith.
- Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin, gyda swyddogaethau a rolau clir.
- Hyrwyddo gwerthoedd yr Awdurdod a dangos gwerthoedd llywodraethu da drwy gynnal safonau uchel o ran ymddygiad.
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n destun prosesau effeithiol ar gyfer craffu a rheoli risg.
- Meithrin gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol.
- Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus dibynadwy.

Y Cabinet, mewn ymgynghoriad â Phwyllgor y Cyfansoddiad, sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r Cod Llywodraethu Corfforaethol gwreiddiol. Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol, drwy gynnal adolygiadau blynyddol sy'n dechrau fis Hydref bob blwyddyn.

Caiff y gwaith o ddiweddaru'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, a chael sicrwydd ar gyfer y datganiad llywodraethu blynyddol hwn, ei wneud a'i gydgysylltu dros y flwyddyn fel rhan o broses gylchol.

c) Fframwaith Llywodraethu y Cyngor (Cynllun)

Cymeradwywyd drafft terfynol a chyhoeddi Fframwaith Llywodraethu y Cyngor (Cynllun) gan Gabinet y Cyngor a'r Cyngor Sir fis Awst 2012. Mae'r fframwaith yn deulu o ddogfennau â chydberthynas rhyngddynt yn disgrifio sut y mae blaenoriaethau a gwerthoedd y sefydliad yn cael eu hadlewyrchu o fewn y Cyfarwyddiaethau a'u swyddogaethau a sut mae'r Cyngor yn ymwneud â phartneriaid cwsmeriaid a chymunedau.

Mae'r fframwaith yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru pob blwyddyn.

d) Aelodau

Mae gan Gyngor Sir y Fflint 70 o gynghorwyr sy'n cynrychioli 57 o Adrannau Etholiadol yn Sir y Fflint, a chânt eu hethol yn ddemocrataidd bob pedair blynedd. Mae gan y Cyngor arweinydd a Phwyllgor Gweithredol a oedd â 9 o aelodau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012. Yn ystod 2011/12, roedd 7 Pwyllgor Arolygu a Chraffu a oedd yn cael cymorth tîm o swyddogion.

Dyma'r Pwyllgorau:-

- Tai
- Adnoddau Corfforaethol
- Amgylchedd
- Dysgu Gydol Oes
- Proffil a Phartneriaethau Cymunedol
- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Yn ogystal, mae gan y Cyngor y Pwyllgorau Sefydlog hyn:-

- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cyfansoddiad
- Pwyllgor Safonau
- Pwyllgor Cynllunio a Rheoli Datblygu
- Pwyllgor Trwyddedu
- Gwasanaethau Democrataidd

Mae cylchoedd gorchwyl y gwahanol bwyllgorau wedi'u gosod allan yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Caiff nifer, maint a chylch gorchwyl y Pwyllgor Sefydlog eu hadolygu bob blwyddyn yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ym mis Mai.

Wrth ymgymryd â'u swydd, bydd yr holl Aelodau'n llofnodi Datganiad Derbyn Swydd a, thrwy hynny, byddant yn ymrwymo i lynu wrth God Ymddygiad Cenedlaethol Llywodraeth Leol wrth ymgymryd â'u gwaith fel Cynghorwyr. Mae Cod Aelodau Sir y Fflint yn cydymffurfio â'r Cod Cenedlaethol a chaiff pob aelod gopi ohono pan fyddant yn dechrau ar eu gwaith. Os ceir cwyn ynghylch unrhyw Aelod, ar y sail nad yw wedi cadw at y Cod, caiff y mater ei ystyried gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gall hwnnw gyfeirio'r achos at Bwyllgor Safonau'r Cyngor neu Banel Dyfarnu Cymru a all wneud cais i gosbi unrhyw Aelod sy'n torri'r Cod.

e) Swyddogion

Mae Erthygl 16 o'r Cyfansoddiad yn egluro rôl y Prif Weithredwr, sy'n Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig statudol i'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys darparu arweiniad i reolwyr a chyflogeion y Cyngor; sicrhau bod gan y Cyngor y systemau llywodraethu, strwythur, gweithlu, adnoddau a busnes sydd eu hangen i roi gwasanaethau o ansawdd uchel, cost effeithiol ac ymatebol i bobl Sir y Fflint; gweithio'n agos ac yn gefnogol gydag Aelodau etholedig i sicrhau cyflawni diwylliant, gweledigaeth, polisïau a rhaglenni'r Cyngor; gweithio gyda phartneriaid ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i gyflawni potensial Sir y Fflint ac i gynrychioli ei diddordebau, a chyfrannu at lywodraethu Cymru fel cenedl wedi'i datganoli.

Y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yw Swyddog Monitro'r Cyngor o dan Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Gan y swyddog yma mae'r cyfrifoldebau statudol o sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r gyfraith ac yn osgoi camweinyddu. Mae Cyfansoddiad y Cyngor hefyd yn rhoi cyfrifoldeb i'r Swyddog Monitro am fonitro gweithrediad y cyfansoddiad a chyfrannu at hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad trwy ddarparu cefnogaeth i'r Pwyllgor Safonau.

Y Pennaeth Cyllid yw'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ac mae'n cymryd cyfrifoldeb am weinyddu materion ariannol y Cyngor yn gywir o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac yn unol gyda'r datganiad CIPFA ar rôl y Prif Swyddog Ariannol.

f) Cyllid

Mae trefniadau cadarn yn bodoli ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol trwy weithdrefnau cyfrifo'r Cyngor, y systemau ariannol allweddol, Rheolau'r Gweithdrefnau Ariannol a Rheolau'r Gweithdrefnau Cytundebol, fel sydd wedi'i ddangos yn y cyfansoddiad. Bydd Rheolau'r Gweithdrefnau Ariannol a Rheolau'r Gweithdrefnau Cytundebol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac maen nhw ar gael ar 'Infonet' y Cyngor.

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn darparu fframwaith i'r egwyddorion ariannol sy'n cael eu defnyddio i ragweld, trefnu a rheoli'r adnoddau refeniw a chyfalaf er mwyn cyflawni gweledigaeth y Cyngor a'i amcanion strategol. Bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagweld y lefelau ariannu a'r adnoddau fydd eu hangen yn y tymor canolig i gefnogi gwneud penderfyniadau strategol; sicrhau bod cyllidebau'n cydbwyso yn y blynyddoedd i ddod, ac fel bod y Cyngor yn gallu buddsoddi yn ei flaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae gan y Cyngor bedwar math o adnoddau – pobl, arian, asedau a gwybodaeth.

Mae proses y Cyngor ar gyfer gosod ei raglen cyllideb a chyfalaf flynyddol i'w gweld yn Rheolau a Pholisïau Gweithdrefnau Fframwaith y Gyllideb yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad. Pan fydd yr Awdurdod yn gosod ei gyllideb, bydd aelodau etholedig yn cymryd i ystyriaeth y lefel o risg ac ansicrwydd o ran ei amcangyfrifon cyllidebol yng nghyswllt yr hinsawdd economaidd a gwasanaethau cyhoeddus ar yr adeg honno.

Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun o gyllidebau wedi'u dirprwyo, gyda chefnogaeth y tîm Cyllid Corfforaethol, sef timau canolog a thimau wedi'u seilio ar gyfarwyddiaethau, yn cefnogi rheolwyr cyllidebau. Bydd adroddiadau monitro ar gyllidebau refeniw, yn cynnwys rhagolygon blwyddyn lawn, yn cael eu hadrodd fesul chwarter i'r Cabinet a'r Pwyllgor Arolygu a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA (y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) ar gyfer Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd Rheoli Trysorlys yn digwydd yn unol gyda Datganiad Polisi a Strategaeth Rheoli Trysorlys ac Arferion Rheoli Trysorlys y Cyngor, gyda'r ddau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn. Bydd y cyfan o'r benthyca ac ariannu tymor hir yn digwydd yn unol gyda Chod Materion Ariannol Darbodus CIPFA. Bydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet yn cael adroddiadau fesul chwarter i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Reoli Trysorlys.

g) Dyfodol Sir y Fflint

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint fel ei strategaeth ar gyfer newid ac adolygu yn y sefydliad er mwyn cael effeithlonrwydd wrth foderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio ac yn gwella gwasanaethau cyhoeddus lleol.

Mae Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint yn cynnwys pedair is-raglen:

- Newid Corfforaethol: e.e. asedau a chaffael
- Adolygu Gwasanaethau e.e. trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Cydweithredu Rhanbarthol: e.e. Gwasanaethau Gwella Ysgolion
- Cydweithredu'n Lleol: e.e. rheoli ynni a lleihau carbon.

h) Cynllunio Busnes

Mae'r Cyngor wedi sefydlu ffordd effeithiol o ddelio gyda **chynllunio busnes.** Mae disgrifiad ac arwyddion cyfeirio ar gyfer y broses yn Fframwaith Llywodraethu (Cynllun) y Cyngor (gweler c) uchod.

Ochr yn ochr â hyn mae Cynllun Gwella'r Cyngor, sy'n cael ei gyhoeddi bob blwyddyn ac sy'n disgrifio blaenoriaethau'r Cyngor (Amcanion Gwella) sy'n cael eu cefnogi gan flaenoriaethau a blaenoriaethau (lefel is) lefel Cyfarwyddiaeth. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cysylltu gyda Gweledigaeth a blaenoriaethu'r Cyngor fel sydd wedi'u pennu gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Y 'blociau adeiladu' sy'n rhan o ffordd y Cyngor o gynllunio busnes yw:-

- Gweledigaeth y Sir (Strategaeth Gymunedol) fel sydd wedi'i phennu gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Blaenoriaethau'r Cyngor, fel sydd wedi'u gosod gan y Cyngor Sir a'u cefnogi gan y blaenoriaethau Cyfarwyddiaeth a lefel is corfforaethol.
- Targedau Gwella'r Cyngor – set o ddangosyddion perfformiad wedi'u dynodi fel rhai sydd angen cael canolbwyntio sylw arnynt er mwyn gwella
- Rheoli risg – wedi'i ddisgrifio yn ein dogfen Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau (SARC) – set o faterion mae risgiau, amcanion a chamau ar gyfer lleddfu risg wedi cael eu disgrifio ar eu cyfer.
- Cytundeb Deilliannau (gyda Llywodraeth Cymru) yn rhoi camau gweithredu a mesurau.
- Cynlluniau Cyfarwyddiaethau a Gwasanaethau, a hefyd y cynlluniau adnoddau corfforaethol (ar gyfer Adnoddau Dynol, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a Gwasanaethau Cwsmer, Cyllid a Chyfreithiol a Democrataidd).
- Canfyddiadau unrhyw reoleiddio allanol ac ymateb y Cyngor i hynny.
- Adrodd am berfformiad fesul chwarter ar lefel Pennaeth Gwasanaeth i'r Cabinet ac i Arolygu a Chraffu – adroddiad monitro ar sut mae pethau'n dod ymlaen gyda'r holl faterion uchod.

Rhan annatod o reoli busnes yw deall a chymryd camau yn erbyn risgiau'n ymwneud â'r busnes. Mae prosesau Rheoli Risg y Cyngor wedi'u gosod fel rhan annatod o'r drefn, ac yn cynnwys:-

- Risg Gweithredol – sy'n cael ei ganfod ar lefel gwasanaeth
- Risg Prosiect – ei ganfod trwy'r drefn rheoli prosiectau
- Risg Partneriaeth – ei ganfod trwy'r fframwaith rheoli partneriaeth

Mae model rheoli risg corfforaethol, fel sydd wedi'i ddisgrifio yn y Strategaeth Rheoli Risg, yn cefnogi'r trefniadau hyn.

Enw cofrestr y Cyngor o risgiau strategol yw'r Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau (SARC). Mae hon yn ddogfen 'fyw' sy'n diffinio ac yn rhoi manylion y blaenoriaethau ar gyfer newid a gwella. Mae'n rhan annatod o'n prosesau cynllunio busnes.

- Fel erfyn i'w ddefnyddio, mae'n coladu'r risgiau mae'n rhaid i'r Cyngor eu hystyried, gyda diweddaru ac adrodd rheolaidd ar sut mae pethau'n dod ymlaen.
- Mae'n defnyddio matrics coch, ambr, gwyrdd ('RAG') i arfarnu'r statws risg ar yr adeg honno a rhagweld y cyfnod pan fydd y risg yn cael ei leddfu neu ei reoli o fewn y lefel o risg (archwaeth risg) mae'r Cyngor yn barod i'w dderbyn. Hefyd, mae'n edrych a oes newid yn lefel statws y risg.

Mae gan y SARC dair rhan:-

- Arweinyddiaeth Gymunedol – materion lleol hollbwysig nad oes modd i'r Cyngor ar ei ben ei hunan eu cyflawni (e.e. Tai Fforddiadwy)
- Darpariaeth gan y Cyngor – materion gwasanaeth cyhoeddus sy'n bennaf o fewn rheolaeth a chyfrifoldeb y Cyngor
- Llywodraethu'r Cyngor – materion o lywodraethu a rheoli yn y sefydliad (e.e. Cyllid)

Mae rhan o ffordd y Cyngor o drin rheoli risg yn cynnwys ei **drefniadau parhad busnes.** Agwedd y Cyngor at hynny yw cael arferion yn eu lle er mwyn gallu gwrthsefyll digwyddiadau. Mae rheoli parhad busnes yn paratoi'r corff i gynllunio ymatebion effeithiol i bethau sy'n tarfu ar fusnes, fel tywydd garw neu fod y trydan yn mynd i ffwrdd. Trwy wneud hynny, bydd ei wasanaethau hanfodol yn gallu parhau i weithredu ac wedyn dychwelyd i'w sefyllfa arferol mor fuan ag y bo modd.

Mae'r ffordd hon o weithredu'n cynnwys:

- Gwasanaethau Gwaith Hanfodol sy'n gorfod cael blaenoriaeth i'w cynnal neu i'w hadfer os bydd tarfu ar fusnes yn digwydd; mae gan y gwasanaethau hyn Gynlluniau Parhad Busnes wedi'u gosod yn eu lle.
- Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol, sy'n fframwaith cyffredinol mae'r cynlluniau ar gyfer Gwasanaethau Gwaith Hanfodol yn gweithredu tu mewn iddo. Mae'n gosod allan y gweithredu sydd i ddigwydd os bydd angen wynebu nifer o faterion ar yr un pryd sy'n effeithio ar barhad busnes e.e. tir ac adeiladau neu isadeiledd TGCh.
- cynnal profion yn rheolaidd ar yr holl Gynlluniau Parhad Busnes a'u diweddaru, i sicrhau eu bod yn gyfoes

Yr uwch swyddogion wedi'u dynodi ar gyfer hynny sy'n gyfrifol yn gyffredinol yn strategol am sicrhau bod gwasanaethau'n parhau.

i) Strategaethau Corfforaethol

Mae gan y Cyngor bedair prif strategaeth adnoddau corfforaethol (gweler *) a chynlluniau eraill sy'n rhoi'r fframwaith adnoddau ac atebolrwydd a chefnogaeth i gyflawni'r Cynlluniau Cyfarwyddiaeth a Gwasanaeth. Maen nhw'n cynnwys:-

- Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig *
- Strategaeth Pobl *
- Cynllun Rheoli Asedau *
- Strategaeth TGCh *
- Strategaeth Caffael
- Polisi Iechyd a Diogelwch

j) Rheoli a Sicrwydd

Mae rheoli ac atebolrwydd yn rhoi sicrwydd fod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer y gwasanaethau mae'n gyfrifol amdanynt ac am gyflawni ei amcanion. Bydd yn digwydd yn fewnol ac allanol. Yn fewnol bydd yn digwydd trwy gyfrwng ei drefniadau, arferion a gweithdrefnau llywodraethu, ac yn allanol try wahanol gyrff fel Swyddfa Archwilio Cymru, sydd â rôl statudol, annibynnol.

k) Llywodraethu Gwybodaeth

Mae trefniadau presennol y Cyngor ar lywodraethu gwybodaeth yn cynnwys dynodi Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth, a grŵp o swyddogion sy'n cyfarfod bob mis i roi cyngor corfforaethol ar gydymffurfio gyda'r Ddeddf Diogelu Data, gweithdrefnau corfforaethol sydd yn eu lle i ddelio gyda Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Rheoli Cofnodion. Mae'r gweithdrefnau a chanllawiau hyn ar gael ar 'Infonet' y Cyngor.

l) Pwyllgor Archwilio

Yn fewnol, rôl a swyddogaeth Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yw darparu sicrwydd o'r system trwy:-

- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod.
- Adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod ac adolygu'r datganiadau ariannol y bydd yr awdurdod yn eu paratoi.
- Cadw trosolwg ar drefniadau archwilio mewnol/allanol yr awdurdod.

Mae'r uchod yn adlewyrchu'r ffordd mae rôl y pwyllgor wedi ehangu o ganlyniad i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Fe gafodd y person lleyg a benodwyd i'r pwyllgor yn unol gyda'r mesur hwnnw ei benodi ymhellach ymlaen yn Is-gadeirydd y pwyllgor.

m) Archwilio mewnol

Caiff y gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu'n unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol ym maes Llywodraeth Leol yn y DU. Mae'r Cod yn nodi bod Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sicrwydd sy'n rhoi barn annibynnol a gwrthrychol i'r sefydliad am yr amgylchedd rheoli, drwy fesur i ba raddau y mae'n cyflawni amcanion y sefydliad. Mae'n mynd ati'n wrthrychol i archwilio, i werthuso ac i baratoi adroddiad ar ba mor ddigonol yw'r amgylchedd rheoli o ran y modd y mae'n arwain at ddefnyddio adnoddau'n briodol, yn economaidd, yn effeithiol ac yn effeithlon. Caiff cynllun archwilio blynyddol ei baratoi ar sail y Strategaeth Archwilio Mewnol.

Yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA , mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter sy'n crynhoi casgliadau'r archwiliad ac mae'n paratoi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canlyniadau'r broses archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn yng nghyswllt y system rheolaeth fewnol gyffredinol yn yr Awdurdod.

n) Trefniadau Allanol

Mae'r trefniadau allanol ar gyfer rheoleiddio a sicrwydd yn cael eu darparu gan nifer o gyrff wedi'u penodi'n statudol, yn bennaf Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn a'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (CSSIW).

Mae eu rôl hwy'n annibynnol o'r llywodraeth a byddant yn edrych ar berfformiad ac effeithiolrwydd cyrff cyhoeddus Cymreig ac yn herio'r perfformiad, a chynhyrchu adroddiadau lleol a chenedlaethol ar eu canfyddiadau, naill ai fesul cyfnod neu fesul blwyddyn.

o) Partneriaethau

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd mewn partneriaethau ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol (fel partner arweiniol, cyd-bartner, un sy'n cael gwasanaeth neu un sy'n darparu gwasanaeth). Yn genedlaethol, mae'r Cyngor yn rhan o'r 'teulu' llywodraeth leol yng Nghymru sy'n cyfrannu at ddatblygiad polisi cymdeithasol, gan ddylanwadu ar benderfyniadau cenedlaethol a llywio cyrff proffesiynol a chyrff eraill. Mae'r Cyngor yn aelod gweithredol o lawer o bartneriaethau rhanbarthol a chyrff cynrychioliadol ac yn bartner cydweithio mewn nifer o brosiectau a phartneriaethau rhanbarthol.

Ar lefel Sirol, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn dod â'r darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn Sir y Fflint at ei gilydd. Mae'r rheiny'n cynnwys Cyngor Sir y Fflint, Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Coleg Glannau Dyfrdwy, Prifysgol Glyndŵr, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Adnoddau Naturiol Cymru.

Fe gafodd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint ei sefydlu yn 2008. Ei gylch gorchwyl yw canolbwyntio ar bump o brif feysydd:-

- Adeiladu a Chynnal perthnasau partneriaeth effeithiol mae modd ymddiried ynddynt, fel set o arweinyddion lleol.
- Cyflawni cyfrifoldebau Bwrdd Gwasanaethau Lleol – mae hyn yn cynnwys cynhyrchu Strategaeth Gymunedol ystyrlon sy'n addas ar gyfer y pwrpas.
- Llywodraethu cyson ac effeithiol a chyflawni partneriaethau strategol e.e. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Partneriaeth Gofal Cymdeithasol a Lles, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaeth Adfywio.
- Pennu a gweithio ar faterion sy'n gyffredin i'r aelodau fel cyrff/cyflogwyr cyhoeddus.
- Hyrwyddo cydweithio i ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol i wneud y defnydd economaidd gorau o adnoddau partner lleol, fel pobl, arian, asedau a thechnoleg.

Dyma'r partneriaethau strategol sy'n rhan o drefn Sir y Fflint mewn partneriaeth:-

- Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Cynllun 'Gwneud Gwahaniaeth Cadarnhaol' (2011 i 2014)
- Y Bartneriaeth a'r Cynllun Strategol ar gyfer Diogelwch Cymunedol (2011 i 2014)
- Partneriaeth Tai Sir y Fflint
- Y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Strategaeth Iechyd Da (2011 i 2014)
- Cynllun Strategol Bwrdd Lleol Diogelu Plant Sir y Fflint (2011 i 2014)
- Y Bartneriaeth Adfywio
- Compact Sector Gwirfoddol
- Y Cynllun a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Bydd perfformiad partneriaethau strategol yn cael ei adrodd ddwywaith y flwyddyn, i Gabinet y Cyngor ac i'r Pwyllgor Arolygu a Chraffu Proffil a Phartneriaethau Cymunedol.

p) Chwythu'r chwiban

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r safonau uchaf bosibl o ran tryloywder, uniondeb ac atebolrwydd. Fel rhan o'r ymrwymiad hwnnw, rydym yn annog staff ac eraill sydd â phryderon difrifol am unrhyw agwedd ar waith y Cyngor, i ddod ymlaen a lleisio'r pryderon hynny. Sylweddolwn fod angen bwrw ymlaen yn gyfrinachol ag achosion sensitif. Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn glir y gall ein staff wneud hynny heb ofni dial. Mae'r polisi wedi'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac mae ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor.

q) Cwynion

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu trefn gwyno ffurfiol sydd hefyd yn annog staff i gynnig sylwadau a chwynion a chaiff hwn ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd.

r) Cronfa Bensiwn Clwyd

Mae Cronfa Bensiwn Clwyd yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir y Fflint ar sail awdurdod arweiniol. Ers 1 Ebrill 2006, mae wedi bod yn ofynnol o dan y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i awdurdod sy'n gweinyddu cronfa bensiwn fod yn paratoi, cyhoeddi a chynnal datganiad polisi ar lywodraethu. Bydd y datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol, sydd ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Clwyd: www.clwydpensionfund.org.uk.

4. ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am gynnal adolygiad, o leiaf bob blwyddyn, o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system reolaeth fewnol. Caiff y broses adolygu effeithiolrwydd ei llywio gan waith Uwch Reolwyr yr Awdurdod, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu; adroddiad blynyddol Pennaeth yr Adran Archwilio Mewnol; a sylwadau a wneir hefyd gan yr archwilwyr allanol ac arolygiaethau ac asiantaethau adolygu eraill

a) Cyfansoddiad y Cyngor

Yn ystod y flwyddyn, mae Cyfansoddiad y Cyngor wedi parhau i gael ei adolygu, a newidiadau wedi digwydd iddo er mwyn ei gadw'n gyfredol. Hefyd mae adolygiad 3 blynedd wedi'i rhaglennu wedi dechrau, i adolygu'r holl Gyfansoddiad yn unol gyda phenderfyniad y Pwyllgor Cyfansoddiad. Fe wnaeth y Pwyllgor Cyfansoddiad hefyd gytuno y dylid cynnal sesiynau gydag Aelodau a swyddogion i gynyddu ymwybyddiaeth o'r darpariaethau yn y Cyfansoddiad. Mae'r sesiynau hynny wedi digwydd yn ystod y flwyddyn, ac fe fyddant yn parhau yn 2013/14.

b) Cod Llywodraethu Corfforaethol

Bydd y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn. Bydd hyn yn cael ei gyd-drefnu gan Weithgor Swyddogion Llywodraethu Corfforaethol. Y ddau brif dasg ar gyfer y Gweithgor yw diweddaru'r Cod Llywodraethu bob blwyddyn a pharatoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Yn dilyn gwaith y Gweithgor Swyddogion, fe gafodd fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ei adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd 2012, ac wedyn i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2012. Yn y ddau gyfarfod, fe gytunwyd ar y fersiwn wedi'i ddiweddaru ac wedyn fe newidiwyd y Cyfansoddiad i gynnwys y fersiwn diweddarach yma.

Eleni, fe wnaeth y Gweithgor Llywodraethu Corfforaethol newidiadau i'r holiadur hunan asesu Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r holiadur wedi cael ei gynhyrchu i adlewyrchu adborth ar ei ddefnyddio am y tro cyntaf y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hyn yn cynnwys mwy o amser i'r Penaethiaid Gwasanaeth gael cwblhau'r holiadur. Yn anffodus, roedd nifer o holiaduron heb gael eu gyrru erbyn y dyddiad cau, gan arwain at oedi wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w ystyried gan y Prif Weithredwr, Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 115. Mewn rhai rhannau, mae Penaethiaid Gwasanaeth wedi cydnabod yr angen i wella'r trefniadau presennol ac wedi cynhyrchu cynlluniau gweithredu i roi sylw i hyn. Fe benderfynodd y Gweithgor bod angen i fwy gael ei wneud fel bod cyflogeion yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad i Swyddogion a'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol, ac mae'n llunio cynigion ar hyn. Roedd canlyniadau'r holiadur yn darparu gwybodaeth ar gyfer paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

c) Fframwaith Llywodraethu (Cynllun) y Cyngor

Yn ystod y flwyddyn, mae wedi cael ei ddefnyddio fel rhan o'r rhaglen datblygu rheolwyr i Reolwyr ar lefelau 4 a 5 yr Institute of Leadership and Management, ac wedi cael ymateb ffafriol fel adnodd cynhwysfawr a hawdd i'w defnyddio. Bydd adolygiad blynyddol y fframwaith yn cael ei gyflwyno i gyfarfodydd Cabinet y Cyngor a'r Cyngor Sir ym Mehefin 2013.

d) Aelodau

Yn dilyn yr etholiadau i'r Cyngor Sir ym Mai 2012, fe ddarparwyd rhaglen gyflwyno (anwytho) helaeth. Roedd honno'n cynnwys briffio ffurfiol ac anffurfiol, trefniadau i aelodau newydd gael mentoriaid, dalennau ffeithiau ar wahanol bynciau a digwyddiad Eich Cyngor Chi ar ôl y cyfarfod blynyddol ar 15 Mai 2012.

Hefyd, bob blwyddyn bydd rhaglen datblygu Aelodau yn rhedeg, ac yn ystod 2012/13 fe ddarparwyd yr hyfforddiant ffurfiol a ganlyn, oedd ar gael i bob aelod:-

- Amrywiaeth o bynciau cynllunio
- Y Cod Ymddygiad Aelodau
- Arolygu a Chraffu
- Cyfleusterau TGCh a Chynlluniau Argyfwng
- Diogelu ac Amddiffyn Oedolion Bregus
- Y Pwyllgor Archwilio
- Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg
- Diogelu Data
- Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Delio gyda'r cyfryngau
- Rheoli Trysorlys

e) Swyddogion

Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu, yn gweithio mewn partneriaeth gyda Choleg Glannau Dyfrdwy, wedi datblygu rhaglen ddatblygu gynhwysfawr i alluogi cyflogeion i ddatblygu eu sgiliau a'u medrusrwydd ymhellach ac i ennill cymwysterau ILM cenedlaethol. Hefyd, mae amrediad o dros 30 o raglenni datblygu hanner diwrnod a diwrnod llawn yn cael eu cynnig i'r gweithlu.

f) Cyllid

Fe gafodd cyllideb refeniw a rhaglen gyfalaf y Cyngor am 2012/13 eu cytuno gan y Cyngor. Y nod gyda'r gyllideb yw diogelu gwasanaethau 'rheng flaen' ac ail fuddsoddi er mwyn ateb blaenoriaethau'r Cyngor er bod y lefel ariannu wedi dod i lawr.

Er mwyn gallu cydbwyso'r gyllideb, fe wnaeth y Cyngor:

- Adolygu penderfyniadau'r flwyddyn cynt ar gyfer pwysau ac effeithlonrwydd, a'u hadolygu i adlewyrchu'r angen cyfredol.
- Gweithredu mewn ffordd wedi'i thargedu wrth drin chwyddiant.
- Adolygu a herio'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn
- Adolygu'r Cronfeydd wrth Gefn a'r Balansau
- Symud ymlaen gyda ffrydiau gwaith Dyfodol Sir y Fflint

Adroddwyd ar yr alldro terfynol ar gyfer y flwyddyn gyda thanwariant yng nghyllideb y flwyddyn o £4m ym mis Gorffennaf, a oedd yn fwy na'r targedau effeithlonrwydd o fewn y gyllideb. O ran cyfalaf, mae cyflwyno trefniadau monitro mwy cadarn wedi bod yn llwyddiannus o ran cyflawni dros 85% o'r gwariant a gynlluniwyd yn y flwyddyn. Er bod hyn yn gadarnhaol i sefyllfa ariannol y Cyngor, cydnabyddir bod angen adrodd arbedion effeithlonrwydd yn gynharach er mwyn cefnogi cynllunio ariannol a gwasanaethau a gwneud penderfyniadau ar gyfer blynyddoedd cyllideb yn y dyfodol. Mae hyn bellach yn cael ei gynllunio.

Mae'r dyfodol ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn parhau i fod yn ansicr a heriol iawn. Bydd rhan nesaf o ddatblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei gyhoeddi ym Mehefin, ynghyd â'r Cynllun Gwella newydd. Dyma gyfle gwych i ddyfnhau'r cysylltiadau rhwng y gwasanaeth a chynllunio ariannol a darparu fframwaith mwy cadarn ar gyfer adrodd ar effeithiolrwydd yn y dyfodol.

Fe gafodd yr Adolygiad Swyddogaeth Ariannol ei gwblhau yn ystod y flwyddyn, ac mae recriwtio eleni wedi sicrhau bod gan y gwasanaeth cyllid adnoddau llawn nawr, a'i fod yn ffit ar gyfer y pwrpas.

g) Dyfodol Sir y Fflint

Mae'r enillion effeithlonrwydd oddi wrth gyfnodau cynnar y Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint wedi dod â newid mewnol mewn gwasanaethau ac wedi lleihau costau gweithredu, a thrwy hynny wedi cefnogi cael cyllideb gytbwys ar gyfer 2013/14 a chael tanwariant yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2012/13.

Mae'r Bwrdd Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint, sydd newydd gael ei ffurfio, wedi gwneud swm sylweddol o waith i ail ganolbwyntio'r rhaglen newid sefydliadol. Mae targedau lefel uchel a chynlluniau cyflawni wedi cael eu gosod ar gyfer y pum ffrwd gwaith yn yr is-raglen Newid Corfforaethol h.y. Asedau, Cwsmer, Cyllid, Caffael a Gweithlu. Fe fydd yr effeithlonrwydd yma'n cyfrannu at 'bontio'r bwlch' yng nghyllidebau refeniw blynyddol Cronfa'r Cyngor am 2013-2018 fel rhan o'r Cynllun a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Bydd y gwaith yn cael ei estyn gyda rhaglen fwy heriol yn cael ei datblygu ar gyfer newid ac adolygu'r sefydliad.

h) Cynllunio Busnes

Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo ei Gynllun Gwella cyntaf ym Mehefin 2011. Roedd y Cynllun yn adeiladu ar y Blaenoriaethau Gweinyddiaeth a sefydlwyd yn 2010 ac yn enwi set o ddeg Blaenoriaeth Gwella (sylfaenol), a rheiny'n cael eu cefnogi gan flaenoriaethau manylach eilaidd Cyfarwyddiaethau. Mae ffurf y Cynllun Gwella'n cael ei adolygu ar gyfer 2013-14.

Mae'r Cynllun Gwella wedi cael ei fonitro yn y ffyrdd yma:

- Adroddiadau perfformiad bob chwarter i bob Pennaeth Gwasanaeth, yn rhoi crynodeb o'r perfformiad o'i gymharu gyda sut mae pethau'n dod ymlaen a'r deilliant. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgorau Arolygu a Chraffu perthnasol
- Bydd y Cabinet yn cael adroddiad ddwywaith y flwyddyn ar yr holl Flaenoriaethau Gwella
- Bydd beth sydd wedi cael ei gyflawni bob blwyddyn yn erbyn pob un o'r deg Blaenoriaeth Gwella'n cael ei grynhoi yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor, sy'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor Sir.

Mae **risgiau strategol** y Cyngor wedi cael eu hadrodd trwy'r Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau (SARC) a chael eu monitro a'u hadolygu fel rhan o'r Adroddiadau Perfformiad Chwarterol a'u cyhoeddi ar 'Infonet' y Cyngor ddwywaith y flwyddyn.

Yn ogystal, bydd y SARC yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac o leiaf ddwywaith y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod y risgiau sy'n dod i'r golwg yn cael eu cofnodi a bod sicrwydd o'r risgiau, a'r camau i'w lleddfu. Bydd hyn yn cael ei adrodd i Gabinet y Cyngor ac i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae rhan o ffordd y Cyngor o drin rheoli risg yn cynnwys ei **drefniadau parhad busnes**. Fel rhan o gynnal profion yn rheolaidd ar gynlluniau, roedd ymarfer yn Nhachwedd 2012 i asesu perfformiad y Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol a'i allu i wrthsefyll digwyddiadau.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod y Tîm Ymateb Busnes Strategol wedi ymdopi'n dda gyda sefyllfa heriol, gan eu bod wedi dangos:

- Dealltwriaeth eglur o bwrpas a gwerth cael **Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol** wedi'i ddiffinio
- Dealltwriaeth o ganlyniadau posibl digwyddiad, a sut i ddelio gyda hwy

Fe gafodd y Cynlluniau Parhad Busnes ar gyfer Gwaith Hanfodol eu defnyddio yn ystod y tywydd garw ym Mawrth 2013. Mae dadansoddiad beirniadol wedi digwydd o sut y defnyddiwyd y cynlluniau hyn a sut y darparwyd gwasanaethau. Mae'r argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio i ddiweddaru ac adfywio'r cynlluniau yn unol gyda hynny.

i) Strategaethau Corfforaethol

Fe fydd yr holl Strategaethau Corfforaethol yn cael eu hadolygu ar adegau; y rhai allweddol (Cyllid, TGCh a Phobl) bob blwyddyn. Bydd yr adolygiad yn edrych ar yr ystyriaethau cynllunio tymor canolig a hirach, ac mae adroddiadau perfformiad chwarterol rheolaidd wedi mynd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Arolygu a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

j) Rheoleiddio a Sicrwydd

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru astudiaeth o drefniadau llywodraethu corfforaethol pob un o'r 22 Cyngor Sir. Roedd yr adborth ar drefniadau Sir y Fflint yn gadarnhaol.

k) Llywodraethu Gwybodaeth

Yn ystod y flwyddyn:-

- Roedd rhaglen helaeth o hyfforddiant Diogelu Data

- Fe roddwyd sylw i dros 1300 o geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol
- Roedd adroddiadau perfformiad chwarterol i'r Pwyllgor Arolygu a Chraffu ar sut cafodd y ceisiadau hynny eu trin, ac fe gyhoeddwyd y wybodaeth ystadegol ar wefan y Cyngor.

l) Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal trosolwg ar weithgareddau swyddogaethau mewnol ac allanol y Cyngor. Caiff yr Aelodau etholedig adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru ac adroddiadau cryno gan yr adran Archwilio Mewnol ar y prif systemau a phrosesau. Maent yn goruchwylio gwaith yr adran Archwilio Mewnol wrth iddynt gwblhau'r cynllun archwilio a bydd y Rheolwr Archwilio'r cyflwyno'i adroddiad blynyddol i'r pwyllgor. Mae'r pwyllgor hefyd yn cael gwybodaeth yn rheolaidd am reoli risg.

Fe gafodd y pwyllgor hyfforddant penodol ar ôl etholiadau mis Mai er mwyn i'r aelodau allu cyflawni eu rôl. Roedd yr aelodau'n cwblhau hunan asesiad, ddiwedd 2012, yn erbyn y Pecyn Gwaith CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio Awdurdod Lleol. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y prif Bwyllgor yn ateb y canllawiau. Fe dynnwyd sylw at rai rhannau lle mae modd cryfhau'r trefniadau presennol. Bydd hyfforddiant i'r Pwyllgor Archwilio'n parhau yn 2013/14.

m) Archwilio Mewnol

Fe wnaeth yr adran wneud hunan asesiad yn erbyn canllawiau CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol, a chanfod bod lefel uchel o gydymffurfio.

Fe fydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn gwneud adolygiad blynyddol o wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn erbyn Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Nid yw'r arfarniad yma wedi'i fwriadu'n benodol i roi sicrwydd i Gyngor Sir y Fflint am y swyddogaeth archwilio mewnol, ond yn eu hadolygiad diweddaraf fe ddaethant i'r casgliad bod archwilio mewnol yn cydymffurfio gyda naw allan o'r un ar ddeg o safonau ac yn cydymffurfio'n rhannol gyda'r ddau arall.

Yn ei adroddiad blynyddol, ar sail yr archwiliadau mewnol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn, mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad bod trefniadau Sir y Fflint ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn ddigonol ac effeithiol.

n) Trefniadau Allanol

Bydd yr holl adroddiadau ffurfiol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio ac yn cael eu hystyried gan y gwahanol Bwyllgorau Arolygu a Chraffu fel sy'n briodol. Bydd rhai adroddiadau, fel yr adroddiad gwella blynyddol, yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn. Yn Chwefror 2013, roedd cyfarfod briffio rhwng aelodau'r Pwyllgor Archwilio, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Arolygu a Chraffu a swyddogion perthnasol, gan arwain at well ddealltwriaeth o'u gwahanol rolau wrth ystyried y fath adroddiadau.

o) Partneriaethau

Yn Chwefror 2012 fe wnaeth Cabinet y Cyngor a'r Cyngor Sir gymeradwyo mabwysiadu compact rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol Cymru, ac wedyn ddod yn un o'r llofnodwyr.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ail gadarnhau ei ymrwymiad i gydweithio gydag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill lle mae modd ateb buddiannau Sir y Fflint i ddiogelu/gwella gwasanaethau cyhoeddus a bod yn fwy effeithlon.

Fel sy'n cael ei gydnabod yn y 'Compact' uchod, mae dwy brif bartneriaeth ddarparu ranbarthol wedi dod yn weithredol yn ystod 2012/13:

- Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru (GEGYR)
- Canolfan Comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru

Mae cydweithio sylweddol wedi bod yn digwydd cyn adeg creu'r Compact, mewn meysydd gwasanaeth yn cynnwys cludiant, caffael gwastraff gweddillol a gwastraff bwyd, gwasanaethau caffael a TGCh.

Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y cydweithio cenedlaethol a rhanbarthol wedi cael eu penderfynu'n lleol, gyda'r Cabinet yn mabwysiadu protocol yn Chwefror 2012 ar gyfer rheoli prosiectau ac adrodd.

Fe arweiniodd adolygiad o Bartneriaethau Gogledd Cymru yn 2011 at gyfres o newidiadau, sydd wedi parhau yn ystod 2012/13:-

- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol: mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint nawr yn gweithredu trwy Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint, gyda swyddogaethau strategol yn cael eu cyflawni ar lefel ranbarthol trwy'r Bwrdd Cymunedau Diogelach

p) Chwythu'r Chwiban

Mae nifer fechan o staff wedi defnyddio'r polisi yn ystod 2012/13 i godi pryderon, sy'n dangos bod pobl yn gwybod am y polisi. Fe gafodd pob un eu trin yn sensitif ac yn gywir, gan ymchwilio i'r honiad ac ar yr un pryd ddiogelu cyfrinachedd yr un oedd wedi 'chwythu'r chwiban' i rybuddio.

q) Cwynion

Yn Ebrill 2012, fe wnaeth y Cyngor fabwysiadu Polisi newydd ar gyfer Clod, Pryderon a Chwynion, yn unol gyda Model Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru ar gyfer trin cwynion yn y sector cyhoeddus. Yn ystod 12/13, mae'r perfformiad o ran amser ymateb i gwynion cyntaf wedi gwella'n sylweddol ac mae'n cael ei ragweld bydd hyn yn parhau i'r flwyddyn nesaf. Roedd nifer uchel o gwynion yn hanner cyntaf y flwyddyn, oherwydd newidiadau i'r gwasanaeth mawr a newidiadau gweithredu yn y set Gwasanaethau Stryd. Ond am weddill y flwyddyn roedd gostyngiad sylweddol, wrth i'r gwasanaeth newydd setlo i'w le. Mae strwythur newydd wedi cael ei weithredu tu mewn i Wasanaethau Cwsmer, gan ganolbwyntio ar wella monitro cwynion ac adrodd am berfformiad. Trwy weithio gyda Choleg Glannau Dyfrdwy, bydd gweithdy achredig ar drin cwynion yn cael ei datblygu a'i weithredu, i gryfhau ymhellach y drefn trin cwynion sydd gan y Cyngor, ar draws y sefydliad.

r) Cronfa Bensiwn Clwyd

Mae Adroddiad Blynyddol cronfa bensiwn Clwyd yn cynnwys Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu'r Gronfa ac adolygiad o'i heffeithiolrwydd, gan Ymgynghorydd Annibynnol. Hefyd yn yr adroddiad blynyddol mae manylion o bresenoldeb Aelodau mewn Cyfarfodydd Panel a'r hyfforddiant maen nhw wedi'i gael yn ystod y flwyddyn. Yn 2011/12, fe wnaeth y Gronfa fabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar wybodaeth a sgiliau ar Gyllid Pensiwn ar gyfer Aelodau a Swyddogion. Roedd yr hyfforddiant yn parhau yn 2012/13, er mwyn bodloni gofynion y Cod Ymarfer hwn.

5. MATERION LLYWODRAETHU PWYSIG

Isod rhestrir risgiau strategol sylweddol i'r Cyngor a'r camau lliniaru arfaethedig ar gyfer y risgiau hynny.

Materion	Risg	Camau Lliniaru
Statws Sengl a Chyflog Cyfartal	Proses hir a chymhleth o ran cwblhau'r gwaith ar Gytundeb Statws Sengl gydag effeithiau negyddol ar y canlynol:- • Capasiti sefydliadol • Morâl y gweithlu • Cynllunio ariannol o gostau gweithlu • Parhau gyda thelerau ac amodau Rhan 3 sydd wedi dyddio ac sy'n anfforddiadwy • Enw da'r Cyngor	Cwblhau'r cynllun gweithredu naw pwynt ar gyfer Statws Sengl a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2009 Llunio a chytuno'n derfynol ar Gytundeb Statws Sengl cyfreithiol, derbyniol a fforddiadwy o fewn 2013. Cynllunio ariannol ar gyfer costau unwaith ac am byth a chostau parhaus Statws Sengl.

Materion	**Risg**	**Camau Lliniaru**
Statws Sengl a Chyflog Cyfartal	Y risgiau cyfreithiol ac ariannol o hawliadau Cyflog Cyfartal cyhoeddedig a heb eu cyhoeddi.	Strategaeth Cyflog Cyfartal cyfochrog yn cynnwys cynllun setliad ariannol i gwrdd â chostau gwrthbwyso hawliadau Cyflog Cyfartal llwyddiannus posib.
Sefyllfa ariannol y sector cyhoeddus	Effaith graddfa anrhagweladwy gostyngiadau mawr mewn adnoddau Llywodraeth Cymru a chystadlu gyda blaenoriaethau cenedlaethol ar y Grant Cynnal Refeniw (GCR) a grantiau penodol. Lefel gostyngiadau posib yn y GCR yn groes i gynllunio dangosol cyllideb Llywodraeth Cymru.	Dylanwadu ar benderfynwyr cenedlaethol trwy drafod fel rhan o'r negydu ar y cyd. Cynllunio Ariannol Tymor Canolig ar gyfer nifer o sefyllfaoedd heriol posib.
Cynllunio Ariannol Tymor Canolig	Cynllunio yn gallu addasu i ddarparu ar gyfer newid mewn rhagfynegiadau ar gyfer colli cyllid (gweler uchod). Aeddfedrwydd Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor i adlewyrchu newidiadau sefydliadol a gostyngiadau cost sylweddol/dewisiadau gwasanaeth.	Cynhyrchu dau fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn y flwyddyn a fydd yn cael eu diweddaru ar sail barhaus yn gyfochrog â chyllideb 2014/15. Ehangu maint rhaglen newid sefydliadol a lleihau costau.
Cynllun Busnes Tai	Methu cyflawni dyddiad cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru sy'n dderbyniol i Lywodraeth Cymru Meddu digon o adnoddau cyfalaf i ariannu'r gwaith gofynnol .	Cymeradwyo Cynllun Busnes Tai diwygiedig i gyrraedd y Safon erbyn 2022 neu 2020 (yr olaf yn amodol ar gymeradwyo benthyca) gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2013. Parhau i weld gwelliant ym mherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai ynghyd â dewisiadau strategol ar gyfer rhai adrannau o'r stoc dai.
Gweithio ar y Cyd gydag Iechyd	Effeithiau posibl ar y Cyngor fel partner os bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn mynd o dan fesurau arbennig. Effeithiau canlyniadau'r adolygiadau blaenorol o wasanaethau cymunedol ac adolygiadau o wasanaethau aciwt yn y dyfodol ar gynllunio gwasanaethau ar y cyd.	Cynllunio strategol ar y cyd effeithiol rhwng y ddau sefydliad. Llwyddiant cynllunio gwasanaeth ar y cyd a chynllunio a darparu ar lefel Sirol a lleol.
Ardal Adnewyddu Glannau Dyfrdwy	Effaith gostyngiadau adnoddau cyfalaf ar y nodau a'r amcanion ar gyfer tai a gwelliannau amgylcheddol .	Blaenoriaethu'r defnydd o'r adnoddau sydd ar gael. Amrywio'r adnoddau a dynnir i mewn ar gyfer buddsoddi yn yr Ardal Adnewyddu.

Hamdden	Cynaliadwyedd y gwasanaeth hamdden a'i bortffolio o gyfleusterau yn wyneb y gorwariant parhaus yn ei gyllideb blynyddol.	Penderfyniadau ynghylch y cynllun gweithredu sy'n datblygu ar gyfer y gwasanaeth. Penderfyniadau ynghylch graddfa cyfleusterau a gwasanaethau y gellir eu cynnal yn yr hir dymor.
Moderneiddio Ysgolion	Graddfa a chost gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion sydd wedi cronni. Dod i gytundeb ar y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Uwchradd arfaethedig. Capasiti ac effeithiau ariannol y rhaglen Moderneiddio Ysgolion.	Blaenoriaethu adnoddau cyfalaf i gwrdd â'r angen. Symud ymlaen gydag Adolygiadau'r tair Ardal Uwchradd. Buddsoddi mewn capasiti arbenigol a chwblhau'r broses achos busnes gyda Llywodraeth Cymru am yr arian cyfalaf Ysgolion G21ain a ddyrannwyd rhag blaen.
Diwygio Lles	Amddiffyn yr agored i niwed rhag effeithiau'r Diwygiadau Lles	Gweithredu rhaglen bartneriaeth mesurau amddiffyn y Diwygiadau Lles Cynnal cymorth, cyngor a diogelwch diwygiadau lles fel Blaenoriaeth i'r Cyngor Darparu cymorth penodol wedi'i dargedu trwy wasanaethau tai, hawliau lles, gofal cymdeithasol a budd-daliadau.
Llywodraethu Cydweithredol	Methu dwyn gwasanaethau i gyfrif yn ddigonol y gellir eu rheoli o dan drefniadau llywodraethu ar y cyd newydd a allai uniongyrchol. Methiant o ran cydlynedd a pherfformiad busnes yn ystod y newid o hen fodelau cyflenwi gwasanaeth i fodelau newydd.	Sicrhau modelau llywodraethu wedi'u cytuno a'u cefnogi ar gyfer unrhyw weithio ar y cyd newydd. Cymhwyso protocol y Cyngor yn llawn yng nghyswllt adroddiadau perfformiad ar gyfer gwasanaethau ar y cyd newydd.
Adolygiadau Cenedlaethol o'r Sector Cyhoeddus	Potensial cynigion sylweddol ar gyfer newid mewn cyfrifoldebau a swyddogaethau llywodraeth leol a gweithio rhanbarthol dan fodelau amgen o lywodraethu, comisiynu a darparu gwasanaethau, yn benodol:- • Y Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus • Adolygiad Hill (Addysg) Mae'r risg o ansicrwydd wrth flaengynllunio, effaith ar adnoddau ac amharu ar ddilyniant busnes wrth gynllunio a phontio ar gyfer unrhyw newid a bennir gan Lywodraeth Cymru yn sylweddol.	Cyfranogi'n weithredol yn yr adolygiadau. Cyfranogi'n weithredol yn y negydu a'r cynllunio dros unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt yn wleidyddol a phroffesiynol ar lefel leol a chenedlaethol. Blaenoriaethu amser ac adnoddau ar gyfer cynllunio unrhyw newid lleol gofynnol er mwyn gweithredu unrhyw newid a gyfarwyddir gan Lywodraeth Cymru.

Llofnod……Arweinydd y Cyngor

Llofnod ……Prif Weithredwr